**NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru)** C00/5463/2
**NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru)** C00/5463/3
**NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru)** C00/5463/4
**NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru)** C00/5463/5
**NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru)** C00/5382/6



# Manyleb y cymhwyster

# Crynodeb o'r cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) |
| **Rhif y cymhwyster** | C00/5463/2 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)** | 180 |
| **Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)** | 240 |
| **Cyfres wedi'i nythu** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o gyfres wedi'i nythu, gan gynnwys y cymwysterau canlynol:<br>• NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/2)<br>• NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3)<br>• NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4)<br>• NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5)<br>• NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6) |
| **Oedran ieuengaf** | 16 |
| **Pwrpas y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn darparu cyflwyniad sylfaenol i'r sector teithio a thwristiaeth, gan roi gwybodaeth hanfodol i ddysgwyr am y diwydiant a gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae wedi'i chynllunio ar gyfer y rhai hynny sy'n chwilio am raglen fer, sydd wedi'i ffocysu ac sy'n cefnogi symud ymlaen i gymhwyster lefel 3 ehangach neu i gyflogaeth lefel mynediad yn y sector. Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu i fodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru ac mae'n eu cefnogi i ymgysylltu â'r sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru. |
| **Graddio** | Heb ei gyflawni eto/pasio/teilyngdod/rhagoriaeth/rhagoriaeth* |
| **Dull asesu** | Portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i sicrhau'n allanol o ran ansawdd. |
| **Profiad o leoliad gwaith/diwydiant** | Nid oes angen profiad o leoliad gwaith/diwydiant. |
| **UCAS** | Gallai pwyntiau Tariff UCAS fod ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn. Ewch i wefan UCAS i gael rhagor o fanylion am ddyrannu pwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae hwn yn gymhwyster rheoledig. Rhif rheoleiddio'r cymhwyster hwn yw C00/5463/2. |
| **Cyllid** | Mae'r cymhwyster hwn yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Dylai canolfannau wirio cymhwysedd i gael cyllid gyda Cymwysterau Cymru. |



DRAFFT

| | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) |
| **Rhif y cymhwyster** | C00/5463/3 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)** | 360 |
| **Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)** | 480 |
| **Cyfres wedi'i nythu** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o gyfres wedi'i nythu, gan gynnwys y cymwysterau canlynol:<br>• NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/2)<br>• NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3)<br>• NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4)<br>• NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5)<br>• NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6) |
| **Oedran ieuengaf** | 16 |
| **Pwrpas y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r sector teithio a thwristiaeth drwy gyfuno gwybodaeth graidd ag unedau dewisol sy'n galluogi archwilio cyd-destunol. Fe'i cynlluniwyd i gefnogi dilyniant i addysg uwch fel rhan o raglen astudio ehangach, neu i swyddi sy'n gofyn am sylfaen gadarn o wybodaeth am y sector a sgiliau trosglwyddadwy. Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu i fodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru ac mae'n eu cefnogi i ymgysylltu â'r sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru. |
| **Graddio** | Heb ei gyflawni eto/pasio/teilyngdod/rhagoriaeth/rhagoriaeth* |
| **Dull asesu** | Portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i sicrhau'n allanol o ran ansawdd. |
| **Profiad o leoliad gwaith/diwydiant** | Nid oes angen profiad o leoliad gwaith/diwydiant. |
| **UCAS** | Gallai pwyntiau Tariff UCAS fod ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn. Ewch i wefan UCAS i gael rhagor o fanylion am ddyrannu pwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae hwn yn gymhwyster rheoledig. Rhif rheoleiddio'r cymhwyster hwn yw C00/5463/3. |
| **Cyllid** | Mae'r cymhwyster hwn yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Dylai canolfannau wirio cymhwysedd i gael cyllid gyda Cymwysterau Cymru. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) |
| **Rhif y cymhwyster** | C00/5463/4 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)** | 540 |
| **Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)** | 720 |
| **Cyfres wedi'i nythu** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o gyfres wedi'i nythu, gan gynnwys y cymwysterau canlynol:<br><br>• NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/2)<br>• NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3)<br>• NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4)<br>• NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5)<br>• NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6) |
| **Oedran ieuengaf** | 16 |
| **Pwrpas y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn cynnig rhaglen sylweddol sy'n datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth ymarferol sydd eu hangen ar gyfer dysgu pellach neu gyflogaeth yn y sector. Mae'n paratoi dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i ail flwyddyn rhaglen lefel 3, addysg uwch, neu gyflogaeth sy'n berthnasol i'r sector. Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu i fodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru ac mae'n eu cefnogi i ymgysylltu â'r sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru. |
| **Graddio** | Heb ei gyflawni eto/pasio/teilyngdod/rhagoriaeth/rhagoriaeth* |
| **Dull asesu** | Portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i sicrhau'n allanol o ran ansawdd. |
| **Profiad o leoliad gwaith/diwydiant** | Nid oes angen profiad o leoliad gwaith/diwydiant. |
| **UCAS** | Gallai pwyntiau Tariff UCAS fod ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn. Ewch i wefan UCAS i gael rhagor o fanylion am ddyrannu pwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae hwn yn gymhwyster rheoledig. Rhif rheoleiddio'r cymhwyster hwn yw C00/5463/4. |
| **Cyllid** | Mae'r cymhwyster hwn yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Dylai canolfannau wirio cymhwysedd i gael cyllid gyda Cymwysterau Cymru. |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) |
| **Rhif y cymhwyster** | C00/5463/5 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)** | 720 |
| **Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)** | 960 |
| **Cyfres wedi'i nythu** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o gyfres wedi'i nythu, gan gynnwys y cymwysterau canlynol:<br><br>• NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/2)<br>• NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3)<br>• NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4)<br>• NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5)<br>• NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6) |
| **Oedran ieuengaf** | 16 |
| **Pwrpas y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o raglen astudio lefel 3 eang, sy'n cynnig cynnwys manwl sy'n ymwneud â'r sector ar yr un pryd â chaniatáu i ddysgwyr ei gyfuno â phynciau ategol. Fe'i cynlluniwyd i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth helaeth o deithio a thwristiaeth, gan gefnogi dilyniant i gyflogaeth, prentisiaethau neu addysg uwch lle mae sylfaen sylfaenol ehangach yn fuddiol. Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu i fodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru ac mae'n eu cefnogi i ymgysylltu â'r sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru. |
| **Graddio** | Heb ei gyflawni eto/pasio/teilyngdod/rhagoriaeth/rhagoriaeth* |
| **Dull asesu** | Portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i sicrhau'n allanol o ran ansawdd. |
| **Profiad o leoliad gwaith/diwydiant** | Nid oes angen profiad o leoliad gwaith/diwydiant. |
| **UCAS** | Gallai pwyntiau Tariff UCAS fod ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn. Ewch i wefan UCAS i gael rhagor o fanylion am ddyrannu pwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae hwn yn gymhwyster rheoledig. Rhif rheoleiddio'r cymhwyster hwn yw C00/5463/5. |
| **Cyllid** | Mae'r cymhwyster hwn yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Dylai canolfannau wirio cymhwysedd i gael cyllid gyda Cymwysterau Cymru. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) |
| **Rhif y cymhwyster** | C00/5382/6 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)** | 1080 |
| **Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)** | 1440 |
| **Cyfres wedi'i nythu** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o gyfres wedi'i nythu, gan gynnwys y cymwysterau canlynol:<br><br>• NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/2)<br>• NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3)<br>• NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4)<br>• NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5)<br>• NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6) |
| **Oedran ieuengaf** | 16 |
| **Pwrpas y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn darparu rhaglen arbenigol sy'n darparu gwybodaeth helaeth sy'n benodol i'r sector ochr yn ochr â lefel uchel o sgiliau technegol a throsglwyddadwy. Mae'n paratoi dysgwyr ar gyfer mynediad uniongyrchol i addysg uwch mewn teithio, twristiaeth neu letygarwch, neu ar gyfer symud ymlaen i gyflogaeth fedrus. Dyma'r llwybr lefel 3 mwyaf cynhwysfawr, sy'n cynnig ehangder a dyfnder ar draws ystod eang o feysydd yn y diwydiant. Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu i fodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru ac mae'n eu cefnogi i ymgysylltu â'r sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru. |
| **Graddio** | Heb ei gyflawni eto/pasio/teilyngdod/rhagoriaeth/rhagoriaeth* |
| **Dull asesu** | Portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i sicrhau'n allanol o ran ansawdd. |
| **Profiad o leoliad gwaith/diwydiant** | Nid oes angen profiad o leoliad gwaith/diwydiant. |
| **UCAS** | Gallai pwyntiau Tariff UCAS fod ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn. Ewch i wefan UCAS i gael rhagor o fanylion am ddyrannu pwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae hwn yn gymhwyster rheoledig. Rhif rheoleiddio'r cymhwyster hwn yw C00/5382/6. |
| **Cyllid** | Mae'r cymhwyster hwn yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Dylai canolfannau wirio cymhwysedd i gael cyllid gyda Cymwysterau Cymru. |

DRAFT

# Cynnwys


**Crynodeb o'r cymhwyster** **3**

**Adran 1: cyflwyniad** **10**

Nodau ac amcanion 10
Canllawiau ar gyfer mynediad a chofrestru 10
Ennill y cymwysterau hyn 10
Tystysgrif Ragarweiniol 10
Tystysgrif 11
Diploma Rhagarweiniol 11
Diploma 11
Diploma Estynedig 11
Symud ymlaen gan gynnwys swyddi 11
Symud ymlaen i astudiaethau lefel uwch 12
Gofynion o ran adnoddau 12
Gofyniad amgylchedd gwaith realistig (RWE) 12
Sut mae'r cymwysterau'n cael eu hasesu 13
Asesiad mewnol 13
Paramedrau asesu 14
Llên-ladrad a defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) 15
Sicrhau ansawdd allanol 16
Ymholiadau am ganlyniadau 16
Gofynion ailgyflwyno 16
Heb gael gradd eto 17
Gwybodaeth am raddio 17
Graddio unedau a asesir yn fewnol 17
Dyfarnu'r radd derfynol 18

**Adran 2: cynnwys yr uned a chanllawiau asesu** **20**

Uned 01 Diwydiant teithio a thwristiaeth y DU (TTW-03-01) 22
Uned 02 Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-02) 32
Uned 03 Paratoi ar gyfer gyrfa ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-03) 42
Uned 04 Cyrchfannau teithio a thwristiaeth (TTW-03-04) 53
Uned 05 Atyniadau i ymwelwyr yn y DU (TTW-03-05) 61
Uned 06 Lletygarwch ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-06) 68
Uned 07 Profiad gwaith ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-07) 75
Uned 08 Gweithrediadau teithiau yn y DU (TTW-03-08) 82
Uned 09 Gweithrediadau asiantaethau teithio (TTW-03-09) 88
Uned 10 Diwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU (TTW-03-10) 95
Uned 11 Marchnata ar gyfer maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-11) 104
Uned 12 Diwydiant trafnidiaeth teithwyr y DU (TTW-03-12) 111
Uned 13 Rolau a chyfrifoldebau cynrychiolydd man gwyliau (TTW-03-13) 119
Uned 14 Y diwydiant mordeithio (TTW-03-14) 127
Uned 15 Atyniadau treftadaeth i dwristiaid yn y DU (TTW-03-15) 134
Uned 16 Twristiaeth gyfrifol (TTW-03-16) 143
Uned 17 Twristiaeth arbenigol (TTW-03-17) 150
Uned 18 Teithio busnes (TTW-03-18) 157
Uned 19 Adrodd straeon ar gyfer twristiaeth (TTW-03-19) 165


DRAFFT

Uned 20 Tywys teithiau (TTW-03-20) 173
Uned 21 Rheoli argyfwng ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-21) 179
Uned 22 Meysydd awyr y DU (TTW-03-22) 186
Uned 23 Ymchwilio i griw caban awyren (TTW-03-23) 193
Uned 24 Arweinyddiaeth ac adnoddau dynol (TTW-03-24) 200
Strategaeth asesu NCFE 209

**Adran 3: esbonio termau 210**

**Adran 4: cymorth 213**

Deunyddiau cymorth 213
Gwefannau defnyddiol 213
Deunyddiau cymorth eraill 214
Atgynhyrchu'r ddogfen hon 215

**Cysylltu â ni 216**

**Atodiad A: unedau 217**

Unedau gorfodol 217
Unedau dewisol 217

**Cofnod hanes newidiadau 220**

DRAFFT

# Adran 1: cyflwyniad

Sylwch mai fersiwn ddrafft o Fanyleb y Cymhwyster yw hwn ac mae’n debygol y bydd yn newid cyn i’r fersiwn derfynol gael ei chynhyrchu ar gyfer lansio’r cymhwyster.

Rhaid i ganolfannau sicrhau eu bod yn defnyddio fersiwn ddiweddaraf Manyleb y Cymhwyster ar wefan NCFE.

## Nodau ac amcanion

Nod y cymwysterau hyn yw:

- canolbwyntio ar astudio’r diwydiant teithio a thwristiaeth
- cynnig ehangder a dyfnder astudio, gan ymgorffori craidd allweddol o wybodaeth
- rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy sy’n berthnasol i astudiaethau pellach ac i’r gweithle.

Amcanion y cymwysterau hyn yw i:

- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o’r diwydiant teithio a thwristiaeth a’i brif feysydd gwaith
- rhoi dealltwriaeth fanwl i’r dysgwyr o egwyddorion y diwydiant teithio a thwristiaeth, a’u galluogi i edrych ar y gwahanol lwybrau gwaith yn y diwydiant hwn.

## Canllawiau ar gyfer mynediad a chofrestru

Mae’r cymwysterau hyn wedi’u llunio ar gyfer dysgwyr sy’n dymuno meithrin gwybodaeth a sgiliau yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. Y prif fwriad yw cefnogi dysgwyr 16 i 19 oed fel rhan o raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru ond gallant hefyd fod yn addas ar gyfer dysgwyr eraill lle bo hynny’n briodol. Mae cofrestru yn ddibynnol ar ddisgresiwn y ganolfan yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb, a dylid gwneud hynny ar Borth NCFE.

Nid oes unrhyw wybodaeth/sgiliau blaenorol penodol y mae’n rhaid i ddysgwr feddu arnynt ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, efallai y byddai’n ddefnyddiol i’r dysgwyr fod wedi ennill cymhwyster lefel 2 yn barod.

Mae canolfannau’n gyfrifol am sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyflawni’r unedau a’r deilliannau dysgu a chydymffurfio â’r gofynion perthnasol o ran llythrennedd, rhifedd ac iechyd a diogelwch.

Ni ddylai dysgwyr sydd wedi cofrestru ar y cymwysterau hyn ddilyn cymhwyster arall ar yr un lefel, neu sydd â'r un teitl neu deitl tebyg, gan y gallai dyblygu dysgu effeithio ar gymhwysedd i gael cyllid.

## Ennill y cymwysterau hyn

### Tystysgrif Ragarweiniol

Er mwyn ennill NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/2), mae’n ofynnol i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 3 o’r unedau gorfodol sy’n cael eu graddio.

### Tystysgrif

Er mwyn ennill NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3), mae'n ofynnol i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 3 o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio a 3 o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

### Diploma Rhagarweiniol

Er mwyn ennill NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4), mae'n ofynnol i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 3 o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio a 6 o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

### Diploma

Er mwyn ennill NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5), mae'n ofynnol i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 3 o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio a 9 o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

### Diploma Estynedig

Er mwyn ennill NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6), mae'n ofynnol i ddysgwyr lwyddo i gyflawni 3 o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio a 15 o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

Edrychwch ar y rhestr o unedau yn Atodiad A neu'r crynodebau o unedau yn Adran 2 i gael rhagor o wybodaeth.

I ennill y cymwysterau hyn, rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod wedi llwyddo i gyflawni pob un o ddeilliannau dysgu'r unedau fel y nodir yn y Fanyleb Cymhwyster hon. Gellir gofyn am dystysgrif rannol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ennill y cymhwyster llawn ond sydd wedi cyflawni o leiaf un uned gyfan; mae ffioedd tystysgrifau cyflawniad rhannol ar gael yn y ddogfen Ffioedd a Phrisiau ar wefan NCFE.

## Symud ymlaen gan gynnwys swyddi

Gallai dysgwyr sy'n ennill y cymwysterau hyn symud ymlaen i'r canlynol:

- cyflogaeth (symud ymlaen i rolau yn y sector teithio a thwristiaeth):
  - gwasanaeth i gwsmeriaid
  - teithio a thwristiaeth
  - gwasanaethau ymwelwyr
  - lletygarwch
  - asiantaeth teithio
  - hamdden a digwyddiadau
- addysg bellach (cymwysterau lefel 3 neu uwch mewn teithio a thwristiaeth) gan gynnwys:
  - NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3)
  - NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4)
  - NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5)
  - NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6).



DRAFT

## Symud ymlaen i astudiaethau lefel uwch

Mae cymwysterau Lefel 3 yn gallu cefnogi symud ymlaen i astudio lefel uwch, sy'n gofyn am wybodaeth a sgiliau gwahanol i'r rhai a enillwyd ar lefelau 1 a 2. Mae cymwysterau Lefel 3 yn galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- gymhwyso gwybodaeth bwnc ffeithiol, weithdrefnol a damcaniaethol
- defnyddio gwybodaeth a dulliau perthnasol i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth, anarferol
- dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol
- deall natur y maes astudio neu'r maes gwaith
- dangos ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau a dulliau gweithredu
- nodi, dewis a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol priodol
- defnyddio ymchwil briodol fel sail ar gyfer camau gweithredu
- adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd eu dulliau eu hunain.

## Gofynion o ran adnoddau

Nid oes unrhyw ofynion gorfodol o ran adnoddau ar gyfer y cymwysterau hyn, ond rhaid i ganolfannau sicrhau bod adnoddau addas ar gael i ddysgwyr i'w galluogi i gwmpasu'r holl ganlyniadau dysgu priodol.

## Gofyniad amgylchedd gwaith realistig (RWE)

Yn ddelfrydol, dylid asesu meini prawf sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn y gweithle. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad yw hyn yn ymarferol, gellir asesu dysgwyr mewn amgylchedd gwaith realistig (RWE) sydd wedi'i ddylunio i efelychu lleoliadau gwaith go iawn.

Mae'n hanfodol bod sefydliadau sy'n defnyddio amgylchedd gwaith realistig yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu amgylcheddau gwaith cyfredol a dilys yn gywir. Drwy wneud hynny, gall cyflogwyr fod yn hyderus y bydd cymhwysedd a ddangosir gan ddysgwr mewn amgylchedd gwaith realistig yn cael ei drosi'n berfformiad llwyddiannus mewn cyflogaeth. Wrth sefydlu amgylchedd gwaith realistig, dylid ystyried y ffactorau canlynol.

**Bod y sefyllfa waith sy'n cael ei chynrychioli yn berthnasol i'r gofynion cymhwysedd sy'n cael eu hasesu:**

- dylai'r sefyllfa waith fod yn debyg iawn i'r sefyllfa berthnasol
- rhaid i offer ac adnoddau sy'n atgynhyrchu'r sefyllfa waith fod yn gyfredol ac ar gael i'w defnyddio i sicrhau bod modd bodloni gofynion asesu
- dylai cyfyngiadau amser, mynediad at adnoddau ac argaeledd gwybodaeth adlewyrchu amodau go iawn.

**Mae gweithgareddau gwaith y dysgwr yn adlewyrchu'r rhai a geir yn yr amgylchedd gwaith sy'n cael ei gynrychioli, er enghraifft:**

- dylai rhyngweithio â chydweithwyr ac eraill adlewyrchu dulliau cyfathrebu disgwyliedig
- rhaid cwblhau'r tasgau o fewn amserlen dderbyniol
- rhaid i ddysgwyr allu cyflawni swmp realistig o waith fel y disgwylid yn y sefyllfa waith sy'n cael ei chynrychioli



DRAFFT

- mae dysgwyr yn gweithredu'n broffesiynol gyda dealltwriaeth glir o'u gweithgareddau gwaith a'u cyfrifoldebau
- bod adborth gan gydweithwyr ac eraill (er enghraifft, cwsmeriaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth) yn cael ei gynnal ac y gweithredir arno
- rhaid ystyried unrhyw ddeddfwriaeth, rheoliadau neu weithdrefnau safonol a fyddai'n cael eu dilyn yn y gweithle.

## Sut mae'r cymwysterau'n cael eu hasesu

Asesu yw'r broses o fesur sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwr yn erbyn y safonau a bennir mewn cymhwyster.

Mae'r cymwysterau hyn yn cael eu hasesu'n fewnol ac mae eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n allanol.

Mae'r asesiad yn cynnwys un elfen:

- portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol gan staff y ganolfan a'i sicrhau'n allanol gan NCFE (rhaid i'r ganolfan gwblhau'r gwaith sicrhau ansawdd mewnol fel arfer o hyd).

Rhaid i ddysgwyr fod yn llwyddiannus yn yr elfen hon i ennill:

- NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/2)
- NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3)
- NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4)
- NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5)
- NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6).

Gall dysgwyr nad ydynt yn llwyddiannus ailgyflwyno gwaith o fewn y cyfnod cofrestru; fodd bynnag, efallai y codir tâl mewn achosion lle mae angen ymweliadau sicrhau ansawdd allanol ychwanegol. Gweler yr adran gofynion Ailgyflwyno isod am fanylion llawn y broses ailgyflwyno.

Oni nodir yn wahanol yn y Fanyleb Cymhwyster hon, rhaid i bob dysgwr sy'n dilyn y cymwysterau hyn gael ei asesu yn Gymraeg neu yn Saesneg, a rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a gyflwynir ar gyfer sicrhau ansawdd allanol fod yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## Asesiad mewnol

Rhaid i bob dysgwr greu portffolio o dystiolaeth sy'n deillio o dasgau asesu priodol i ddangos ei fod wedi cyflawni'r holl deilliannau dysgu sy'n gysylltiedig â phob uned. Dylai'r tasgau asesu ganiatáu i'r dysgwr ymateb i sefyllfa go iawn y gallai ei hwynebu mewn cyflogaeth. Ar ôl cwblhau pob uned, rhaid i ddysgwyr ddatgan mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gynhyrchir a rhaid i'r asesydd ei gydlofnodi. Rhoddir enghreifftiau o dystiolaeth addas ar gyfer portffolio pob uned yn Adran 2.

Mae cyfantoli yn yr unedau sy'n cael eu hasesu'n fewnol gan fod y disgrifyddion graddio'n seiliedig ar deilliannau dysgu yn hytrach na meini prawf asesu penodol. Mae hyn yn caniatáu mwy o farn broffesiynol ar ran yr asesydd o ran lefel perfformiad cyffredinol y dysgwr yn erbyn y deilliannau dysgu.

Os oes angen i ganolfan greu ei thasgau asesu mewnol ei hun, mae pedair elfen hanfodol wrth gynhyrchu tasgau asesu llwyddiannus mewn canolfan; sef:



DRAFFT

- sicrhau bod y tasgau asesu yn ystyrlon gyda chanlyniadau clir y gellir eu hasesu
- ymdrin yn briodol â'r cynnwys, y deilliannau dysgu neu'r meini prawf asesu
- cael cyd-destun neu senario dilys a diddorol
- cynnwys digon o gyfleoedd i ymestyn a herio'r rhai sy'n cyflawni'n uwch.

## Paramedrau asesu

### Hyd yr asesiad

Gan fod y cymwysterau hyn yn cael eu hasesu'n fewnol drwy bortffolio tystiolaeth, nid oes cyfnod asesu penodol wedi'i ragnodi. Mae canolfannau'n strwythuro gweithgareddau asesu'n hyblyg ar draws y rhaglen, gan alluogi dysgwyr i gynhyrchu tystiolaeth ar adegau priodol yn ystod y ddarpariaeth. Dylai canolfannau sicrhau bod nifer gynrychioliadol o oriau asesu wedi'u hamserlennu o fewn eu cynllun gwaith, a bod gweithgareddau asesu mewnol yn cael eu cynnal y tu allan i sesiynau addysgu a dysgu rheolaidd.

### Goruchwyliaeth

Nid oes angen un lefel benodol o oruchwyliaeth ar gyfer cymhwyster sy'n seiliedig ar bortffolio ac sy'n cael ei asesu'n fewnol. Mae goruchwyliaeth yn cael ei chymhwyso'n gymesur ac yn cael ei phennu gan natur y gweithgaredd asesu. Mae'r dull hwn yn cydnabod y gall asesu ddigwydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol ac yn annibynnol.

Yn ystod gweithgareddau sy'n rhan o oriau dysgu dan arweiniad (ODDA), mae dysgwyr fel arfer yn gweithio dan oruchwyliaeth uniongyrchol tiwtor, asesydd neu aelod priodol arall o staff y ganolfan. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ymarferol wedi'u harsylwi, sesiynau asesu strwythuredig ac unrhyw asesiad sy'n digwydd mewn amser real. Ar gyfer canlyniadau sy'n seiliedig ar sgiliau, mae goruchwyliaeth yn fwyaf amlwg drwy arsylwi uniongyrchol, yn aml mewn amgylchedd gwaith realistig (RWE), lle mae dysgwyr yn dangos sgiliau o dan amodau sy'n cael eu rheoli a'u harsylwi.

Mae cyfran sylweddol o'r asesu yn digwydd y tu allan i oruchwyliaeth uniongyrchol, lle mae dysgwyr yn cwblhau tasgau fel aseiniadau ysgrifenedig, ymchwil ac adroddiadau myfyriol yn annibynnol ond dan gyfarwyddyd y ganolfan. Mae hyn yn gyson â chyfanswm yr amser cymhwyso (CAC), sy'n cynnwys gweithgarwch nad yw'n cael ei wneud dan oruchwyliaeth uniongyrchol ond sy'n dal i gael ei gynllunio a'i arwain gan y ganolfan.

Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau goruchwylio priodol ar waith i gynnal dilysrwydd tystiolaeth dysgwyr, wedi'u hategu gan brosesau sicrhau ansawdd mewnol.

### Adnoddau a ganiateir

Caniateir i ddysgwyr gael mynediad at amrywiaeth o adnoddau priodol yn ystod yr asesiad, yn unol â natur y dasg a'r rheolaethau a roddir ar waith gan y ganolfan. Gall ddysgwyr ddefnyddio:

- deunyddiau dysgu ac addysgu a ddarperir gan y ganolfan, fel nodiadau, taflenni a chyflwyniadau
- gwerslyfrau perthnasol ac adnoddau cyhoeddedig
- gwefannau a ffynonellau ar-lein cymeradwy, gan gynnwys defnyddio’r rhyngrwyd at ddibenion ymchwil



DRAFFT

- deunyddiau'r gweithle neu RWE, lle bo hynny'n berthnasol
- nodiadau personol a gwaith drafft, lle mae hyn yn rhan o'r broses ddysgu a datblygu.

Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith i gynnal dilysrwydd gwaith dysgwyr, atal llên-ladrad neu gamymarfer, a sicrhau mai gwaith annibynnol y dysgwr ei hun yw tystiolaeth yr asesiad. Lle bo angen, er enghraifft yn ystod gweithgareddau a arsylwir neu a reolir, gall canolfannau osod cyfyngiadau ar fynediad at adnoddau i sicrhau dilysrwydd penderfyniadau asesu.

### Adborth i ddysgwyr

Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau bod adborth a roddir i ddysgwyr yn ystod y broses asesu yn cefnogi dysgu heb beryglu cywirdeb na dilysrwydd gwaith a asesir.

Yn ystod yr addysgu a'r dysgu, gall tiwtoriaid ddarparu adborth cyffredinol i gynorthwyo cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfeirio dysgwyr at y deilliannau dysgu a'r disgrifyddion graddio
- egluro gofynion y dasg neu'r brîff asesu
- adborth cyffredinol ar gadw amser, presenoldeb a phrydlondeb.

Ni chaniateir y canlynol ar unrhyw gam o'r broses asesu:

- hyfforddi dysgwyr ar sut i gynhyrchu eu tystiolaeth
- darparu rhestr benodol o'r camau y mae'n rhaid i ddysgwr eu cymryd i ennill gradd benodol
- cywiro neu ailysgrifennu unrhyw ran o waith dysgwr.

Pan fydd canolfan yn rhoi adborth sy'n mynd y tu hwnt i'r paramedrau hyn, efallai y bydd cyflwyniad y dysgwr yn cael ei annilysu.

Ar ôl i radd uned gael ei hasesu a'i chyflwyno ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol, rhaid i'r asesydd beidio â rhoi adborth nac arweiniad ar sut i wella'r dystiolaeth. Pan fydd dysgwr yn ymarfer ei gyfle i ailgyflwyno ar ôl bancio gradd, rhaid i'r adborth nodi lle mae bylchau'n bodoli ond ni ddylai gyfarwyddo'r dysgwr ar sut i fynd i'r afael â nhw.

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol ar gyfer Cymwysterau a Asesir yn Fewnol NCFE, sydd ar gael ar wefan NCFE, wrth gefnogi dysgwyr sydd angen addasiadau i drefniadau asesu.

## Llên-ladrad a defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI)

Cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau bod mesurau lliniaru ar waith i atal camddefnyddio rhaglenni Deallusrwydd Artiffisial (AI) wrth gynhyrchu gwaith sy'n cael ei asesu'n fewnol. Rhaid i'r gwaith a gyflwynir fod yn waith y dysgwr ei hun.

Cynghorir canolfannau i ddatblygu a rhannu polisïau a chanllawiau clir gyda dysgwyr yn ogystal â chael canlyniadau clir wedi'u hamlinellu yn eu polisi camymarfer/llên-ladrad eu hunain. Ystyrir ei bod yn arfer da gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn sy'n gyfystyr â chamddefnyddio deallusrwydd artiffisial drwy amlinellu'r gwahaniaeth rhwng defnyddio deallusrwydd artiffisial i gynhyrchu'r gwaith, na ddylid ei ganiatáu, a'i ddefnyddio i'w helpu i gwblhau (fel creu syniadau neu awgrymiadau defnyddiol) a bod

unrhyw ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn cael ei ddatgan gan ddysgwyr gyda'r gwaith a gyflwynir ganddynt.

Mae'n ofynnol hefyd i ganolfannau ddefnyddio offer canfod llên-ladrad addas fel rhan o'u prosesau sicrhau ansawdd mewnol, i ganfod camddefnydd posibl o AI a sicrhau dilysrwydd tystiolaeth dysgwyr.

Rhaid i'r dysgwr nodi'n glir bob ffynhonnell a chyfeirnod a ddefnyddir mewn gwaith a asesir. Rhaid i unrhyw ddeunydd a ddyfynnir gael ei farcio'n glir gyda chyfeiriad wedi'i ddarparu. Dylai dysgwyr gyfeirio at Ganllaw i Ddysgwyr NCFE ar Gyfeirnodi, sydd ar gael ar wefan NCFE.

Er mwyn lliniaru'r risgiau o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn amhriodol, gallai canolfannau hefyd ystyried y canlynol:

- defnyddio tasgau cydweithredol lle gall cymheiriaid gadarnhau mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwaith
- creu tasgau gan gynnwys dadansoddi beirniadol neu fyfyrio ar brofiadau personol na ellir eu cynhyrchu'n dda gan AI
- gofyn i ddysgwyr gyflwyno deunyddiau drafft neu ddarparu diweddariadau ar wahanol adegau cyn eu cyflwyno
- cynnwys tasgau ysgrifenedig gyda thrafodaethau proffesiynol dilynol (lle bo hynny'n briodol) i sicrhau eu bod yn gallu dangos dealltwriaeth o bynciau ar lafar yn ogystal ag yn ysgrifenedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mholisi a Chanllawiau Camymarfer a Chamweinyddu NCFE ar Ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI), sy'n darparu dolen i ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ), sydd ill dau ar gael ar wefan NCFE.

## Sicrhau ansawdd allanol

Rhaid cyflwyno graddau wedi'u hasesu'n grynodol a'u sicrhau o ran ansawdd yn fewnol ar gyfer unedau wedi'u cwblhau drwy Borth NCFE, cyn i adolygiad sicrhau ansawdd allanol gael ei gynnal. Yn dilyn yr adolygiad sicrhau ansawdd allanol, bydd graddau'r uned naill ai'n cael eu derbyn a'u bancio gan eich swyddog sicrhau ansawdd allanol neu, os ydynt yn anghytuno â'r graddau, byddant yn cael eu gwrthod.

## Ymholiadau am ganlyniadau

Rhaid cyflwyno pob ymholiad sy'n ymwneud â chanlyniadau dysgwyr yn unol â'n Polisi Ymholiadau am Ganlyniadau a Phenderfyniadau Asesu, sydd ar gael ar wefan NCFE.

## Gofynion ailgyflwyno

Caniateir i ddysgwyr adolygu ac ailddrafftio eu gwaith yn rhydd ar unrhyw adeg cyn ei gyflwyno'n derfynol i'r asesydd ar gyfer graddio ar ddiwedd uned. Bydd dysgwyr yn cael un cyfle i ailgyflwyno fesul uned sy'n cael ei hasesu'n fewnol, a fydd yn cael ei sbarduno ar ôl asesu gradd yr uned, sicrhau ei hansawdd yn fewnol a'i bancio gan y sicrhawr ansawdd allanol – gan roi cyfanswm o ddwy ymgais fesul uned.

Os nad yw dysgwr wedi bodloni'r safon llwyddo, gall ailgyflwyno i fodloni'r meini prawf llwyddo; mae'r ailgyflwyniad yn cael ei gapio ar radd llwyddo. Os yw dysgwr eisoes wedi pasio ac yn dymuno gwella ei

radd, gall ailgyflwyno heb i gap gradd gael ei osod, gyda'r radd derfynol yn seiliedig ar ansawdd y gwaith a ailgyflwynwyd.

Rhaid i ailgyflwyniadau gael eu hawdurdodi gan berson sicrhau ansawdd mewnol y ganolfan. Rhaid cyflwyno tystiolaeth ddiwygiedig o fewn 15 diwrnod gwaith i dderbyn adborth gan yr asesydd ac o fewn cyfnod cofrestru'r dysgwr.

Gan fod graddio'n seiliedig ar y deilliant dysgu yn ei gyfanrwydd, mae ailgyflwyno'n cwmpasu'r deilliant dysgu llawn yn hytrach nag AC unigol. Dylai dysgwyr sicrhau bod tystiolaeth a ailgyflwynir yn mynd i'r afael â'r holl fylchau a nodwyd ar draws y deilliant dysgu.

Gall adborth yr asesydd ond egluro meysydd lle nad yw'r lefel perfformiad isaf neu ddisgwyliedig wedi'i chyrraedd. Ni ddylai aseswyr roi arweiniad ar sut i wella gwaith er mwyn bodloni'r meini prawf asesu neu ragori arnynt. Gweler yr adran Adborth i ddysgwyr uchod am fanylion llawn.

Rhaid i ganolfannau gadw gwaith gwreiddiol a diwygiedig y dysgwr, ei radd gychwynnol, adborth yr asesydd a'i radd derfynol at ddibenion Sicrhau Ansawdd Allanol. Pan fydd sicrhawr ansawdd allanol yn gwrthod gradd wedi'i bancio, rhaid i'r ganolfan ailasesu ac ailgyflwyno'r radd ddiwygiedig; ni fydd y gwaith a wrthodwyd yn cael ei ddychwelyd i'r dysgwr. Efallai y codir tâl pan fydd ailgyflwyno yn gofyn am ymweliad Sicrhau Ansawdd Allanol ychwanegol.

## Heb gael gradd eto

Bydd canlyniad nad yw'n cyflawni gradd pasio yn cael ei raddio fel gradd sydd heb ei chyflawni eto. Efallai y bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ailgyflwyno. Gweler yr adran ar ofynion Ailgyflwyno uchod.

## Gwybodaeth am raddio

Mae pob uned o'r cymhwyster yn cael ei graddio gan ddefnyddio'r strwythur canlynol: heb ei gyflawni eto, pasio, teilyngdod, rhagoriaeth. Dyfernir gradd rhagoriaeth* ar lefel cymhwyster yn unig.

### Graddio unedau a asesir yn fewnol

Mae disgrifyddion graddio wedi cael eu hysgrifennu ar gyfer pob un o'r deilliannau dysgu mewn uned. Rhaid i aseswyr fod yn hyderus bod tystiolaeth wedi'i chyflwyno o'r holl deilliannau dysgu, o leiaf, a'u bod wedi cael eu bodloni gan y dysgwr. Rhaid i aseswyr wneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y dysgwr i benderfynu ar y penderfyniad graddio ar gyfer yr uned.

Pan fydd aseswyr yn hyderus bod yr holl ddisgrifyddion pasio wedi cael eu bodloni, gallant symud ymlaen i benderfynu a yw'r disgrifyddion teilyngdod wedi cael eu bodloni. Os yw'r asesydd yn hyderus bod yr holl ddisgrifyddion teilyngdod wedi cael eu bodloni, gall benderfynu a yw'r disgrifiadau rhagoriaeth wedi cael eu bodloni. Wrth i'r disgrifiadau graddio ddatblygu o feini prawf y radd flaenorol, rhaid i'r dystiolaeth fodloni 100% o'r disgrifiadau gradd er mwyn i'r radd honno gael ei dyfarnu ar gyfer yr uned.

Os nad oes gan y dysgwr ddigon o dystiolaeth i fodloni'r meini prawf pasio, rhaid rhoi gradd "heb ei gyflawni eto" ar gyfer yr uned.

Yna, rhaid i ganolfannau gyflwyno gradd pob uned drwy Borth NCFE. Bydd y graddau a gyflwynir yn cael eu gwirio a'u cadarnhau drwy'r broses sicrhau ansawdd allanol. Gelwir hyn yn 'fancio' unedau. Ar ôl i



DRAFFT

radd dysgwr gael ei bancio, caniateir un cyfle iddo adolygu ac ailddrafftio ei waith. Gweler yr adran gofynion Ailgyflwyno uchod am fanylion llawn.

Mae'r gydran asesu mewnol yn seiliedig ar berfformiad tasgau penagored sy'n cael eu hasesu'n gyfannol yn erbyn y disgrifyddion graddio er mwyn cyflawni gradd.

Mae pob uned o'r cymhwyster yn cael ei hasesu'n fewnol a bydd pwysoliad yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar yr Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA) a sgôr sy'n seiliedig ar y radd gyfannol. Mae'r radd gyffredinol a gafwyd ar gyfer pob uned yn cael ei throsi'n sgôr graddfa farcio unffurf (UMS). Yna caiff y sgôr graddfa farcio unffurf ar gyfer pob uned ei chyfuno a'i throsi'n radd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster.

Mae cyfantoli yn yr unedau sy'n cael eu hasesu'n fewnol gan fod y disgrifyddion graddio'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu yn hytrach na meini prawf asesu penodol.

Mae angen dangos tystiolaeth o'r holl bwyntiau asesu ym mhortffolio'r dysgwr, ond mae'r radd a ddyfernir yn seiliedig ar safon y gwaith ar gyfer y deilliannau dysgu yn eu cyfanrwydd. Mae hyn yn caniatáu mwy o farnu proffesiynol ar ran yr asesydd o ran lefel perfformiad cyffredinol y dysgwr yn erbyn y deilliannau dysgu.

## Dyfarnu'r radd derfynol

Cyfrifir gradd derfynol y cymhwyster drwy gyfuno sgoriau graddfa farcio unffurf pob uned. Yna bydd y cyfanswm graddfa farcio unffurf yn cael ei drosi'n radd yn seiliedig ar y trothwyon sefydlog canlynol. Mae angen i ddysgwyr gael rhagoriaeth ar gyfer pob uned er mwyn cael gradd rhagoriaeth* gyffredinol:

| UMS | Mwyafrif | P | T | Rh |
|---|---|---|---|---|
| **Tystysgrif Ragarweiniol** | 300 | 135 | 165 | 195 |
| **Tystysgrif** | 600 | 270 | 330 | 390 |
| **Diploma Rhagarweiniol** | 900 | 405 | 495 | 585 |
| **Diploma** | 1200 | 540 | 660 | 780 |
| **Diploma Estynedig** | 1800 | 810 | 990 | 1170 |

Dyrennir gwerth graddfa farcio unffurf i bob uned yn seiliedig ar ei Oriau Dysgu dan Arweiniad a'i gyfraniad at gyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad y cymhwyster.

Mae'r radd a gyflawnir ar gyfer pob uned yn cael ei throsi'n sgôr UMS, ac mae cyfanswm y raddfa farcio unffurf a gyflawnir yn pennu gradd gyffredinol y cymhwyster yn unol â'r trothwyon cyhoeddedig uchod.

Dyfernir rhagoriaeth* pan fydd dysgwr yn cyflawni rhagoriaeth ym mhob uned sy'n cael ei graddio. Nid yw'n bosibl cael rhagoriaeth* drwy sgôr graddfa farcio unffurf yn unig.

I gael rhagor o arweiniad ar gyfrifo graddfa farcio unffurf a phennu graddau cyffredinol y cymhwyster, cyfeiriwch at yr wybodaeth am ddefnyddio graddfa farcio unffurf i gyfrifo gradd gyffredinol y cymhwyster, a'r gyfrifiannell graddio sy'n benodol i'r cymhwyster, sydd ar gael ar wefan NCFE.

DRAFFT

Mae gradd derfynol y cymhwyster yn seiliedig ar strwythur heb ei gyflawni eto, pasio, teilyngdod, rhagoriaeth a rhagoriaeth* a bydd yn cael ei rhoi i'r ganolfan gan NCFE ar ôl i'r ganolfan hawlio tystysgrif y dysgwr ar Borth NCFE.

I gael rhagor o wybodaeth am asesu, cyfeiriwch at y Canllaw i Ddefnyddwyr a'r Adroddiad Sicrhau Ansawdd Allanol, sydd ar gael ar wefan NCFE.

**Nid yw NCFE yn rhagweld unrhyw newidiadau i'r ffordd rydym yn cyfuno graddau nac i unrhyw drothwyon ar gyfer gradd gyffredinol; fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle mae'n rhaid gwneud hynny i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal dros amser. Felly, mae'n bosibl y bydd trothwyon graddau cyffredinol a gyhoeddir ym Manyleb y Cymhwyster hwn yn newid.**

DRAFFT

# Adran 2: cynnwys yr uned a chanllawiau asesu

Mae'r adran hon yn rhoi manylion strwythur a chynnwys y cymwysterau hyn, gan gynnwys graddio, lefelau, ac oriau dysgu dan arweiniad (ODDA).

### Sut mae tablau'r uned yn gweithio

Mae pob uned yn cynnwys adran ystod ac adran canllawiau cyflawni ac asesu.

Mae'r adran ystod yn nodi'r cynnwys ar gyfer pob maen prawf asesu. Mae'n egluro beth mae angen i ddysgwyr ei wybod a'i ddeall, dyfnder ac ehangder y cynnwys a ddisgwylir, a'r cynnwys sylfaenol y mae'n rhaid i ddysgwyr roi sylw iddo fel tystiolaeth.

Mae'r ystod yn defnyddio dau fath o gofnod i wneud hyn yn glir:

- **rhaid cynnwys** – cynnwys gorfodol. Rhaid i ddysgwyr a chanolfannau roi sylw i'r cynnwys hwn.
- **gall gynnwys** – cynnwys dewisol, enghreifftiol neu gynnwys a awgrymir. Mae'r cofnodion hyn yn dangos y cwmpas a'r dyfnder a ddisgwylir, a gellir eu defnyddio i lywio'r prosesau addysgu a dysgu, ond does dim rhaid i ganolfannau a dysgwyr eu dilyn.

Ar ddiwedd cynnwys ystod y meini prawf asesu, mae gofyniad asesu yn nodi'r cynnwys sylfaenol y mae'n rhaid i ddysgwr roi sylw iddo er mwyn dangos ei fod yn bodloni'r maen prawf asesu hwnnw. Mae bodloni'r gofyniad asesu yn cadarnhau bod y cynnwys angenrheidiol wedi cael sylw – nid yw hynny'n pennu'r radd fydd yn cael ei dyfarnu.

Mae'r adran canllawiau cyflawni ac asesu yn darparu gwybodaeth ategol i ganolfannau ar fformatau tystiolaeth, gwaith a gyflwynir, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a materion ymarferol eraill. Mae'n berthnasol i'r uned gyfan yn hytrach nag i faen prawf asesu unigol.

### Gofynion graddio ac asesu

Mae gan y gofyniad asesu a'r disgrifyddion graddio ddibenion gwahanol, a rhaid bodloni'r naill a'r llall.

Mae'r gofyniad asesu yn pennu'r cynnwys sylfaenol y mae'n rhaid i ddysgwr roi sylw iddo er mwyn cyflawni'r maen prawf asesu. Mae'r disgrifyddion graddio yn pennu ansawdd y ffordd o ddangos y cynnwys hwnnw, o'r lefel pasio hyd at ragoriaeth. Nid yw dysgwr sy'n cynhyrchu gwaith o safon rhagoriaeth ond sydd heb fodloni'r gofyniad asesu ar gyfer maen prawf asesu wedi dangos yn llawn ei fod yn bodloni'r maen prawf asesu hwnnw, ni waeth beth yw ansawdd yr hyn y mae wedi'i gynhyrchu.

### Mathau o dystiolaeth

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob uned. O fewn portffolios dysgwyr, mae mathau eraill o dystiolaeth yn dderbyniol os rhoddir sylw i'r holl ddeilliannau dysgu ac os oes modd i ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir gael ei sicrhau'n fewnol ac yn allanol. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Gellir cyflwyno tystiolaeth ar ffurf print neu ddigidol lle bo hynny'n briodol, a does dim rhaid i ddysgwyr argraffu gwaith pan fydd modd ei gyflwyno'n ddigidol.

Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae Manylebau Cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.

## Ymestyn a herio

Dylid ystyried y disgrifyddion graddio ochr yn ochr â'r canllawiau cyflawni ac asesu a ddarperir ym mhob uned. Mae canolfannau'n cael eu hannog i gefnogi dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau perthnasol ac esboniad o ddyfnder priodol wrth ddatblygu ymatebion. Gellir helpu i ymestyn a herio ar lefel ychwanegol drwy brosesau cyflawni ac arweiniad y ganolfan.

Mae'r esboniad o'r termau'n egluro sut mae'r termau sy'n ymddangos yng nghynnwys yr uned yn cael eu defnyddio yn y cymwysterau hyn. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld yn Adran 3.

DRAFFT

# Uned 01 Diwydiant teithio a thwristiaeth y DU (TTW-03-01)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r amrywiaeth o sefydliadau teithio a thwristiaeth yn ogystal â'u perchnogaeth a rhyngberthnasoedd. Bydd y dysgwr yn ystyried datblygiadau diweddar a hanesyddol yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU a'i gyfraniad presennol at economi'r DU. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Gorfodol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall yr amrywiaeth o sefydliadau teithio a thwristiaeth yn y DU | 1.1 Esbonio'r amrywiaeth o sefydliadau teithio a thwristiaeth yn y DU yn seiliedig ar y canlynol:<br>• **sectorau gwahanol** yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU<br>• **cynhyrchion a gwasanaethau** yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU<br>• gwahanol **gymdeithasau masnach** yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU | Defnyddio gwybodaeth am yr amrywiaeth o sefydliadau teithio a thwristiaeth yn y DU o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am yr amrywiaeth o sefydliadau teithio a thwristiaeth y DU, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am yr amrywiaeth o sefydliadau teithio a thwristiaeth yn y DU, wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu'n gywir yn ei eiriau ei hun |



DRAFFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 2. Deall sefydliadau teithio a thwristiaeth y DU, eu perchnogaeth a rhyngberthnasoedd | 2.1 Esbonio sefydliadau teithio a thwristiaeth y DU, eu **perchnogaeth** a **rhyngberthnasoedd** yn seiliedig ar:<br>• **asiantaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol** yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU<br>• sut mae'r sefydliadau hyn yn cydweithio | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 3. Deall effeithiau datblygiadau diweddar ar ddiwydiant teithio a thwristiaeth y DU | 3.1 Dadansoddi effeithiau datblygiadau diweddar ar ddiwydiant teithio a thwristiaeth y DU drwy ystyried y canlynol:<br>• **ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol,** | Dod i gasgliadau rhesymedig am effaith datblygiadau diweddar yn seiliedig ar wybodaeth briodol | Dod i gasgliadau rhesymedig a rhai cytbwys am effaith datblygiadau diweddar yn seiliedig ar yr wybodaeth | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am effaith datblygiadau diweddar sy'n sail i ddatblygiadau yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU yn y dyfodol |

DRAFFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | **amgylcheddol (PESTLE)**<br>• y datblygiadau diweddar a'r datblygiad hanesyddol sydd wedi siapio'r diwydiant teithio a thwristiaeth<br>• **cyfraniad** presennol diwydiant teithio a thwristiaeth y DU at economi'r DU | | | |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Rhaid i **sectorau gwahanol** gynnwys:<br><br>• trafnidiaeth (ffordd, rheilffordd, awyr a môr) – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ Trafnidiaeth Cymru – gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau (Cymru)<br>  ○ Great Western Railway – gwasanaethau rheilffyrdd sy'n cysylltu De Cymru â Llundain a De-orllewin Lloegr (Cymru)<br>  ○ Maes Awyr Caerdydd (Cymru)<br>• llety (wedi'i wasanaethu a heb ei wasanaethu) – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ Gwesty'r Celtic Manor, Casnewydd – cyrchfan bwysig o ran man gwyliau a chynadleddau (Cymru)<br>  ○ Safle Parc Cenedlaethol Bluestone, Sir Benfro – pentrefi gwyliau cynaliadwy (Cymru)<br>• gweithrediadau teithiau<br>• asiantaethau teithio<br>• atyniadau i ymwelwyr. |

DRAFFT

| **Ystod** |
| --- |
| Gall canolfannau gyfeirio dysgwyr at Croeso Cymru i gael data a gwybodaeth am nifer yr ymwelwyr, proffiliau ymwelwyr a gwariant twristiaeth yng Nghymru, ochr yn ochr â ffynonellau ledled y DU megis VisitBritain, i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r diwydiant ar lefel Cymru ac ar lefel y DU. Mae hyn yn adlewyrchu'r gofyniad i ddysgwyr edrych ar gyd-destunau teithio a thwristiaeth ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol a byd-eang, lle mae cenedlaethol yn cwmpasu Cymru fel gwlad ar wahân a'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.<br><br>**1.1** Gall **cynhyrchion a gwasanaethau** gynnwys:<br><br>• gwasanaethau tywys a gwybodaeth<br>• gwasanaethau ategol ac elfennau ychwanegol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ yswiriant<br>    ○ llogi car<br>    ○ parcio yn y maes awyrennau<br>• cynhyrchion llety – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ mathau o ystafelloedd<br>    ○ sail yr aros<br>    ○ pecynnau<br>• cynhyrchion trafnidiaeth – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ wedi'i drefnu<br>    ○ siarter<br>    ○ cost isel.<br><br>**1.1** Gall **cymdeithasau masnach** gynnwys:<br><br>• ABTA – The Travel Association<br>• AITO – The Specialist Travel Association<br>• BTA – Business Travel Association.<br><br>**Gofyniad asesu:** |



DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| **Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i:<br>  ○ o leiaf ddwy enghraifft ar gyfer pob sector o ddiwydiant teithio a thwristiaeth y DU<br>  ○ cynhyrchion a gwasanaethau a gynigir yn niwydiant teithio a thwristiaeth y DU a defnyddio'r derminoleg gywir<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn grŵp ar gyfer gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i bob dysgwr ddangos ei gyfraniad unigol a chynhyrchu crynodeb unigol o'i waith.<br><br>**Mathau o dystiolaeth**:<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• ffeil ffeithiau<br>• astudiaethau achos<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• datganiadau ysgrifenedig<br>• llyfrau gwaith/dyddlyfrau. |

| Ystod |
| --- |
| **2.1** Rhaid i **asiantaethau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol** gynnwys:<br><br>• sector cyhoeddus – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ cyrff a ariennir gan y llywodraeth<br>  ○ awdurdodau lleol<br>  ○ byrddau twristiaeth cenedlaethol |

| **Ystod** |
| --- |
| • sector preifat – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ busnesau twristiaeth fasnachol sy'n gweithredu er elw<br>• sector gwirfoddol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ elusennau<br>  ○ ymddiriedolaethau<br>  ○ partneriaethau twristiaeth a sefydliadau nid-er-elw.<br><br>**2.1** Rhaid i **berchnogaeth** gynnwys:<br><br>• nodau ac amcanion<br>• ffynonellau refeniw<br>• graddfa'r gweithredu – lleol, rhanbarthol, cenedlaethol.<br><br>**2.1** Gall **rhyngberthnasoedd** gynnwys:<br><br>• sut mae sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn cydweithio i gefnogi'r economi ymwelwyr<br>• y berthynas gyllido rhwng cyrff y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus<br>• sut mae strwythurau llywodraethu a chyflawni twristiaeth yn wahanol ar draws lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y DU, gan gynnwys cyd-destunau datganoledig megis Cymru<br>• sut mae sefydliadau ar y lefelau hyn yn cydweithio i gefnogi'r economi ymwelwyr.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i:<br>  ○ un sefydliad o bob sector, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod, gan gynnwys:<br>    ▪ rhyngberthnasoedd â sefydliadau eraill<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth. |



DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• astudiaethau achos<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• ymchwil neu ffeil ffeithiau. |

| Ystod |
|---|
| **3.1** Rhaid i **ffactorau PESTLE** gynnwys:<br><br>• gwleidyddol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ polisi llywodraeth<br>  ○ cytundebau masnach<br>  ○ rheolaethau fisa a ffiniau<br>• economaidd – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ cyfraddau cyfnewid<br>  ○ costau byw<br>  ○ grym gwario defnyddwyr<br>• cymdeithasol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ newidiadau yn nhueddiadau defnyddwyr<br>  ○ newidiadau demograffig<br>  ○ hygyrchedd<br>• technolegol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ llwyfannau archebu digidol<br>  ○ deallusrwydd artiffisial (AI)<br>  ○ tanwydd hedfan cynaliadwy |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • cyfreithiol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ deddfwriaeth iechyd a diogelwch<br>  ○ hawliau defnyddwyr<br>  ○ diogelu data<br>• amgylcheddol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ targedau cynaliadwyedd<br>  ○ allyriadau carbon<br>  ○ effaith newid yn yr hinsawdd ar gyrchfannau.<br><br>Gall dysgwyr edrych ar newidiadau cyfreithiol a rheoleiddiol diweddar:<br><br>• Awdurdod Teithio Electronig y DU (ETA, 2026)<br>• mandadau tanwydd hedfan cynaliadwy (2025)<br>• Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016<br>• Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 – Ardoll Ymwelwyr (Treth Twristiaid)<br>• Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026<br>• Dogfennau strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru, megis Going Places (Wales).<br><br>**3.1** Gall **cyfraniad economaidd** gynnwys:<br><br>• cyflogaeth – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ creu swyddi yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar draws y sector<br>• gwariant ymwelwyr – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ gwariant domestig a gwariant twristiaid sy'n dod i mewn<br>• cyfraniad at gynnyrch domestig gros (GDP) – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ cyfran y diwydiant teithio a thwristiaeth o allbwn economaidd y DU<br>• effaith economaidd ranbarthol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ cyfraniad at economïau lleol a datganoledig. |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| Lle bo'n briodol, gall canolfannau hefyd gynnwys cyfeiriad at gyfraniad y diwydiant teithio a thwristiaeth at economi Cymru – megis cyflogaeth ranbarthol, gwariant ymwelwyr a thwristiaeth i mewn i Gymru – gan sicrhau bod y dadansoddiad cyffredinol yn parhau i gyd-fynd â chyd-destun y DU sy'n ofynnol gan yr uned.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• pob ffactor PESTLE a sut mae'n effeithio ar ddiwydiant teithio a thwristiaeth y DU<br>• un digwyddiad arwyddocaol o bob un o'r cyfnodau canlynol ac esbonio sut y lluniodd y diwydiant teithio a thwristiaeth (sylwer: dim ond unwaith y gellir defnyddio un digwyddiad (er enghraifft, COVID-19) ar draws y pedwar cyfnod):<br>  ○ 1970–1989<br>  ○ 1990–2009<br>  ○ 2010–2019<br>  ○ 2020–hyd heddiw<br>• sut mae'r diwydiant teithio a thwristiaeth y DU yn dylanwadu ar economi'r DU. Rhaid i hyn gynnwys data ystadegol cyfredol sy'n dod o ffynonellau priodol ac wedi'i gyfeirnodi'n gywir.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• llinell amser<br>• astudiaethau achos<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• blogiau<br>• llyfrau gwaith/dyddlyfrau. |



DRAFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
|---|
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â’ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 02 Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-02)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o ran y gwasanaeth i gwsmeriaid a ddarperir gan sefydliadau teithio a thwristiaeth yn ogystal â gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Bydd y dysgwr yn egluro sut mae sefydliadau'n rheoli gwasanaeth i gwsmeriaid yn ogystal â'u polisïau a'u gweithdrefnau. Bydd y dysgwr hefyd yn dangos sut mae darparu gwasanaeth i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Gorfodol** | **P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall y gwasanaeth i gwsmeriaid a ddarperir gan sefydliadau teithio a thwristiaeth | 1.1 Gwerthuso'r gwasanaeth i gwsmeriaid a ddarperir gan sefydliadau teithio a thwristiaeth drwy ystyried y canlynol:<br>• y **camau sy'n gysylltiedig â'r daith gwasanaeth i gwsmeriaid**<br>• **dulliau o werthuso gwasanaeth i gwsmeriaid**<br>• **gwerthuso gwasanaeth cwsmeriaid** yn y sefydliad teithio a | Dod i gasgliadau rhesymedig am wasanaeth i gwsmeriaid yn seiliedig ar wybodaeth briodol | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am wasanaeth i gwsmeriaid yn seiliedig ar yr wybodaeth | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am wasanaeth i gwsmeriaid sy'n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |



DRAFFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | thwristiaeth a ddewisir<br>• argymhellion ar gyfer gwella gwasanaeth i gwsmeriaid yn y sefydliad teithio a thwristiaeth a ddewisir | | | |
| 2. Deall sut mae sefydliadau teithio a thwristiaeth yn rheoli gwasanaeth i gwsmeriaid | 2.1 Esbonio sut mae sefydliadau teithio a thwristiaeth yn rheoli gwasanaeth i gwsmeriaid yn seiliedig ar:<br>• sut i fodloni anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid **a rhagori arnynt**<br>• **polisïau a gweithdrefnau** mewn gwahanol sefydliadau teithio a thwristiaeth<br>• y **manteision o wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid** ym | Dod i gasgliadau rhesymedig am wasanaeth i gwsmeriaid yn seiliedig ar wybodaeth briodol | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am wasanaeth i gwsmeriaid yn seiliedig ar yr wybodaeth | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am wasanaeth i gwsmeriaid sy'n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | maes teithio a thwristiaeth | | | |
| 3. Gallu darparu gwasanaeth i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth | 3.1 Darparu gwasanaeth i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth drwy wneud y canlynol:<br>• dangos sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid mewn gwahanol **sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth** gyda **gwahanol fathau o gwsmeriaid a'u hymddygiad**<br>• gwerthuso eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cymheiriaid | Dangos y defnydd o rywfaint o sgiliau arbenigol wrth ddelio â sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth gwahanol | Dangos defnydd effeithiol o sgiliau arbenigol wrth ddelio â gwahanol sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth | Dangos defnydd cyson ac effeithiol o sgiliau arbenigol wrth ddelio â gwahanol sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth |

| Ystod |
|---|
| **1.1** Gall **y camau sy'n gysylltiedig â'r daith gwasanaeth i gwsmeriaid** gynnwys:<br><br>• pa mor hawdd yw archebu neu brynu<br>• croeso a chyfarfod a chyfarch<br>• argraffiadau cyntaf ac ymddangosiad<br>• amwynderau |

DRAFT

| Ystod |
|---|
| • y gwasanaeth a ddarperir.<br><br>**1.1** Rhaid i **ddulliau o werthuso gwasanaeth i gwsmeriaid** gynnwys y canlynol:<br><br>• ymarferion siopwr cudd (gwaith ymchwil sylfaenol neu eilaidd).<br><br>**1.1** Gall **dulliau o werthuso gwasanaeth i gwsmeriaid** hefyd gynnwys:<br><br>• cytundebau lefel gwasanaeth<br>• sgôr hyrwyddwr net<br>• sgôr ymdrech cwsmeriaid<br>• boddhad cwsmeriaid<br>• profiad cwsmeriaid.<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi gweithgareddau siopwr dirgel mewn cyd-destun i adlewyrchu sefydliadau teithio a thwristiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru, megis atyniadau i ymwelwyr, lleoliadau lletygarwch neu ddarparwyr trafnidiaeth, gan gynnal dealltwriaeth ledled y DU o arferion gwasanaeth i gwsmeriaid.<br><br>**1.1** Gall **gwerthuso gwasanaeth i gwsmeriaid** gynnwys:<br><br>• sut mae'r sefydliad yn perfformio yn erbyn safonau presennol y diwydiant<br>• sut mae perfformiad yn cymharu â disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• y camau sy'n gysylltiedig â'r daith gwasanaeth i gwsmeriaid<br>• ymarferion siopwr cudd i werthuso'r gwasanaeth i gwsmeriaid a ddarperir gan y sefydliad teithio a thwristiaeth a ddewisir<br>• gwerthusiad o'u canfyddiadau yn erbyn safonau presennol y diwydiant |



DRAFT

| Ystod |
| --- |
| • argymhellion ar gyfer gwella gwasanaeth i gwsmeriaid yn y sefydliad a ddewisir.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• llyfryddiaeth<br>• siart llif<br>• astudiaethau achos<br>• tystiolaeth tyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• datganiadau ysgrifenedig<br>• blogiau. |

| Ystod |
| --- |
| **2.1** Gall **anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid** gynnwys:<br><br>• mathau o gwsmeriaid – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ teithwyr busnes<br>  ○ teithwyr hamdden<br>  ○ grwpiau<br>  ○ unigolion<br>  ○ teuluoedd â phlant<br>  ○ cwsmeriaid sydd â gofynion arbennig<br>  ○ cwsmeriaid sydd ag achlysuron arbennig<br>• ymchwil sylfaenol neu eilaidd, gan gynnwys profiad y dysgwyr eu hunain o archebu gwyliau. |



DRAFT

**Ystod**

**2.1** Gall **polisïau a gweithdrefnau** gynnwys:

- gwerthoedd, gweledigaeth a datganiadau cenhadaeth y cwmni
- y gwasanaethau a'r cynhyrchion a gynigir
- presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu â chwsmeriaid.

**2.1** Gall **manteision gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid** gynnwys:

- manteision i gwsmeriaid mewnol – gall enghreifftiau gynnwys:
  - boddhad staff
  - perfformiad tîm
- manteision i gwsmeriaid allanol – gall enghreifftiau gynnwys:
  - profiad cadarnhaol
  - teyrngarwch
- manteision i'r sefydliad – gall enghreifftiau gynnwys:
  - enw da
  - refeniw
  - cwsmeriaid yn dychwelyd tro ar ôl tro.

Lle bo'n berthnasol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun i adlewyrchu sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys sut mae dulliau gweithredu o ran gwasanaeth i gwsmeriaid yn adlewyrchu proffiliau ymwelwyr rhanbarthol, ystyriaethau iaith neu nodweddion y farchnad leol. Gall hyn gynnwys edrych ar ddylunio gwasanaethau cynhwysol sy'n cefnogi hygyrchedd a phrofiadau cadarnhaol i ymwelwyr ar draws grwpiau amrywiol o gwsmeriaid.

Gall enghreifftiau o fewn economi ymwelwyr Cymru gynnwys:

- Safleoedd Cadw sy'n cynnig tywyslyfrau a theithiau dwyieithog
- Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan
- Techniquest (Bae Caerdydd)
- Distyllfa Penderyn

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • Zip World (Gogledd Cymru)<br>• Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth neu Amgueddfa Ceredigion (Canolbarth Cymru)<br>• Canolfannau ymwelwyr Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro neu Dyddewi (Gorllewin Cymru).<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• diffiniad o wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid a'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio â gwahanol sefyllfaoedd ac ymddygiadau gwasanaeth i gwsmeriaid<br>• manteision gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid (mewnol ac allanol) ac i'r sefydliad<br>• y gwahanol fathau o gwsmeriaid a'u hanghenion a'u disgwyliadau<br>• cymhariaeth rhwng o leiaf ddau sefydliad gwahanol gan ddangos sut maen nhw'n ceisio bodloni anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• llyfryddiaeth<br>• astudiaethau achos<br>• tystiolaeth tyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• datganiadau ysgrifenedig<br>• blogiau<br>• llyfrau gwaith/dyddlyfrau. |

| Ystod |
|---|

DRAFFT

**3.1** Gall s**efyllfaoedd teithio a thwristiaeth** gynnwys:

- cwynion
- digwyddiadau
- damweiniau.

**3.1** Gall **mathau o gwsmeriaid a'u hymddygiad** gynnwys:

- cwsmeriaid dig
- cwsmeriaid ypset
- cwsmeriaid hapus
- pobl hŷn
- pobl iau
- cwsmeriaid sydd â gofynion arbennig
- cwsmeriaid ag angen penodol.

Gall senarios a osodir o fewn cyd-destunau teithio a thwristiaeth Cymru gynnwys:

- rhyngweithio mewn amgylcheddau dwyieithog
- sefyllfaoedd sy'n ymwneud ag ymwelwyr domestig a rhyngwladol i Gymru.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- cymryd rhan mewn o leiaf ddwy sefyllfa chwarae rôl neu efelychiadau mewn gwahanol sefyllfaoedd teithio a thwristiaeth gyda gwahanol fathau o gwsmeriaid a'u hymddygiad
- cwblhau o leiaf un ymarfer ysgrifenedig – gall enghreifftiau gynnwys ymateb i lythyr cwyno neu adolygiad negyddol
- gwerthuso eu sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid arbenigol eu hunain a'u cymheiriaid (fel y nodwyd yn neilliannau dysgu 2) a dogfennu eu canfyddiadau, yn seiliedig ar adborth:
  - gan diwtoriaid

DRAFFT

- gan gymheiriaid
- o hunanfyfyrio.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- astudiaethau achos
- tystiolaeth tyst
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- blogiau
- llyfrau gwaith/dyddlyfrau
- cofnodi.

**Canllawiau cyflawni ac asesu**

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.

Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â’ch sicrhawr ansawdd allanol.



DRAFFT

DRAFFT

# Uned 03 Paratoi ar gyfer gyrfa ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-03)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o ran cyfleoedd cyflogaeth ac effaith y tueddiadau presennol mewn teithio a thwristiaeth. Bydd y dysgwr yn paratoi ar gyfer gyrfa ym maes teithio a thwristiaeth drwy gynhyrchu CV neu broffil personol, cynnal archwiliad sgiliau, a chwblhau dogfen gais i safon broffesiynol. Bydd y dysgwr hefyd yn cynllunio ar gyfer cyfweliad ac yn cymryd rhan ynddo, yn gwerthuso ei berfformiad, ac yn llunio cynllun gweithredu. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Gorfodol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall y cyfleoedd cyflogaeth a'r tueddiadau mewn teithio a thwristiaeth | 1.1 Dadansoddi'r **cyfleoedd cyflogaeth** a'r tueddiadau mewn teithio a thwristiaeth drwy ystyried:<br>• cyfleoedd cyflogaeth mewn teithio a thwristiaeth<br>• **effaith y tueddiadau presennol** ar gyfleoedd cyflogaeth mewn teithio a thwristiaeth | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw/llyfryn gyrfa | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun, ar ffurf canllaw/llyfryn gyrfa | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw/llyfryn gyrfa |
| 2. Gallu paratoi ar gyfer gyrfa yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 2.1 Dangos sut i **baratoi ar gyfer gyrfa yn y diwydiant teithio a** | Dangos y defnydd o rywfaint o sgiliau arbenigol wrth gwblhau | Dangos defnydd effeithiol o sgiliau arbenigol wrth gwblhau | Dangos defnydd cyson ac effeithiol o sgiliau arbenigol wrth gwblhau |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | **thwristiaeth** drwy wneud y canlynol:<br>• paratoi CV neu broffil personol<br>• archwilio eu **sgiliau**, eu cymwysterau, eu profiad a'u diddordebau eu hunain i fodloni'r gofynion o ran:<br>o gwneud cais am swydd<br>o astudiaethau lefel uwch, neu<br>o prentisiaeth<br>• ymchwilio i wahanol agweddau ar y broses ymgeisio ar gyfer y llwybr a ddewisir<br>• cwblhau dogfennau cais arferol i safon broffesiynol | proses ymgeisio i safon broffesiynol | cais i safon broffesiynol | cais i safon broffesiynol |
| 3. Gallu cymryd rhan mewn cyfweliad am swydd yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 3.1 Cymryd rhan mewn cyfweliad am swydd yn y diwydiant teithio a thwristiaeth drwy:<br>• **cynllunio ar gyfer cyfweliad** ar gyfer y | Cwblhau cyfres o dasgau cymhleth ar gyfer cyfweliad swydd ar gyfer y llwybr gyrfa a ddewisir ym maes teithio a thwristiaeth | Cwblhau cyfres o dasgau cymhleth yn gywir, i raddau helaeth, ar gyfer cyfweliad swydd ar gyfer y llwybr gyrfa a ddewisir ym maes teithio | Cwblhau cyfres o dasgau cymhleth yn gywir a bodloni'r holl ofynion ar gyfer cyfweliad swydd ar gyfer y llwybr gyrfa a ddewisir |

DRAFFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | llwybr gyrfa a ddewisir ym maes teithio a thwristiaeth<br>• **cymryd rhan mewn cyfweliad** ar gyfer y llwybr gyrfa a ddewisir ym maes teithio a thwristiaeth | | a thwristiaeth | ym maes teithio a thwristiaeth |
| 4. Deall ei berfformiad ei hun mewn cyfweliad ar gyfer y swydd a ddewisir ym maes teithio a thwristiaeth a llunio cynllun gweithredu ar gyfer gwella | 4.1 Gwerthuso ei berfformiad ei hun mewn cyfweliad ar gyfer y swydd a ddewisir ym maes teithio a thwristiaeth a llunio cynllun gweithredu ar gyfer gwella drwy ystyried:<br>• eu **paratoadau eu hunain** ar gyfer y cyfweliad<br>• eu **perfformiad eu hunain** yn y cyfweliad<br>• **adborth** o'r cyfweliad | Llunio cynllun gweithredu i wella'r canlyniad, sydd â rhai cysylltiadau â phrofiad y cyfweliad | Llunio cynllun gweithredu i wella'r canlyniad, sydd wedi'i gysylltu'n glir â phrofiad y cyfweliad | Llunio cynllun gweithredu cynhwysfawr i wella'r canlyniad, wedi'i gysylltu'n glir â phrofiad y cyfweliad |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Rhaid i sectorau **cyfleoedd cyflogaeth** gynnwys y canlynol: |

DRAFFT

**Ystod**

- trafnidiaeth (ffordd, rheilffordd, awyr a môr)
- llety (wedi'i wasanaethu a heb ei wasanaethu)
- gweithrediadau teithiau
- asiantaethau teithio
- atyniadau i ymwelwyr
- gwasanaethau tywys a gwybodaeth.

Gall cyfleoedd cyflogaeth hefyd gynnwys edrych ar is-sectorau:

- teithio hamdden
- digwyddiadau
- hedfan
- teithiau busnes
- Economi ymwelwyr Cymru, gan gynnal safbwynt ledled y DU ar lwybrau gyrfa gan gynnwys:
  - rolau o fewn cyrff twristiaeth rhanbarthol
  - rheoli cyrchfannau
  - sefydliadau
  - darparwyr trafnidiaeth neu atyniadau mawr i ymwelwyr sy'n gweithredu yng Nghymru
  - gall enghreifftiau o fewn economi ymwelwyr Cymru gynnwys:
    - Zip World
    - Amgueddfa Cymru – Museum Wales
    - safleoedd treftadaeth Cadw
    - Gwesty'r Celtic Manor
    - Man Gwyliau Bluestone yn y Parc Cenedlaethol
    - ICC Cymru.

Mae'r sefydliadau hyn yn cynnig amrywiaeth o lwybrau gyrfa o ran atyniadau i ymwelwyr, digwyddiadau, lletygarwch a rheoli cyrchfannau, gan gynnwys rolau lefel mynediad, prentisiaethau a chyfleoedd i raddedigion. Gall canolfannau hefyd gyfeirio dysgwyr at gynlluniau cyflogaeth a sgiliau Cymraeg sy'n cefnogi gyrfaoedd yn yr economi ymwelwyr.



DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| **1.1** Gall **effaith tueddiadau presennol** gynnwys:<br><br>• dylanwad ffactorau PESTLE (fel y nodwyd yn Uned 01) ar gyfleoedd cyflogaeth<br>• rolau sy'n dod i'r amlwg neu rolau sy'n dirywio o ganlyniad i newid technolegol, amgylcheddol neu economaidd.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i:<br>  ○ sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth, gan nodi pum swydd allweddol ym mhob sector gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod:<br>    ▪ ar gyfer pob sector, rhaid i bob swydd gynnwys:<br>      • gofynion mynediad<br>      • sgiliau arbenigol<br>      • cyflog disgwyliedig<br>      • cyfleoedd datblygu<br>      • trosolwg o'r swydd<br>  ○ effaith y tueddiadau presennol ar gyfleoedd cyflogaeth ym maes teithio a thwristiaeth<br>• cynhyrchu canllaw/llyfryn gyrfa.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• astudiaethau achos<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• blogiau. |

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| **2.1** Gall **paratoi ar gyfer gyrfa** gynnwys:<br><br>• cynllun datblygiad personol (CDP)<br>• dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT)<br>• gwybodaeth am pam yr hoffai'r dysgwr gael gyrfa yn y sector/diwydiant a ddewisir, gan gynnwys yr hyn sy'n dda a'r hyn sy'n ddrwg.<br><br>**2.1** Rhaid i **sgiliau** gynnwys:<br><br>• sefyllfa bresennol y dysgwr ran:<br>    ○ sgiliau a rhinweddau<br>    ○ llwyddiannau<br>    ○ cymwysterau<br>    ○ profiad<br>    ○ hobïau a diddordebau.<br><br>**2.1** Gall y **broses ymgeisio** gynnwys:<br><br>• canolfannau asesu<br>• profion seicometrig<br>• chwarae rôl<br>• cyflwyniadau<br>• mathau o gyfweliadau – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ yn seiliedig ar gymhwysedd<br>    ○ dull STAR o weithredu, sef sefyllfa, tasg, gweithredu, canlyniad<br>• cyfweliadau mewn grŵp<br>• gofal personol<br>• gofynion o ran iaith<br>• gofynion o ran nofio (criw caban)<br>• arferion recriwtio a ddefnyddir gan gyflogwyr yn y diwydiant teithio a thwristiaeth yng Nghymru – gall enghreifftiau gynnwys: |



DRAFT

**Ystod**

- llwybrau prentisiaeth
- gofynion o ran cyfathrebu yn ddwyieithog
- cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- paratoi ar gyfer gyrfa ym maes teithio a thwristiaeth drwy archwilio eu sgiliau, eu cymwysterau, eu profiad a'u diddordebau eu hunain ar gyfer y llwybr gyrfa a ddewisir
- ymchwilio i wahanol agweddau ar y broses ymgeisio ar gyfer y llwybr a ddewisir ganddyn nhw
- cwblhau dogfennau cais arferol i safon broffesiynol.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- CV neu broffil personol
- llythyr eglurhaol
- archwiliad sgiliau
- portffolio
- astudiaethau achos
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- blogiau.

**Ystod**

**3.1** Gall **cynllunio ar gyfer cyfweliad** gynnwys:

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • ymchwil i'r sefydliad, y rôl a'r disgwyliadau<br>• paratoi rhestr o gwestiynau a phwyntiau trafod<br>• meddwl am y dillad priodol.<br><br>**3.1** Gall **cymryd rhan mewn cyfweliad** gynnwys:<br><br>• cyfweliad go iawn gyda chyflogwr allanol<br>• cyfweliad efelychiedig<br>• sefydliadau yng Nghymru fel ffocws ymchwil cyfweliadau, gan alluogi dysgwyr i ddangos:<br>  ○ dealltwriaeth o ddisgwyliadau cyflogwyr lleol<br>  ○ amodau'r farchnad lafur ranbarthol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• dangos tystiolaeth o ymchwil i'r sefydliad, y rôl a'r disgwyliadau, a'r broses gynllunio<br>• dangos tystiolaeth o baratoi ar gyfer y cyfweliad, gan gynnwys rhestr o gwestiynau a phwyntiau trafod<br>• cymryd rhan mewn cyfweliad, naill ai go iawn neu un efelychiedig:<br>  ○ lle mae'r cyfweliad yn cael ei efelychu, rhaid i hyn gael ei ategu gan arsylwad tyst manwl gan y tiwtor, wedi'i lofnodi gan yr asesydd a'r dysgwr<br>  ○ os oes cyfweliad go iawn wedi'i gynnal, rhaid cynnwys tystiolaeth ategol gan y cyfwelydd sy'n rhoi manylion am berfformiad y dysgwr.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• cynllun cyfweliad |

DRAFFT

**Ystod**

- tystiolaeth tyst
- cofnod arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- tystiolaeth ategol arall (os yw ar gael).

**Ystod**

**4.1** Gall ei **baratoadau ei hun** gynnwys:

- addasrwydd ar gyfer y rôl
- cyflwyniad ac ymddangosiad
- iaith y corff
- prydlondeb
- gwybodaeth y daethpwyd i'r cyfweliad (er enghraifft, tystysgrifau).

**4.1** Gall ei **berfformiad ei hun** gynnwys:

- ymatebion i gwestiynau
- cwestiynau a ofynnwyd
- y gallu i gyfathrebu a gweithio mewn tîm
- perfformiad prawf seicometrig.

**4.1** Rhaid i **adborth** gynnwys:

- adborth gan gymheiriaid
- adborth gan diwtoriaid
- adborth gan y cyfwelydd (lle bo ar gael).

**Gofyniad asesu:**

DRAFT

## Ystod

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- gwerthuso eu perfformiad eu hunain mewn cyfweliad, gan ystyried eu paratoadau, eu perfformiad a'r adborth a gafwyd gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod
- nodi gwelliannau i'w gwneud, yn seiliedig ar eu gwerthusiad.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- cynllun gweithredu
- tystiolaeth tyst
- adroddiadau arsylwi
- gwerthuso
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.

DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 04 Cyrchfannau teithio a thwristiaeth (TTW-03-04)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr am apêl cyrchfannau teithio a thwristiaeth i wahanol fathau o deithwyr drwy ymchwilio i wahanol gyrchfannau yn y DU, Ewrop a ledled y byd. Bydd y dysgwr hefyd yn llunio argymhelliad cyrchfan ar gyfer teithiwr yn seiliedig ar ei ymchwil a'i werthusiad. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gwybod sut mae cyrchfannau teithio a thwristiaeth yn apelio at wahanol fathau o deithwyr | 1.1 Disgrifio **apêl** cyrchfannau teithio a thwristiaeth i **wahanol fathau o deithwyr** yn seiliedig ar:<br>• **lleoliadau daearyddol** cyrchfannau yn y DU a thramor<br>• apêl cyrchfannau teithio a thwristiaeth | Nodi lleoliadau ar fapiau yn gyson ac yn gywir gan ddefnyddio gwybodaeth dechnegol briodol.<br><br>Dod i gasgliadau rhesymedig am apêl cyrchfannau teithio a thwristiaeth yn y DU a thramor yn seiliedig ar wybodaeth briodol am anghenion gwahanol fathau o deithwyr | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am apêl cyrchfannau teithio a thwristiaeth yn y DU a thramor yn seiliedig ar wybodaeth am anghenion gwahanol fathau o deithwyr | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am apêl cyrchfannau teithio a thwristiaeth yn y DU a thramor yn seiliedig ar wybodaeth briodol am anghenion gwahanol fathau o deithwyr sy'n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |
| 2. Gwybod am y gwahanol gyrchfannau yn y DU, Ewrop a ledled y byd | 2.1 Disgrifio gwahanol gyrchfannau yn y DU, Ewrop a ledled y byd yn seiliedig ar: | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun ar ffurf llyfrynnau | Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • **cyrchfannau** yn y DU, Ewrop a ledled y byd<br>• **gwahanol fathau** o gyrchfannau | | wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun ar ffurf llyfrynnau | gwahanol, a'i chyfleu'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf llyfrynnau |
| 3. Gallu llunio argymhelliad ar gyfer teithiwr | 3.1 Cynhyrchu argymhelliad i **deithiwr** drwy:<br>• **ymchwilio** i dri chyrchfan a'u gwerthuso<br>• gwneud argymhellion yn seiliedig ar ei ganfyddiadau | Dod i gasgliadau rhesymedig ar gyfer argymhelliad i deithiwr yn seiliedig ar ymchwil briodol | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys ar gyfer argymhelliad i deithiwr yn seiliedig ar yr ymchwil | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys ar gyfer argymhelliad i deithiwr sy'n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Gall **apêl** gynnwys:<br><br>• hinsawdd a thywydd<br>• diwylliant a threftadaeth<br>• gweithgareddau ac atyniadau<br>• hygyrchedd<br>• cost<br>• diogelwch.<br><br>**1.1** Gall y **gwahanol fathau o deithwyr** gynnwys:<br><br>• oedolion |

| Ystod |
|---|
| • teuluoedd<br>• teithwyr antur<br>• teithwyr annibynnol<br>• teithwyr wedi ymddeol<br>• eco-dwristiaid<br>• teithwyr busnes.<br><br>**1.1** Gall **lleoliadau daearyddol** gynnwys:<br><br>• gwledydd<br>• prifddinasoedd<br>• cyfandiroedd<br>• cefnforoedd a moroedd<br>• mynyddoedd.<br><br>Gall gweithgareddau mapio gynnwys cyrchfannau yng Nghymru – gall enghreifftiau gynnwys:<br><br>• parciau cenedlaethol<br>• ardaloedd arfordirol<br>• safleoedd treftadaeth (er enghraifft, safleoedd Cadw)<br>• dinasoedd mawr<br>• digwyddiadau diwylliannol (er enghraifft, yr Eisteddfod Genedlaethol).<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• lleoliadau daearyddol prif gyrchfannau twristiaid yn y DU a thramor<br>• o leiaf bum math gwahanol o deithwyr a'u hanghenion<br>• casgliadau am apêl cyrchfannau teithio a thwristiaeth yn seiliedig ar anghenion pob math o deithiwr. |



DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• mapiau (gan gynnwys allbrintiau oddi ar y rhyngrwyd)<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• blogiau<br>• taflenni gwaith. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Rhaid i **gyrchfannau** gynnwys:<br><br>• y DU<br>• Ewrop<br>• y byd i gyd.<br><br>**2.1** Gall y **gwahanol fathau o gyrchfannau** gynnwys:<br><br>• hanesyddol<br>• diwylliannol<br>• glan y môr<br>• dinas<br>• chwaraeon gaeaf.<br><br>Lle bo'n berthnasol, gall hyn gynnwys dewis cyrchfan yng Nghymru fel yr enghraifft ofynnol yn y DU. Gellir edrycha ar gyrchfannau yng Nghymru drwy adnoddau – gall enghreifftiau gynnwys:<br><br>• Hyb Gwyliau Hygyrch Croeso Cymru – profiadau cynhwysol a hygyrch ledled Cymru |

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • cronfa'r Pethau Pwysig – seilwaith twristiaeth gan gynnwys cyfleusterau hygyrch.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i:<br>  ○ dri chyrchfan, gan gynnwys o leiaf un o'r DU, Ewrop a'r byd i gyd, gyda phob cyrchfan yn cwmpasu gwahanol fathau. Ar gyfer pob cyrchfan, rhaid i ddysgwyr gynnwys:<br>    ▪ gofynion pasbort/fisa<br>    ▪ map o'r wlad sy'n dangos y gyrchfan<br>  ○ ystod o'r cyfleusterau – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ▪ llety<br>    ▪ mathau o weithgareddau<br>    ▪ nodweddion daearyddol<br>    ▪ hygyrchedd<br>    ▪ cysylltiadau trafnidiaeth<br>    ▪ hinsawdd<br>    ▪ costau<br>• cynhyrchu tri llyfryn gwybodaeth<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• mapiau<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• datganiadau ysgrifenedig<br>• blogiau |



DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • astudiaethau achos. |

| Ystod |
|---|
| **3.1** Gall **teithiwr** gynnwys:<br><br>• oedolion<br>• teuluoedd<br>• teithwyr antur<br>• teithwyr annibynnol<br>• teithwyr wedi ymddeol<br>• eco-dwristiaid.<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau gynnwys cyrchfannau yng Nghymru o fewn yr ystod o opsiynau a ystyriwyd – gall enghreifftiau gynnwys:<br><br>• eco-dwristiaeth<br>• twristiaeth ddiwylliannol<br>• cyfleoedd am deithio antur.<br><br>**3.1** Gall **ymchwilio** gynnwys:<br><br>• arolygon<br>• cyfryngau cymdeithasol<br>• cyfweliadau<br>• grwpiau ffocws.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol: |

DRAFFT

## Ystod

- ymchwilio i dri chyrchfan a allai fod yn addas ar gyfer y teithiwr a ddewisir ganddyn nhw, a’u gwerthuso
- gwneud argymhelliad yn seiliedig ar eu hymchwil a’u gwerthusiad
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- ffeil ymchwil
- adroddiad ysgrifenedig
- datganiadau ysgrifenedig
- blogiau
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- astudiaethau achos
- canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon neu gyfweliadau.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 05 Atyniadau i ymwelwyr yn y DU (TTW-03-05)

| Crynodeb o’r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o atyniadau i ymwelwyr a wnaed gan ddyn ac atyniadau i ymwelwyr sy’n rhai naturiol, a deall sut mae atyniadau i ymwelwyr yn gwella’r apêl i gwsmeriaid. Bydd y dysgwr yn adolygu technegau rheoli ymwelwyr a ddefnyddir mewn atyniad i ymwelwyr ac yn deall effeithiau atyniad i ymwelwyr ar y gymuned a’r ardal leol. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae’r uned hon yn cael ei hasesu’n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae’r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall gwahanol atyniadau i ymwelwyr yn y DU | 1.1 Esbonio atyniadau i ymwelwyr a wnaed gan ddyn ac atyniadau i ymwelwyr sy’n rhai naturiol | Cefnogi pob pwynt gyda rhai enghreifftiau manwl o atyniadau | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a rhai cymariaethau priodol rhwng atyniadau | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a chymariaethau priodol rhwng atyniadau |
| 2. Deall sut mae atyniadau ymwelwyr yn ceisio gwella eu hapêl i gwsmeriaid | 2.1 Esbonio sut mae atyniadau ymwelwyr yn cynyddu eu hapêl i farchnad darged ehangach drwy **arallgyfeirio** | Dod i gasgliadau rhesymedig yn seiliedig ar wybodaeth briodol i ddangos sut mae’r atyniadau wedi arallgyfeirio i wella eu hapêl | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys yn seiliedig ar yr wybodaeth i ddangos sut mae’r atyniadau wedi defnyddio arallgyfeirio i wella eu hapêl | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys yn seiliedig ar wybodaeth briodol i ddangos sut mae’r atyniadau wedi defnyddio arallgyfeirio i wella eu hapêl sy’n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |


DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 3. Deall technegau rheoli ymwelwyr mewn atyniad i ymwelwyr | 3.1 Esbonio **technegau rheoli ymwelwyr** a ddefnyddir mewn atyniad i ymwelwyr | Disgrifio effeithiolrwydd y technegau rheoli ymwelwyr a ddefnyddir a chysylltu'r rhain â llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, y canlyniad cyffredinol | Disgrifio effeithiolrwydd y technegau rheoli ymwelwyr a ddefnyddir a chyfiawnhau eu defnydd | Disgrifio effeithiolrwydd y technegau rheoli ymwelwyr a ddefnyddir, cyfiawnhau eu defnydd ac awgrymu gwelliannau |
| 4. Deall effaith atyniad i ymwelwyr ar y gymuned a'r ardal leol | 4.1 Esbonio **effeithiau** cadarnhaol a negyddol atyniad i ymwelwyr ar y gymuned leol a'r ardal leol | Dod i gasgliadau rhesymedig yn seiliedig ar wybodaeth briodol am yr effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y gymuned leol a'r ardal | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys yn seiliedig ar yr wybodaeth am effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y gymuned leol | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys yn seiliedig ar yr wybodaeth sy'n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |

## Ystod

**1.1** Gall **atyniadau i ymwelwyr** gynnwys:

- a wnaed gan ddyn:
  - safleoedd treftadaeth
  - amgueddfeydd ac orielau
  - parciau thema ac atyniadau hamdden
  - safleoedd treftadaeth Cadw (Cymru)
  - yr Eisteddfod Genedlaethol (Cymru)
- naturiol:
  - parciau cenedlaethol
  - ardaloedd arfordirol a chefn gwlad
  - Parc Cenedlaethol Eryri neu Arfordir Penfro
- atyniadau eraill sy'n cyfrannu at economi ymwelwyr Cymru.



DRAFT

| Ystod |
| --- |
| Gall canolfannau hefyd gyfeirio dysgwyr at y ddogfen Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer strategaeth yr Economi Ymwelwyr, sy'n darparu cyd-destun defnyddiol ar gyfer deall rôl atyniadau i ymwelwyr o fewn tirwedd dwristiaeth ehangach Cymru.<br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i:<br>  ○ dau atyniad i ymwelwyr a wnaed gan ddyn a dau atyniad naturiol yn y DU, gall hyn gynnwys:<br>    ▪ lleoliad a mynediad i drafnidiaeth<br>    ▪ hygyrchedd<br>    ▪ amseroedd agor<br>    ▪ cynhyrchion a gwasanaethau<br>    ▪ marchnadoedd darged<br>    ▪ nodweddion, manteision a phwynt gwerthu unigryw (USP)<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• cyflwyniad<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• datganiadau ysgrifenedig<br>• llyfrau gwaith/dyddlyfrau<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• astudiaethau achos<br>• tudalen we<br>• blogiau. |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **2.1** Gall **arallgyfeirio** gynnwys:<br><br>• galw gan ymwelwyr rhanbarthol<br>• natur dymhorol<br>• nodweddion y farchnad leol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i:<br>  ○ un atyniad a wnaed gan ddyn ac un atyniad naturiol i ymwelwyr yn y DU, yn trafod sut mae pob un wedi defnyddio arallgyfeirio i gynyddu ei apêl, gan gynnwys:<br>    ▪ cynhyrchion a gwasanaethau sylfaenol ac eilaidd<br>    ▪ dulliau dehongli ymwelwyr<br>    ▪ lleoliad a mynediad<br>    ▪ effaith arallgyfeirio<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• erthygl cylchgrawn<br>• adolygiad<br>• cyflwyniad<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• astudiaethau achos<br>• blogiau. |

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| **3.1** Gall **technegau rheoli ymwelwyr** gynnwys:<br><br>• nifer yr ymwelwyr a sut y cânt eu casglu<br>• symudiad ymwelwyr o fewn yr atyniad<br>• traffig a pharcio<br>• cynaliadwyedd yr atyniad<br>• cyfeirio.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• adolygu atyniad i ymwelwyr a gwerthuso'r technegau rheoli ymwelwyr a ddefnyddir<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• adolygiad<br>• ymweliad â'r atyniad<br>• siaradwr gwadd<br>• taith rithwir<br>• adroddiadau arsylwi<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• astudiaethau achos<br>• cyflwyniad<br>• holiaduron |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • mapiau ymwelwyr<br>• blogiau. |

| Ystod |
|---|
| 4.1 Rhaid i'r **effeithiau** gynnwys:<br><br>• ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE).<br><br>Gall yr effeithiau o fewn cymunedau yng Nghymru gynnwys:<br><br>• cyflogaeth a datblygu rhanbarthol<br>• cynaliadwyedd amgylcheddol<br>• ymgysylltiad â'r gymuned.<br><br>Gall strategaethau twristiaeth a datblygiadau polisi Llywodraeth Cymru gynnwys:<br><br>• Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru<br>• Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr<br>• Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i:<br>  ○ effeithiau cadarnhaol a negyddol yr atyniad i ymwelwyr a ddewiswyd yn neilliannau dysgu 3 ar y gymuned a'r ardal leol, gan ddefnyddio fframwaith PESTLE<br>  ○ ffactorau PESTLE gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth. |

DRAFFT

## Ystod

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- erthygl papur newydd
- erthygl cylchgrawn
- adolygiad cymunedol
- adroddiadau arsylwi
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- blogiau
- astudiaethau achos
- cyflwyniad.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.

Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol.

DRAFFT

# Uned 06 Lletygarwch ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-06)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o rôl y sector lletygarwch ym maes teithio a thwristiaeth a'r cynhyrchion a gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Bydd y dysgwr yn ystyried sut mae darparwyr lletygarwch yn bodloni anghenion a disgwyliadau amrywiaeth o gwsmeriaid. Bydd y dysgwr hefyd yn dylunio pecyn lletygarwch. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall rôl y sector lletygarwch ym maes teithio a thwristiaeth | 1.1 Esbonio rôl y sector lletygarwch ym maes teithio a thwristiaeth drwy ystyried y canlynol:<br>• yr amrywiaeth o **ddarparwyr lletygarwch** yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>• yr ystod o **becynnau, cynhyrchion a gwasanaethau lletygarwch** a ddarperir gan sefydliadau teithio a thwristiaeth | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw | Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 2. Deall sut mae darparwyr lletygarwch yn bodloni anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid | 2.1 Gwerthuso sut mae darparwyr lletygarwch a ddewisir yn y diwydiant teithio a thwristiaeth yn bodloni anghenion a disgwyliadau ystod o **gwsmeriaid** | Dod i gasgliadau rhesymedig ynghylch sut mae'r darparwyr lletygarwch a ddewisir yn y diwydiant teithio a thwristiaeth yn bodloni anghenion a disgwyliadau amrywiaeth o gwsmeriaid y seiliedig ar wybodaeth briodol | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys ynghylch sut mae'r darparwyr lletygarwch a ddewisir yn y diwydiant teithio a thwristiaeth yn bodloni anghenion a disgwyliadau amrywiaeth o gwsmeriaid yn seiliedig ar yr wybodaeth | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys sy'n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |
| 3. Gallu dylunio pecyn lletygarwch ar gyfer cwsmer a ddewisir | 3.1 Dylunio pecyn lletygarwch ar gyfer cwsmer a ddewisir drwy wneud y canlynol:<br>• nodi anghenion cwsmer a ddewisir<br>• creu **pecyn lletygarwch** i fodloni anghenion y cwsmer | Creu pecyn lletygarwch yn seiliedig ar anghenion cwsmer a ddewisir | Creu pecyn lletygarwch sy'n seiliedig yn gywir, i raddau helaeth, ar anghenion cwsmer a ddewisir | Creu pecyn lletygarwch sy'n bodloni yn gywir holl anghenion cwsmer a ddewisir |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Rhaid i **ddarparwyr lletygarwch** gynnwys:<br><br>• llety<br>• lleoliadau chwaraeon<br>• bwytai<br>• bariau<br>• cyfleusterau a lleoliadau cynadledda. |

DRAFT

**Ystod**

Lle bo’n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun drwy ddewis darparwyr lletygarwch sy’n gweithredu yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i edrych ar lety, lleoliadau a chyfleusterau yn economi ymwelwyr Cymru fel rhan o’r ystod ofynnol, ar yr un pryd â chynnal dealltwriaeth ledled y DU o’r sector lletygarwch.

**1.1** Gall **pecynnau, cynhyrchion a gwasanaethau lletygarwch** gynnwys:

- pecynnau priodas
- pecynnau cynhadledd
- pecynnau tymhorol
- pecynnau ar gyfer achlysuron arbennig.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- ymchwilio i amrywiaeth o ddarparwyr lletygarwch gan nodi’r cynhyrchion, y gwasanaethau a’r pecynnau maen nhw’n eu darparu
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- canllaw
- astudiaethau achos
- adroddiadau arsylwi
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- blogiau
- cyflwyniad.



DRAFFT

**Ystod**

**2.1** Rhaid i **gwsmeriaid** gynnwys:

- hamdden
- busnes
- unigolion
- grwpiau
- y rhai hynny ag anghenion penodol.

Lle bo'n berthnasol, gall canolfannau gynnwys darparwyr yng Nghymru, gan ganiatáu i ddysgwyr ystyried sut gall lleoliad rhanbarthol, galw tymhorol neu ddarpariaeth gwasanaeth ddwyieithog ddylanwadu ar sut mae anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid yn cael eu bodloni. Gall darparwyr lletygarwch yng Nghymru hefyd brofi amrywiadau yn y galw sy'n gysylltiedig â digwyddiadau diwylliannol a chenedlaethol mawr – gall enghreifftiau gynnwys:

- Yr Eisteddfod Genedlaethol
- Gŵyl y Dyn Gwyrdd
- Gŵyl y Gelli
- Sioe Frenhinol Cymru.

Gall canolfannau hefyd ystyried sut mae disgwyliadau gwasanaeth dwyieithog, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg wrth gyfathrebu â chwsmeriaid, ar fwydlenni ac ar arwyddion, yn cyfrannu at brofiadau lletygarwch cynhwysol yng Nghymru.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- gwerthuso sut mae dau fath gwahanol o ddarparwr lletygarwch yn bodloni anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid
- dewis dau fath gwahanol o sefydliad – er enghraifft, un gwesty ac un bwyty (rhaid peidio â dewis dau sefydliad tebyg).

**Mathau o dystiolaeth:**

DRAFFT

**Ystod**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- llyfryddiaeth
- astudiaethau achos
- cyflwyniad
- adroddiad ysgrifenedig
- tystiolaeth glyweledol
- llyfrau gwaith/dyddlyfrau
- adroddiadau arsylwi
- blogiau.

**Ystod**

**3.1** Gall y **pecyn lletygarwch** gynnwys:

- llety
- bwyd a diod
- adloniant a gweithgareddau
- trefniadau o ran trafnidiaeth
- gwasanaethau arbennig – gall enghreifftiau gynnwys:
  - triniaethau sba
  - tocynnau ar gyfer digwyddiadau
  - teithiau tywys.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau gynnwys dylunio pecynnau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, er enghraifft gan ddefnyddio atyniadau, digwyddiadau neu brofiadau rhanbarthol lleol, ar yr amod mai anghenion y cwsmer a nodwyd yw'r prif ffocws o hyd.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

DRAFFT

**Ystod**

- cynhyrchu proffil cwsmer ar gyfer cwsmer a ddewisir, gan gynnwys:
  - oedran
  - hunaniaeth o ran rhywedd (os yw'n berthnasol)
  - cyd-destun o ran incwm neu economaidd-gymdeithasol
  - statws perthynas (os yw'n berthnasol)
  - diddordebau a dewisiadau
  - pwrpas y pecyn
  - unigolyn neu grŵp
- cynnig pecyn lletygarwch i fodloni anghenion y cwsmer a ddewisir, gan gyfiawnhau sut mae'n bodloni'r anghenion hynny.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- llyfryddiaeth
- cyflwyniad
- taflen
- tudalen we
- pamffledi
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- datganiadau ysgrifenedig
- llyfrau gwaith/dyddlyfrau
- blogiau
- astudiaethau achos
- ffeil ymchwil.

DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 07 Profiad gwaith ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-07)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o strwythur, polisïau a gwerthoedd sefydliad teithio a thwristiaeth a ddewisir. Bydd y dysgwr yn paratoi ar gyfer ac yn cwblhau cyfnod o brofiad gwaith ac yn cofnodi hyn. Bydd y dysgwr hefyd yn adolygu ei gyfnod o brofiad gwaith. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall y sefydliad teithio a thwristiaeth a ddewisir | 1.1 Disgrifio'r sefydliad teithio a thwristiaeth a ddewisir yn seilieidig ar:<br>• **strwythur**, gan gynnwys rolau staff a chysylltiadau â sefydliadau eraill<br>• gweithdrefnau'r sefydliad<br>• **gweledigaeth a gwerthoedd** y sefydliad<br>• cynhyrchion, gwasanaethau a phrif weithgareddau'r sefydliad | Disgrifio materion sy'n ymwneud ag arfer presennol mewn perthynas â'r darparwr profiad gwaith a ddewisir | Disgrifio materion sy'n ymwneud ag arfer presennol gan ddefnyddio termau arbenigol priodol yn eu cyd-destun i ddangos dealltwriaeth o sut maent yn berthnasol i'r darparwr profiad gwaith a ddewisir | Disgrifio materion sy'n ymwneud ag arfer presennol yn gywir, gan ddefnyddio termau arbenigol yn eu cyd-destun i ddangos dealltwriaeth o sut mae hyn yn effeithio ar y darparwr profiad gwaith a ddewisir |
| 2. Gallu paratoi ar gyfer a chwblhau cyfnod o | 2.1 Dangos eich bod yn paratoi ac yn | Cwblhau'r portffolio/dyddlyfr/blog a | Dim teilyngdod ar gyfer y maen prawf asesu hwn | Dim rhagoriaeth ar gyfer y maen prawf asesu hwn |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| brofiad gwaith yn y sefydliad teithio a thwristiaeth a ddewisir | cwblhau cyfnod o brofiad gwaith yn y sefydliad teithio a thwristiaeth a ddewisir drwy wneud y canlynol:<br>• cynhyrchu cynllun ar gyfer y cyfnod profiad gwaith<br>• ymchwilio i **delerau ac amodau** profiad gwaith<br>• cysgodi aelod o staff yn y gwaith<br>• cwblhau cyfnod o brofiad gwaith | chynnwys tystiolaeth o 30 awr a mwy o brofiad gwaith | | |
| 3. Gallu adolygu ei gyfnod o brofiad gwaith | 3.1 Adolygu ei gyfnod o brofiad gwaith drwy ddangos y canlynol:<br>• gwaith maen nhw wedi'i wneud<br>• **sgiliau cyflogadwyedd** maen nhw wedi'u defnyddio a/neu eu datblygu a manteision profiad gwaith | Dod i gasgliadau rhesymedig yn seiliedig ar ei brofiad gwaith | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys yn seiliedig ar ei brofiad gwaith | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys sy'n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |



DRAFFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • perthnasedd y profiad gwaith i'w CV/proffil personol | | | |

**Ystod**

**1.1** Gall **strwythur** gynnwys:

- sector (cyhoeddus, preifat neu wirfoddol)
- hierarchaeth sefydliadol
- prosesau gwneud penderfyniadau.

**1.1** Gall **weledigaeth a gwerthoedd** gynnwys:

- datganiad cenhadaeth
- nodau a blaenoriaethau'r sefydliad
- ymrwymiadau cymunedol neu gynaliadwyedd.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi'r lleoliad mewn cyd-destun i sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i edrych ar strwythur a swyddogaethau busnesau teithio a thwristiaeth yn economi ymwelwyr Cymru. Lle bo'n berthnasol, gall hyn gynnwys ystyried sut mae polisïau'n adlewyrchu cyd-destun Cymreig – gall enghreifftiau gynnwys:

- arferion cyfathrebu dwyieithog o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- egwyddorion datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i:

DRAFFT

**Ystod**

  - strwythur y sefydliad teithio a thwristiaeth o'ch dewis, gan gynnwys:
    - rolau staff
    - prosesau gwneud penderfyniadau
    - cysylltiadau â sefydliadau eraill
  - gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad
  - cynhyrchion, gwasanaethau a phrif weithgareddau'r sefydliad
  - polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad, gan gynnwys:
    - diogeledd
    - diogelu data
    - iechyd a diogelwch
    - gwasanaeth i gwsmeriaid
    - cydraddoldeb ac amrywiaeth
    - cod ymddygiad staff
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Os nad oes polisïau a gweithdrefnau ar gael yn uniongyrchol, gall dysgwyr fynd i'r afael â'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud i fodloni'r gofynion perthnasol – er enghraifft, beth mae'n ei wneud i sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch sylfaenol yn cael eu bodloni.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- dyddlyfr
- blog
- taflenni gwaith
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- adroddiad ysgrifenedig.

DRAFFT

**Ystod**

**2.1** Rhaid i'r **telerau ac amodau** gynnwys:

- enw cyswllt
- cod gwisg
- oriau a diwrnodau gwaith
- gweithdrefnau salwch.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- cynhyrchu cynllun ar gyfer y cyfnod profiad gwaith
- ymchwilio i delerau ac amodau'r profiad gwaith a'u dogfennu
- cysgodi o leiaf un aelod o staff yn y gwaith a llunio cyfrif 'diwrnod ym mywyd', gan gynnwys y sgiliau, y rhinweddau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y rôl ac unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) neu hyfforddiant a gafwyd
- cwblhau o leiaf 30 awr o brofiad gwaith, wedi'i gefnogi gan log dyddiol neu ddyddiadur wedi'i lofnodi gan aelod priodol o staff (yn parhau o 1.1).

Lle bo'n briodol, gall canolfannau gynnwys lleoliadau mewn safleoedd teithio a thwristiaeth yng Nghymru, megis atyniadau lleol, darparwyr lletygarwch neu sefydliadau cyrchfan, ar yr amod bod isafswm y gofyniad o ran oriau a'r meini prawf tystiolaeth yn cael eu bodloni'n llawn.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- dyddlyfr
- portffolio
- blog
- adroddiadau arsylwi
- tystiolaeth tyst



DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • tystiolaeth glyweledol<br>• llyfrau gwaith<br>• adroddiadau ysgrifenedig. |

| Ystod |
| --- |
| **3.1** Gall **sgiliau cyflogadwyedd** gynnwys:<br><br>• prydlondeb<br>• datrys problemau<br>• gweithio mewn tîm<br>• cyfathrebu<br>• sgiliau digidol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• cynhyrchu adolygiad o'u profiad gwaith, gan nodi:<br>    ○ y gwaith maen nhw wedi'i wneud<br>    ○ y sgiliau cyflogadwyedd maen nhw wedi'u defnyddio a/neu eu datblygu<br>    ○ manteision y profiad gwaith<br>    ○ perthnasedd y profiad gwaith y profiad gwaith<br>• cynhyrchu paragraff ar gyfer eu CV neu broffil personol yn crynhoi eu profiad gwaith.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• dyddlyfr<br>• blog |

DRAFT

| Ystod |
| --- |
| • CV<br>• proffil personol<br>• adroddiadau arsylwi<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â’ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFT

# Uned 08 Gweithrediadau teithiau yn y DU (TTW-03-08)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r gwahanol fathau o weithredwyr, eu swyddogaethau a'u dulliau gwerthu. Bydd y dysgwr hefyd yn gwerthuso effeithiau ffactorau a digwyddiadau allanol diweddar ar weithrediadau teithiau. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall gweithrediadau teithiau | 1.1 Disgrifio gweithrediadau teithiau yn seiliedig ar:<br>• gwahanol **fathau o weithredwyr teithiau**<br>• swyddogaethau o fewn gweithredwyr teithiau<br>• **dulliau gwerthu** a ddefnyddir gan weithredwyr teithiau | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun er mwyn cynhyrchu llawlyfr | Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun er mwyn cynhyrchu llawlyfr | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun i gynhyrchu llawlyfr |
| 2. Deall effeithiau ffactorau allanol diweddar ar weithrediadau teithiau | 2.1 Gwerthuso effeithiau ffactorau allanol diweddar ar weithrediadau teithiau drwy ystyried: | Dod i gasgliadau rhesymedig am effaith ffactorau allanol ar weithredwyr teithiau yn seiliedig ar ymchwil briodol | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am effeithiau ffactorau allanol ar weithredwyr teithiau yn seiliedig ar yr ymchwil | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am effeithiau ffactorau allanol ar weithredwyr teithiau a sut maent wedi neu sut y byddant yn |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • **ffactorau allanol** a allai effeithio ar weithredwyr teithiau<br>• digwyddiadau allanol diweddar | | | effeithio ar ddatblygiadau yn y dyfodol |

## Ystod

**1.1** Gall y **mathau o weithredwyr teithiau** gynnwys:

- gweithredwyr y farchnad dorfol
- gweithredwyr arbenigol
- gweithredwyr domestig
- gweithredwyr sy'n dod i mewn
- gweithredwyr sy'n mynd allan
- gweithredwyr gwerthu uniongyrchol
- gweithredwyr teithiau sy'n gweithredu yng Nghymru:
  - arbenigo mewn twristiaeth sy'n dod i Gymru
  - darpariaeth teithiau rhanbarthol.

**1.1** Gall **dulliau gwerthu** gynnwys:

- gwerthiannau uniongyrchol
- dosbarthiad asiantaethau teithio
- platfformau archebu ar-lein
- dosbarthu taflenni
- canolfannau galwadau.

Gall canolfannau hefyd gyfeirio dysgwyr at sefydliadau sy'n cefnogi ac yn cynrychioli sector twristiaeth Cymru – gall enghreifftiau gynnwys:

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • Croeso Cymru<br>• Cynghrair Twristiaeth Cymru<br>• Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru<br>• Cymdeithas Tywyswyr Twristiaid Swyddogol Cymru (WOTGA) – sy'n cynrychioli tywyswyr cymwys ac achrededig sy'n darparu teithiau diwylliannol, treftadaeth a chyrchfannau ledled Cymru.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• gwahanol fathau o weithredwyr teithiau, gan gynnwys:<br>  ○ cynhyrchion a gwasanaethau<br>  ○ strwythurau sefydliadol<br>  ○ marchnadoedd darged<br>  ○ trefniadau partneriaeth ac integreiddio gyda gweithredwyr teithiau eraill<br>  ○ cyrff masnach a rheoleiddio – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ▪ Yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA)<br>    ▪ ABTA – The Travel Association<br>    ▪ Trwydded Trefnwyr Teithio Awyrennau (ATOL)<br>    ▪ Y Gymdeithas Trafnidiaeth Awyr Ryngwladol (IATA)<br>    ▪ Cymdeithas Teithio Busnes (BTA)<br>• swyddogaethau mewn cwmni gweithredu teithiau nodweddiadol, gan gynnwys:<br>  ○ marchnata<br>  ○ gwasanaeth i gwsmeriaid<br>  ○ datblygu cynnyrch (gan gynnwys polisïau twristiaeth cyfrifol a chynaliadwy)<br>  ○ gwerthiannau a chyfrifon<br>  ○ swyddfa ddyletswydd<br>  ○ canghennau a swyddfeydd tramor<br>  ○ cynllunio teithiau hedfan |

| Ystod |
|---|
| ○ rheoli trychinebau<br>○ adrannau cyfryngau cymdeithasol<br>○ IT.<br>Gall dysgwyr hefyd ddisgrifio gwasanaethau ychwanegol neu wasanaethau etifeddol, megis arian teithio a gwasanaethau cyfnewid arian cyfred, y gellir eu cynnig drwy:<br><br>• darparwyr ar y stryd fawr<br>• banciau<br>• archfarchnadoedd<br>• gweithredwyr teithio integredig.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• trin â llaw<br>• taflenni gwaith<br>• cyflwyniad<br>• adroddiadau arsylwi<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• tystiolaeth glyweledol. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Rhaid i **ffactorau allanol** gynnwys:<br><br>• newidiadau cymdeithasol ac economaidd<br>• technoleg<br>• deddfwriaeth a rheoliadau<br>• trychinebau naturiol<br>• ansefydlogrwydd gwleidyddol |



DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • epidemig neu bandemig rhyngwladol<br>• integreiddio fertigol a llorweddol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• ffactorau allanol a allai effeithio ar weithredwyr teithiau<br>• o leiaf ddau ddigwyddiad allanol diweddar (yn ystod y pum mlynedd diwethaf) sydd wedi cael effaith ar weithrediadau teithiau, gan ddefnyddio gwahanol gategorïau o ffactorau lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau hefyd gynnwys digwyddiadau allanol sydd wedi cael effaith benodol ar weithrediadau teithiau sy'n gwasanaethu Cymru, megis newidiadau sy'n effeithio ar dwristiaeth sy'n dod i mewn, cysylltiadau trafnidiaeth neu ddatblygiadau polisi rhanbarthol, gan sicrhau sylw i'r categorïau ffactorau penodol.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• adroddiad<br>• blog<br>• taflen<br>• erthygl papur newydd<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad. |

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol. |

DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 09 Gweithrediadau asiantaethau teithio (TTW-03-09)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr am fathau o asiantaethau teithio, y rhesymau pam y gallai cwsmeriaid eu dewis a'r gwahaniaethau rhwng y cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir ganddynt. Bydd y dysgwr hefyd yn deall y gweithdrefnau, y ffynonellau gwybodaeth a'r ddeddfwriaeth a ddefnyddir gan asiantaethau teithio. Bydd y dysgwr yn argymell cynhyrchion teithio i gwsmeriaid. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall y mathau o asiantaethau teithio a'u cynhyrchion a'u gwasanaethau | 1.1 Disgrifio'r mathau o asiantaethau teithio a'u cynhyrchion a'u gwasanaethau yn seiliedig ar:<br>• **mathau o asiantaethau teithio** a'r rhesymau pam y gallai cwsmeriaid eu dewis<br>• y gwahaniaethau rhwng y cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir gan wahanol asiantaethau teithio | Cefnogi pob pwynt gyda rhai enghreifftiau manwl | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a rhai cymariaethau priodol o gynhyrchion a gwasanaethau | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a chymariaethau priodol o gynhyrchion a gwasanaethau |
| 2. Deall y gweithdrefnau, y ffynonellau gwybodaeth a'r | 2.1 Disgrifio'r gweithdrefnau, y ffynonellau | Disgrifio'r gweithdrefnau, y ffynonellau gwybodaeth a'r | Disgrifio'r gweithdrefnau, ffynonellau gwybodaeth a deddfwriaeth | Disgrifio'n fanwl y gweithdrefnau, y ffynonellau gwybodaeth |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| ddeddfwriaeth a ddefnyddir gan asiantaethau teithio | gwybodaeth a'r ddeddfwriaeth a ddefnyddir gan asiantaethau teithio yn seiliedig ar:<br>• **gweithdrefnau** a ddefnyddir gan asiantaethau teithio<br>• **ffynonellau gwybodaeth** a sut mae asiantaethau teithio yn eu defnyddio i gefnogi gwerthiannau a gwasanaeth i gwsmeriaid<br>• effaith **deddfwriaeth ac aelodaeth o gymdeithasau masnach** ar asiantaethau teithio | ddeddfwriaeth bresennol yng ngweithrediadau asiantaethau teithio | bresennol yng ngweithrediadau asiantaethau teithio, gan ddefnyddio iaith arbenigol briodol yn ei chyd-destun | a'r ddeddfwriaeth bresennol yng ngweithrediadau asiantaethau teithio, gan ddefnyddio iaith arbenigol yn gywir yn ei chyd-destun |
| 3. Gallu argymell cynhyrchion teithio i gwsmeriaid | 3.1 Dangos sut i argymell cynhyrchion teithio i gwsmeriaid drwy wneud y canlynol:<br>• argymell cynhyrchion teithio priodol i wahanol gwsmeriaid | Cwblhau amserlenni teithio yn dilyn senarios penodol | Cwblhau amserlenni teithio'n gywir, i raddau helaeth, gan ddilyn senarios penodol | Cwblhau amserlenni teithio'n gywir, gan fodloni holl ofynion y senarios penodol |

DRAFFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • rhoi rhesymau dros ei argymhellion | | | |

**Ystod**

**1.1** Rhaid i'r **mathau o asiantaethau teithio** gynnwys:

- lluosol
- rhanbarthol
- annibynnol (gan gynnwys aelodau consortia)
- e-asiantau neu asiantaethau teithio ar-lein (OTAs)
- busnes
- canolfan alwadau (gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio gartref).

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun drwy gynnwys asiantaethau teithio sy'n gweithredu yng Nghymru, megis asiantaethau rhanbarthol neu annibynnol sy'n gwasanaethu'r farchnad Gymreig, gan sicrhau bod yr ystod lawn o fathau o asiantau yn dal i gael sylw.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- mathau o asiantaethau teithio, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod, gan gynnwys:
  - enghreifftiau o'r math hwnnw o asiant
  - yr ystod o gynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir
  - rhesymau pam y gallai cwsmeriaid ddewis y math hwnnw o asiant.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

DRAFFT

**Ystod**

- taflenni gwaith
- tabl
- cofnodion cyfarfodydd
- adroddiadau arsylwi
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig
- prawf holi ac ateb.

**Ystod**

**2.1** Rhaid i **weithdrefnau** gynnwys:

- gweithdrefnau sy'n ymwneud â chwsmeriaid
- gweithdrefnau swyddfa gefn.

**2.1** Rhaid i'r **ffynonellau gwybodaeth** gynnwys:

- gwerthiannau a hyrwyddo – gall enghreifftiau gynnwys:
  - adolygiadau cwsmeriaid
  - pamffledi gwyliau
- gwybodaeth ffeithiol – gall enghreifftiau gynnwys:
  - cyngor gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO)
  - cyngor am fisa a phasbort
  - canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)
  - gwybodaeth yswiriant.

**2.1** Gall **deddfwriaeth a chymdeithas masnach** gynnwys:

- Rheoliadau Trefniadau Teithio Pecyn a Threfniadau Teithio Cysylltiedig 2018



DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • Gofynion amddiffyniad Trwyddedu Trefnwyr Teithio Awyrennau (ATOL) a weinyddir gan yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA)<br>• Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015<br>• Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) (2021).<br><br>**2.1** Gall **telerau cymdeithasau masnach** gynnwys:<br><br>• Y Gymdeithas Cludiant Awyr Ryngwladol (IATA), ATOL, ABTA – The Travel Association, Business Travel Association (BTA).<br><br>Lle bo'n berthnasol, gall hyn gynnwys ystyried sut mae asiantaethau teithio sy'n gweithredu yng Nghymru yn defnyddio deddfwriaeth y DU gyfan mewn cyd-destun Cymreig, er enghraifft mewn perthynas ag arferion cyfathrebu dwyieithog neu ystyriaethau defnyddwyr rhanbarthol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• y gweithdrefnau a ddefnyddir gan asiantaeth deithio a ddewisir, gan gynnwys:<br>    ○ gweithdrefnau sy'n ymwneud â chwsmeriaid<br>    ○ gweithdrefnau swyddfa gefn<br>• ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir gan asiantaethau teithio i gefnogi gwasanaeth i gwsmeriaid a gwerthiannau, gan gynnwys ffynonellau gwerthiannau a hyrwyddo a ffynonellau gwybodaeth ffeithiol<br>• y ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar weithrediadau asiantaethau teithio ac effaith aelodaeth o gymdeithasau masnach ar asiantaethau teithio yn y DU.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni gwaith<br>• tystiolaeth tyst |

DRAFT

| Ystod |
|---|
| • cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• prawf holi ac ateb<br>• nodiadau cyfweliad. |

| Ystod |
|---|
| **3.1** Gall **cynhyrchion teithio** gynnwys:<br><br>• llogi car<br>• hediadau<br>• yswiriant<br>• pecynnau llety<br>• gwibdeithiau.<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau gynnwys senarios sy'n seiliedig ar deithio i Gymru neu o Gymru, gan ganiatáu i ddysgwyr argymell cynnyrch sy'n adlewyrchu cysylltiadau trafnidiaeth rhanbarthol, opsiynau llety neu atyniadau i ymwelwyr, gan sicrhau bod yr holl gydrannau amserlen teithio penodol yn cael sylw.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• cynhyrchu tair amserlen teithio unigol ar gyfer tri senario penodol i gwsmeriaid, gan gynnwys:<br>    ○ dyddiadau a hyd y daith<br>    ○ trafnidiaeth<br>    ○ llety<br>    ○ cynhyrchion a gwasanaethau ychwanegol<br>    ○ dadansoddiad llawn o'r costau<br>• darparu esboniadau ar gyfer pob argymhelliad. |

DRAFFT

## Ystod

Rhaid i ganolfannau ddarparu ystod o senarios i ddysgwyr ddewis ohonynt.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- amserlenni teithio
- taflenni gwaith
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.

Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol.

DRAFFT

# Uned 10 Diwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU (TTW-03-10)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o ddiwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU. Bydd y dysgwr yn ymchwilio i ymarferoldeb digwyddiadau ac yn llunio cynllun ar gyfer digwyddiad. Bydd y dysgwr yn cynnal y digwyddiad ac yna'n gwerthuso sut y rheolir y digwyddiad ac yn cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer gwelliannau. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall diwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU | 1.1 Disgrifio diwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU yn seiliedig ar:<br>• ystod o ddigwyddiadau<br>• lleoliadau digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol<br>• sefydliadau rheoli digwyddiadau<br>• **swyddi** | Disgrifio'r ffactorau, y nodweddion, y swyddi a'r amrywiaeth o ddigwyddiadau yn niwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU ar hyn o bryd | Disgrifio'r ffactorau, y nodweddion, y swyddi a'r amrywiaeth o ddigwyddiadau yn niwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU ar hyn o bryd, gan ddefnyddio termau arbenigol priodol yn eu cyd-destun | Disgrifio'r ffactorau, y nodweddion, y swyddi a'r amrywiaeth o ddigwyddiadau yn niwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU ar hyn o bryd, gan ddefnyddio termau arbenigol yn gywir yn eu cyd-destun |
| 2. Gallu cynllunio ar gyfer digwyddiadau gwahanol | 2.1 Dangos sut i gynllunio ar gyfer digwyddiadau gwahanol drwy wneud y canlynol: | Dod i gasgliadau rhesymedig am y cynllun llawn yn seiliedig ar wybodaeth briodol o'r cynlluniau dichonoldeb | Dim teilyngdod ar gyfer y maen prawf asesu hwn | Dim rhagoriaeth ar gyfer y maen prawf asesu hwn |

DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • cynhyrchu **cynlluniau dichonoldeb** ar gyfer dau ddigwyddiad<br>• cynhyrchu cynllun ar gyfer digwyddiad | | | |
| 3. Gallu rheoli a gwerthuso'r digwyddiad | 3.1 Dangos sut i reoli a **gwerthuso'r digwyddiad** yn seiliedig ar:<br>• adborth gan eraill<br>• llwyddiant y digwyddiad yn erbyn yr amcanion<br>• dadansoddiad o'r meysydd i'w gwella<br>• ei gryfderau ei hun a meysydd i'w gwella wrth drefnu digwyddiadau | Llunio cynllun gweithredu i wella'r gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol, sydd â rhai cysylltiadau â'r profiad o reoli'r digwyddiad | Llunio cynllun gweithredu i wella'r gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol, sydd wedi'i gysylltu'n glir â'r profiad o reoli'r digwyddiad | Llunio cynllun gweithredu cynhwysfawr i wella'r gwaith o gynllunio digwyddiadau yn y dyfodol, wedi'i gysylltu'n glir â'r profiad o reoli'r digwyddiad |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Gall **digwyddiadau** gynnwys:<br><br>• diwylliannol<br>• chwaraeon<br>• gwyliau – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ digwyddiadau cymdeithasol |

**Ystod**

  - cynulliadau cymunedol
- meithrin tîm
- codi arian
- lletygarwch corfforaethol
- ffeiriau priodas
- cyfarfodydd, cymhellion, cynadleddau ac arddangosfeydd (MICE).

**1.1** Gall **swyddi** gynnwys:

- cyllid
- cydlynu a rheoli
- storio adnoddau
- marchnata
- dyrchafiad
- iechyd a diogelwch.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun i gynnwys cynadleddau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru, megis gwyliau rhanbarthol, digwyddiadau chwaraeon neu weithgarwch MICE sy'n cael ei gynnal mewn lleoliadau yng Nghymru, gan gynnal cyd-destun cyffredinol yr uned yn y DU ar yr un pryd.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- y ffactorau sy'n ymwneud â diwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU, gall hyn gynnwys:
  - tueddiadau
  - ystadegau a data
  - cynhyrchu incwm
  - cyflogaeth
  - nifer yr ymwelwyr

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| ○ datblygiad hanesyddol<br>○ potensial o ran twf<br>• nodweddion pob math o ddigwyddiad a'r amrywiaeth o ddigwyddiadau sydd ar gael<br>• y rolau allweddol sy'n gysylltiedig â threfnu digwyddiad<br>• trosolwg o sefydliadau rheoli digwyddiadau a'u rôl yn y diwydiant.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• llyfryddiaeth<br>• taflenni gwaith<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• llyfryddiaeth<br>• prawf holi ac ateb. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Gall **cynlluniau dichonoldeb** gynnwys:<br><br>• risgiau – gall enghreifftiau gynnwys:<br>○ colled ariannol<br>○ adnoddau digonol<br>○ rheoli lleoliad<br>○ lleihau anafiadau posibl<br>• amser – gall enghreifftiau gynnwys:<br>○ amser digonol i archebu lleoliad<br>○ rhoi gwybod i gyfranogwyr<br>• cyllid – gall enghreifftiau gynnwys: |

DRAFFT

**Ystod**

- o fewn y gyllideb
- costau annisgwyl

- cefnogaeth – gall enghreifftiau gynnwys:
  - noddwyr, helpwyr, cyfranogwyr
- staffio
- lleoliad ac offer – gall enghreifftiau gynnwys:
  - argaeledd lleoliad
  - yr offer sydd ei angen
- amgylchedd – gall enghreifftiau gynnwys:
  - traffig
  - sŵn
  - cael gwared â gwastraff a sbwriel
  - effaith amgylcheddol ehangach
- trefniadau wrth gefn.

Lle bo'n berthnasol, gall hyn gynnwys caniatâd neu ofynion trwyddedu sy'n berthnasol o fewn awdurdodau lleol Cymru – gall enghreifftiau gynnwys:

- Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro ar gyfer gwerthu alcohol neu ymestyn oriau digwyddiadau
- caniatâd cau ffyrdd ar gyfer gorymdeithiau neu rasys elusennol
- cytundebau rheoli sŵn
- trwyddedu ar gyfer gwerthwyr bwyd neu werthwyr ar stondin farchnad
- cymeradwyaeth iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesiadau risg.

Gall canolfannau hefyd gyfeirio dysgwyr at Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru wrth edrych ar ddatblygiad ehangach y sector digwyddiadau yng Nghymru.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:


DRAFFT

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • gweithio mewn grwpiau bach i gynhyrchu cynlluniau ar gyfer dau ddigwyddiad a chymharu pa un fyddai fwyaf ymarferol i'w gynnal<br>• cyflwyno cynlluniau i'r grŵp a chytuno fel grŵp pa ddigwyddiad i'w gynnal<br>• cynhyrchu cynllun grŵp llawn ar gyfer y digwyddiad o'ch dewis, gan gynnwys:<br>  ○ amcanion a diben<br>  ○ rolau a chyfrifoldebau<br>  ○ dyddiad ac amser<br>  ○ costau, gan gynnwys unrhyw weithgareddau codi arian<br>  ○ yr adnoddau sydd eu hangen (dynol, offer, deunyddiau, TG)<br>  ○ gweithgareddau marchnata a hyrwyddo<br>  ○ cynllun a pharatoi'r lleoliad (os yn briodol)<br>  ○ gofynion iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesiadau risg<br>  ○ gofynion arbennig – dyma enghreifftiau:<br>    ▪ symudoledd<br>    ▪ gwasanaethau cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd<br>    ▪ dolenni sain<br>    ▪ alergeddau<br>    ▪ archebion teithio a llety<br>    ▪ gofynion crefyddol neu ddiwylliannol<br>    ▪ gofynion o ran diogeledd<br>  ○ amserlen gynllunio a cherrig milltir<br>  ○ cynlluniau wrth gefn<br>  ○ strategaeth werthuso ar gyfer y digwyddiad<br>• cofnodi:<br>  ○ penderfyniadau a materion allweddol y grŵp<br>  ○ eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain<br>  ○ eu prif bwyntiau dysgu eu hunain<br>  ○ proses y grŵp/eu hunain o ran gwneud penderfyniadau<br>  ○ eu cryfderau a'u gwendidau<br>  ○ eu cynllun gweithredu eu hunain sy'n nodi gwelliannau yn y dyfodol (caiff hwn ei adolygu fel rhan o 3.1). |

| Ystod |
| --- |
| **Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• cynlluniau dichonoldeb<br>• cynllun digwyddiad<br>• dyddiadur myfyriol<br>• taflenni gwaith<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• tystiolaeth tyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• prawf holi ac ateb. |

| Ystod |
| --- |
| **3.1** Gall **gwerthuso'r digwyddiad** gynnwys:<br><br>• llwyddiant y digwyddiad yn erbyn amcanion<br>• eu cyfraniad eu hunain i'r digwyddiad<br>• cyfraniad eraill<br>• argymhellion ar gyfer gwella.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol: |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • adolygu a gwerthuso'r digwyddiad ar ôl iddo ddod i ben, gan ddefnyddio'r strategaeth werthuso a ddatblygwyd yn neilliannau dysgu 2, gan gynnwys:<br>o llwyddiant y digwyddiad yn erbyn amcanion<br>o eich cyfraniad eich hun<br>o cyfraniad eraill<br>o argymhellion ar gyfer gwella<br>• cynhyrchu cynllun i wella'r gwaith o gynllunio digwyddiadau yn y dyfodol a'u rhoi ar waith.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• gwerthuso<br>• cynllun gweithredu<br>• taflenni gwaith<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• tystiolaeth tyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
|---|
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg. |



DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

## Uned 11 Marchnata ar gyfer maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-11)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o ddylanwadau gweithgareddau marchnata a'r gymysgedd farchnata. Bydd y dysgwr yn cynnal gweithgaredd ymchwil i'r farchnad ac yna'n datblygu ymgyrch farchnata ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth drwy gynhyrchu deunydd hyrwyddo drafft. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall cyfleoedd gwaith yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 1.1 Esbonio marchnata yn y diwydiant teithio a thwristiaeth yn seiliedig ar:<br>• **dylanwadau marchnata**<br>• y **cymysgedd marchnata** | Cefnogi pob pwynt gyda rhai enghreifftiau manwl | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a rhai cymariaethau priodol | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a chymariaethau priodol |
| 2. Gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd ymchwil i'r farchnad | 2.1 Cymryd rhan mewn gweithgaredd ymchwil i'r farchnad drwy wneud y canlynol:<br>• edrych ar **dechnegau ymchwilio i'r farchnad** | Dod i gasgliadau rhesymedig am ymchwil i'r farchnad yn seiliedig ar wybodaeth briodol | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am ymchwil i'r farchnad yn seiliedig ar yr wybodaeth | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am ymchwil i'r farchnad sy'n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |

DRAFFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • ymgymryd â gweithgaredd ymchwil i'r farchnad | | | |
| 3. Gallu datblygu ymgyrch farchnata ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth | 3.1 Datblygu ymgyrch farchnata ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth drwy:<br>• cynllunio ymgyrch farchnata<br>• cynhyrchu **deunyddiau hyrwyddo** drafft | Cynhyrchu ymgyrch farchnata a deunyddiau hyrwyddo er mwyn bodloni'r briff penodol | Cynhyrchu ymgyrch farchnata a deunyddiau hyrwyddo sy'n gywir, i raddau helaeth, er mwyn bodloni'r briff penodol | Cynhyrchu ymgyrch farchnata a deunyddiau hyrwyddo yn gywir a bodloni holl ofynion y briff penodol |

## Ystod

**1.1** Rhaid i **ddylanwadau marchnata** gynnwys:

- amcanion y sefydliad – gall enghreifftiau gynnwys:
  - cyflwyno cynnyrch neu wasanaeth newydd
  - targedau twf y farchnad
- segmentu cwsmeriaid – gall enghreifftiau gynnwys:
  - rhywedd
  - economaidd-gymdeithasol
  - daearyddol
  - seicograffig
- athroniaeth ac ethos y cwmni
- ystyriaethau diogelu defnyddwyr
- ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE).

**1.1** Rhaid i'r **cymysgedd marchnata** gynnwys:

DRAFFT

| **Ystod** |
|---|
| • pris – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ prisio hyrwyddol<br>  ○ prisio cystadleuwyr<br>  ○ prisio odrifol<br>  ○ prisio tymhorol<br>• lleoliad – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ sianelau dosbarthu<br>  ○ hygyrchedd<br>• hyrwyddo – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ y dulliau a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd<br>• cynnyrch – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ natur y cynnyrch<br>  ○ brandio<br>  ○ pwynt gwerthu unigryw (USP)<br>  ○ cylch bywyd cynnyrch.<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun i gynnwys gweithgareddau marchnata a wneir gan sefydliadau teithio a thwristiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru, gan sicrhau bod cymariaethau'n parhau i gyd-fynd â chyd-destun diwydiant ehangach y DU. Gall enghreifftiau gynnwys:<br><br>• ymgyrchoedd marchnata cyrchfan cenedlaethol a ddarperir gan Croeso Cymru<br>• mentrau hyrwyddo thematig megis yr ymgyrch Blwyddyn Groeso.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• diffiniad o'r term 'marchnata' |

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • y dylanwadau ar weithgareddau marchnata gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod (mae ffactorau PESTLE yn cysylltu â'r ystod sy'n cael sylw yn Uned 01 AC3.1)<br>• y cymysgedd marchnata gan gynnwys y pedwar pwysig (y 4Ps), sef cynnyrch, hyrwyddo, pris a lle, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni gwaith<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

| Ystod |
| --- |
| **2.1** Rhaid i **dechnegau ymchwil i'r farchnad** gynnwys:<br><br>• arolygon<br>• adborth cwsmeriaid<br>• ymchwil eilaidd – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ dadansoddiad o gystadleuwyr<br>    ○ ymchwil o'r ddesg, megis Tripadvisor<br>• ymchwil sylfaenol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ grwpiau ffocws.<br><br>Lle bo'n berthnasol, gall hyn gynnwys ymchwil i'r farchnad sy'n canolbwyntio ar gynnyrch neu wasanaethau a gynigir yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i archwilio marchnadoedd targed rhanbarthol neu broffiliau ymwelwyr.<br><br>**Gofyniad asesu:** |



DRAFT

| Ystod |
|---|
Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.



DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 17 Twristiaeth arbenigol (TTW-03-17)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr am y term 'twristiaeth arbenigol' a rhoi enghreifftiau o wahanol fathau. Bydd y dysgwr yn darparu dadansoddiad marchnata ar gyfer gwasanaethau twristiaeth arbenigol ac yn dewis gwyliau twristiaeth arbenigol addas i fodloni proffil cwsmer penodol. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gwybod am wasanaethau twristiaeth arbenigol | 1.1 Disgrifio gwasanaethau twristiaeth arbenigol sy'n seiliedig ar y canlynol:<br>• gwahanol **fathau o dwristiaeth arbenigol** a diffinio'r term<br>• gwahanol fathau o ddarparwyr gwasanaethau twristiaeth arbenigol | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu'n gywir yn ei eiriau ei hun |
| 2. Gallu darparu dadansoddiad marchnata ar gyfer gwasanaethau twristiaeth arbenigol | 2.1 Darparu dadansoddiad marchnata ar gyfer gwasanaethau twristiaeth arbenigol | Defnyddio gwybodaeth am ddatblygiad twristiaeth arbenigol o ffynhonnell arbenigol, a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun | Defnyddio gwybodaeth am ddatblygiad twristiaeth arbenigol, a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o | Defnyddio gwybodaeth am ddatblygiad twristiaeth arbenigol sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, |


DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | yn seiliedig ar y canlynol:<br>• **ffactorau yn y farchnad** sydd wedi arwain at **ddatblygiadau mewn twristiaeth arbenigol**<br>• proffil y farchnad a chwsmer ar gyfer math o dwristiaeth arbenigol a ddewisir | ar ffurf adroddiad/cyflwyniad a thaflen/llyfryn | leiaf, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad/cyflwyniad a thaflen/llyfryn | mewn fformatau gwahanol, a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf adroddiad/cyflwyniad a thaflen/llyfryn |
| 3. Gallu dewis gwyliau twristiaeth arbenigol addas i fodloni proffiliau cwsmeriaid penodol | 3.1 Dewis gwyliau twristiaeth arbenigol addas i fodloni **proffiliau cwsmeriaid** penodol yn seiliedig ar:<br>• proffiliau cwsmeriaid gwahanol<br>• sut i fodloni anghenion cwsmeriaid penodol | Dod i gasgliadau rhesymedig am wyliau twristiaeth arbenigol addas yn seiliedig ar wybodaeth briodol am broffil y cwsmer | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am wyliau twristiaeth arbenigol addas yn seiliedig ar yr wybodaeth am broffil y cwsmer | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am wyliau twristiaeth arbenigol sy'n sail i ddewisiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar broffil y cwsmer |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Gall y mathau o dwristiaeth arbenigol gynnwys:<br><br>• twristiaeth gwirfoddolwyr<br>• twristiaeth antur |

**Ystod**

- twristiaeth chwaraeon
- twristiaeth dywyll
- twristiaeth iechyd
- twristiaeth ysbrydol
- twristiaeth treftadaeth ddiwylliannol – gall enghreifftiau gynnwys:
  - teithio diaspora
  - twristiaeth treftadaeth
  - teithio sy'n arwyddocaol yn ddiwylliannol
- eco-dwristiaeth
- twristiaeth cerdded a beicio
- twristiaeth bwyd a diod
- marchnadoedd niche sy'n cael eu hyrwyddo drwy ymgyrchoedd cenedlaethol Croeso Cymru – gall enghreifftiau gynnwys:
  - antur
  - treftadaeth ddiwylliannol
  - cerdded
  - beicio
- twristiaeth bwyd a diod yng Nghymru.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- diffiniad o dwristiaeth arbenigol
- disgrifiad o wahanol fathau o dwristiaeth arbenigol
- dwy enghraifft o ddarparwyr gwasanaethau twristiaeth arbenigol, gan gynnwys ar gyfer pob un:
  - trosolwg o'r gweithgareddau maen nhw'n eu cynnig
  - lle gellir eu cynnal
  - adegau o'r flwyddyn
  - offer arbenigol sydd ei angen.

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• cyflwyniad<br>• pamffledi<br>• taflen<br>• mapiau<br>• taflenni gwaith<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• llyfrau gwaith. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Gall **ffactorau'r farchnad** gynnwys:<br><br>• ffactorau economaidd-gymdeithasol<br>• anghenion a disgwyliadau newidiol twristiaid<br>• tueddiadau – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ twf mewn twristiaeth gweithgareddau awyr agored<br>    ○ twristiaeth treftadaeth ddiwylliannol<br>• mentrau twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru.<br><br>**2.1** Rhaid i **ddatblygiadau mewn twristiaeth arbenigol** gynnwys:<br><br>• twf gweithredwyr teithiau diddordeb arbennig<br>• wedi'u pecynnu i farchnadoedd gwyliau heb eu pecynnu<br>• mynediad i leoliadau newydd<br>• rôl cwmnïau hedfan rhad. |

DRAFFT

**Ystod**

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- esbonio sut mae twristiaeth arbenigol wedi datblygu gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod
- cynhyrchu dadansoddiad marchnata ar gyfer math o dwristiaeth arbenigol a ddewisir, gan gynnwys:
  - at bwy mae wedi'i anelu (proffil cwsmeriaid a'r farchnad)
  - manylion llawn y gweithgareddau dan sylw a'u lleoliad.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- cyflwyniad
- taflen
- pamffledi
- taflenni gwaith
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiadau arsylwi
- arddangosiad.

**Ystod**

**3.1** Rhaid i **broffiliau cwsmeriaid** gynnwys:

- oedran
- gallu
- statws cymdeithasol/economaidd
- gwybodaeth feddygol
- ffitrwydd
- hoff bethau a chas bethau



DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • anghenion deietegol.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• creu tri phroffil cwsmer gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod<br>• argymell gwyliau arbenigol addas ar gyfer proffil pob cwsmer, gan werthuso a chyfiawnhau eu dewis<br>• cyfeirio at agweddau ar dwristiaeth gyfrifol yn eu hargymhellion.<br><br>Lle bo’n briodol, gall canolfannau gynnwys opsiynau twristiaeth arbenigol sydd wedi’u lleoli yng Nghymru fel rhan o’r argymhellion, ar yr amod bod anghenion cwsmeriaid ac ystyriaethau twristiaeth cyfrifol yn parhau i fod yn ganolog i’r dewis.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflen<br>• gwefan<br>• erthygl papur newydd<br>• taflen cyhoeddusrwydd<br>• taflen gwybodaeth<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• cyflwyniad. |

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
|---|
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol. |

DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 18 Teithio busnes (TTW-03-18)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o'r amgylchedd teithio busnes presennol a phrif ofynion teithwyr busnes. Bydd y dysgwr yn deall ymddygiad wrth gynnal busnes a theithio busnes rhyngwladol. Bydd y dysgwr hefyd yn cynllunio taith fusnes ar gyfer proffil cwsmer a ddewisir. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall yr amgylchedd teithio busnes | 1.1 Esbonio'r amgylchedd teithio busnes drwy gynnwys:<br>• yr amgylchedd teithio busnes presennol<br>• **arferion gweithio sy'n ymwneud â theithio busnes**<br>• gofynion trwyddedu, deddfwriaeth a chymdeithasau masnach<br>• prif **ofynion teithwyr busnes** | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw hyfforddi | Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw hyfforddi | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw hyfforddi |
| 2. Deall teithio busnes rhyngwladol | 2.1 Esbonio teithio busnes rhyngwladol drwy gynnwys: | Cynnwys pob pwynt yn y ffeil ffeithiau gyda rhai enghreifftiau manwl o | Cynnwys pob pwynt yn y ffeil ffeithiau gydag enghreifftiau manwl a | Cynnwys yr holl bwyntiau yn y ffeil ffeithiau gydag |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • **meysydd allweddol o arwyddocâd masnachol byd-eang**<br>• **ymddygiad wrth gynnal busnes** ar gyfer teithwyr busnes | gyrchfannau | rhai cymariaethau priodol o gyrchfannau | enghreifftiau manwl a chymariaethau priodol o gyrchfannau, gan ddod i gasgliadau ynghylch eu haddasrwydd at ddibenion teithio busnes gwahanol |
| 3. Gallu cynllunio taith fusnes ar gyfer proffil cwsmer a ddewisir | 3.1 Cynllunio taith fusnes ar gyfer proffil cwsmer a ddewisir drwy gynnwys:<br>• **mathau o broffiliau cwsmeriaid**<br>• elfennau amserlenni teithio<br>• ffactorau sy'n effeithio ar deithio busnes | Dangos y defnydd o rywfaint o sgiliau arbenigol i gynhyrchu'r teithiau wrth gynllunio'r daith busnes | Dangos defnydd effeithiol o sgiliau arbenigol i gynhyrchu'r amserlenni teithio wrth gynllunio'r daith fusnes | Dangos defnydd cyson ac effeithiol o sgiliau arbenigol i gynhyrchu'r amserlenni teithio wrth gynllunio'r daith fusnes |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1** Gall **amgylchedd teithio busnes** gynnwys:<br><br>• rhesymau dros deithio busnes – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ ffeiriau masnach<br>  ○ cynadleddau a chyfarfodydd<br>  ○ cymhellion<br>  ○ digwyddiadau corfforaethol<br>  ○ canolfannau gweithio o bell |



DRAFT

**Ystod**

- mathau o asiantau – gall enghreifftiau gynnwys:
  - asiantaethau teithio
  - e-asiantau neu asiantaethau teithio ar-lein (OTAs)
  - mewnblaniadau (er enghraifft, mae gan JCB asiantaeth deithio fewnol)
- cwmnïau rheoli teithio – asiantaethau arbenigol sy'n trefnu ac yn rheoli teithio busnes ar ran cleientiaid corfforaethol, gan ddarparu gwasanaethau – gall enghreifftiau gynnwys:
  - gorfodi polisi
  - cymorth bwcio byd-eang
  - adrodd a thracio teithwyr
- cynhyrchion a gwasanaethau – gall enghreifftiau gynnwys:
  - cerdyn credyd corfforaethol
  - gwobrwyon am hedfan yn aml
  - lolfa clwb busnes
  - llety
  - llogi car.

**1.1** Gall **arferion gweithio sy'n ymwneud â theithio busnes** gynnwys:

- sectorau diwydiant lle mae angen teithio busnes – gall enghreifftiau gynnwys:
  - diwydiant morol
  - adloniant a'r cyfryngau
  - ffasiwn
  - chwaraeon
- proffesiynau amrywiol – gall enghreifftiau gynnwys:
  - athletwyr
  - artistiaid
  - newyddiadurwyr
  - gweithwyr dyngarol
  - addysgwyr
  - arbenigwyr technegol



DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • proffesiynau teithio – gall enghreifftiau gynnwys:<br>○ rheolau sefydliadol ynghylch cyflenwyr sy'n cael eu ffafrio<br>○ dosbarth teithio<br>○ terfynau treuliau<br>○ dewisiadau o ran cynaliadwyedd<br>○ cyfrifoldebau dyletswydd gofal.<br><br>**1.1** Gall **gofynion teithwyr busnes** gynnwys:<br><br>• gwasanaethau – gall enghreifftiau gynnwys:<br>○ mannau tawel<br>○ Wi-Fi<br>○ gwefryddion<br>• hyblygrwydd<br>• amlder<br>• effeithlonrwydd.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• yr amgylchedd teithio busnes presennol, gan gynnwys:<br>○ rhesymau dros deithio busnes<br>○ mathau o asiantau<br>○ y cynhyrchion a'r gwasanaethau sydd ar gael<br>○ gofynion teithwyr busnes<br>• arferion gweithio, deddfwriaeth, cymdeithasau masnach a gofynion trwyddedu sy'n berthnasol i deithio busnes.<br><br>Gall canolfannau gyfeirio dysgwyr at ymchwil ac ystadegau a gyhoeddir gan Croeso Cymru, sy'n rhoi cipolwg ar raddfa a chyfraniad economaidd twristiaeth busnes, cynadleddau a digwyddiadau yng Nghymru. |



DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| **Rhaid** i ddysgwyr gynhyrchu canllaw hyfforddi.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• canllaw hyfforddi<br>• llyfrau gwaith<br>• cyflwyniad<br>• adroddiadau arsylwi<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• nodiadau cyfweliad. |

| Ystod |
| --- |
| **2.1** Rhaid i **feysydd allweddol o arwyddocâd masnachol byd-eang** gynnwys:<br><br>• parthau amser<br>• trefi, dinasoedd a phyrth – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ meysydd awyr<br>  ○ ardaloedd busnes<br>• prif fasnach a gweithgarwch economaidd.<br><br>**2.1** Gall **ymddygiad wrth gynnal busnes** gynnwys:<br><br>• gwerthoedd, credoau a chrefydd<br>• cod gwisg<br>• anghenion deietegol<br>• agweddau ac ymddygiad. |



DRAFT

| Ystod |
| --- |
| **Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• nodi cyrchfannau busnes masnachol allweddol ac esbonio eu harwyddocâd masnachol, gydag o leiaf un gyrchfan o bob cyfandir, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod, a gan hefyd gynnwys ar gyfer pob un:<br>  ○ ymddygiad wrth gynnal busnes ac ymddygiad yn yr ardal leol<br>  ○ ffactorau a allai gyfyngu ar deithio busnes (er enghraifft, technolegol, iechyd, fisas, gwleidyddol, arian cyfred, parthau amser)<br>• edrych ar ddau gyrchfan busnes rhyngwladol yn fanwl, gan nodi eu prif fasnach, egluro pwysigrwydd ymddygiad wrth gynnal busnes a disgrifio'r ymddygiad i'w ddilyn yn yr ardal leol ar gyfer teithwyr busnes<br>• cynhyrchu ffeil ffeithiau.<br><br>Lle bo'n berthnasol, gall hyn gynnwys cyfeiriad at gyrchfannau masnachol allweddol yng Nghymru fel rhan o gyd-destun y DU, gan alluogi dysgwyr i ystyried canolfannau rhanbarthol o weithgarwch economaidd ochr yn ochr ag enghreifftiau rhyngwladol.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• mapiau<br>• cyflwyniad<br>• llyfrau gwaith<br>• taflenni gwaith<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

| Ystod |
| --- |
| **3.1** Gall y **mathau o broffiliau cwsmeriaid** gynnwys: |

DRAFT

**Ystod**

- teithwyr busnes rheolaidd
- cynrychiolwyr rhyngwladol
- swyddogion gweithredol corfforaethol
- gweithwyr o bell yn teithio ar gyfer cyfarfodydd.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- creu dau broffil ar gyfer teithwyr busnes a dewis dau gyrchfan priodol o ran teithio busnes – un yn y DU ac un dramor
- cynllunio taith fusnes ar gyfer pob proffil drwy gynnwys:
  - dull teithio a ddefnyddiwyd
  - cyfleusterau meysydd awyr, porthladdoedd, rheilffyrdd neu fferïau (fel y bo'n briodol)
  - teithio i'r maes awyr ac oddi yno
  - llety
  - llogi car
  - gwasanaethau teithio
  - costau
  - amseriadau
- cynnwys agweddau ar ymddygiad busnes hanfodol sy'n berthnasol i bob cyrchfan, fel yr ymchwiliwyd yn neilliannau dysgu 2
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Lle bo'n briodol, gellir defnyddio cyrchfan yng Nghymru i fodloni gofyniad y DU, gan alluogi dysgwyr i gynllunio teithiau busnes sy'n adlewyrchu cysylltiadau trafnidiaeth rhanbarthol a lleoliadau masnachol.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- amserlenni teithio



DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • taflenni gwaith<br>• llyfrau gwaith<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• tystiolaeth weledol. |

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae’r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw’r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu’n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni’r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â’ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFT

# Uned 19 Adrodd straeon ar gyfer twristiaeth (TTW-03-19)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o bwysigrwydd adrodd straeon a'r technegau a ddefnyddir. Bydd y dysgwr yn creu stori ar gyfer cynulleidfa a ddewisir, gan ystyried anghenion y gynulleidfa. Bydd y dysgwr yn cyflwyno'r stori i gynulleidfa a ddewisir ac yn adolygu ei berfformiad. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall y cysyniad o adrodd straeon mewn perthynas â theithio a thwristiaeth | 1.1 Esbonio'r cysyniad o adrodd straeon mewn perthynas â theithio a thwristiaeth drwy gynnwys:<br>• pwysigrwydd adrodd straeon<br>• **ffynonellau gwybodaeth** sy'n ymwneud â chyrchfannau neu atyniadau teithio a thwristiaeth<br>• y gwahaniaeth rhwng straeon ysgrifenedig a straeon ar lafar<br>• **technegau adrodd straeon** | Cefnogi pob pwynt gyda rhai enghreifftiau manwl a ddarperir yn y canllaw hyfforddi | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a rhai cymariaethau priodol a ddarperir yn y canllaw hyfforddi | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a chymariaethau priodol wedi'u cynnwys yn y canllaw hyfforddi |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 2. Gallu creu stori ar gyfer cynulleidfa a ddewisir ar sail cyrchfan neu atyniad | 2.1 Dangos sut mae creu stori ar gyfer cynulleidfa benodol yn seiliedig ar gyrchfan neu atyniad drwy wneud y canlynol:<br>• ymchwilio i ddeunydd ffynhonnell ar gyfer cyrchfan neu atyniad teithio a thwristiaeth<br>• defnyddio **strwythur** priodol<br>• ystyried **anghenion y gynulleidfa** | Dangos y defnydd o rywfaint o sgiliau adrodd straeon arbenigol i greu'r stori | Dangos defnydd effeithiol o sgiliau adrodd straeon arbenigol i greu'r stori | Dangos y defnydd cyson ac effeithiol o sgiliau adrodd straeon arbenigol i greu'r stori |
| 3. Gallu cyfleu stori i gynulleidfa a ddewisir | 3.1 Cyfleu'r stori i **gynulleidfa a ddewisir** ac adolygu ei berfformiad | Dangos y defnydd o rywfaint o sgiliau adrodd straeon arbenigol i gyfleu'r stori | Dangos defnydd effeithiol o sgiliau adrodd straeon arbenigol i gyfleu'r stori | Dangos y defnydd cyson ac effeithiol o sgiliau adrodd straeon arbenigol i gyfleu'r stori |
| 4. Gallu adolygu'r perfformiad adrodd straeon | 4.1 Adolygu ei **berfformiad adrodd straeon**, gan gynnwys:<br>• nodi cryfderau a gwendidau'r perfformiad | Nodi cryfderau neu wendidau pwysicaf/lleiaf pwysig y perfformiad yn gywir a darparu rhywfaint o dystiolaeth i gyfiawnhau'r dewis | Nodi cryfderau neu wendidau pwysicaf/lleiaf pwysig y perfformiad yn gywir a darparu tystiolaeth fanwl i gyfiawnhau'r dewis | Disgrifio effaith gymharol cryfderau a gwendidau'r perfformiad |

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| **1.1** Gall **ffynonellau gwybodaeth** gynnwys:<br><br>• archifau a llyfrgelloedd – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ sefydliadau treftadaeth<br>  ○ grwpiau cymunedol yng Nghymru<br>• y rhyngrwyd<br>• preswylwyr a gweithwyr eraill<br>• cymdeithasau hanesyddol<br>• canolfannau gwybodaeth i ymwelwyr<br>• yr atyniad ei hun<br>• safbwyntiau cymunedol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ profiadau diwylliannol<br>  ○ hanes cymunedau amrywiol sy’n berthnasol i gyd-destun y gyrchfan.<br><br>**1.1** Gall **technegau adrodd straeon** gynnwys:<br><br>• adrodd straeon ar lafar<br>• adrodd straeon yn ysgrifenedig<br>• adrodd straeon yn weledol<br>• propiau a gwisgoedd<br>• effeithiau arbennig a goleuo<br>• ystumiau<br>• ffactorau i’w hystyried wrth adrodd straeon:<br>  ○ oedran y gynulleidfa<br>  ○ symudoledd<br>  ○ iaith<br>• gall swyddi sy’n gofyn am sgiliau adrodd straeon gynnwys:<br>  ○ tywysydd teithiau<br>  ○ rheolwr teithiau<br>  ○ cynrychiolydd man gwyliau |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| o marchnadwr cyrchfannau<br>o blogiwr.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:<br><br>• pwysigrwydd adrodd straeon wrth wella profiad twristiaid<br>• ffynonellau gwybodaeth dilys y gellid eu defnyddio fel sail ar gyfer cynnwys stori<br>• y gwahaniaeth rhwng straeon ysgrifenedig a llafar, gan gynnwys pryd a pham y byddai pob un yn cael ei ddefnyddio<br>• technegau adrodd straeon.<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr gynhyrchu canllaw hyfforddi.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• llyfryddiaeth<br>• adroddiadau ysgrifenedig<br>• taflenni gwaith<br>• llyfrau gwaith. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Rhaid i **strwythur** gynnwys:<br><br>• pwrpas y stori<br>• hyd ac amseriad cyflwyno<br>• gosod y llwyfan<br>• plotio, cymeriadau, gwrthdaro, cyffro a drama |



DRAFFT

**Ystod**

- y defnydd o fodel neu actor (lle bo hynny'n briodol)
- cyffyrddiad personol a chyfraniad gan y gynulleidfa
- crynodeb.

**2.1** Rhaid i **anghenion y gynulleidfa** gynnwys:

- oedran y gynulleidfa
- amseru
- hyd
- y defnydd o ystumiau corfforol
- lleoliad
- propiau a gwisgoedd
- goleuadau ac effeithiau arbennig.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- creu stori sy'n seiliedig ar friff a ddewiswyd ar gyfer cyrchfan neu atyniad, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod
- cynhyrchu portffolio
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Gall y stori fod yn seiliedig ar gyrchfan neu atyniad yng Nghymru. Gall canolfannau gynnwys naratifau sy'n adlewyrchu hanes rhanbarthol, treftadaeth ddiwylliannol neu hunaniaeth leol – gall enghreifftiau gynnwys adrodd straeon yn seiliedig ar leoliadau megis Bae Caerdydd (a elwir yn Tiger Bay yn hanesyddol), edrych ar hanes y dociau a threftadaeth amlddiwylliannol cymunedau gan gynnwys poblogaethau Somalïaidd, Yemenïaidd, Gwyddelig a Charibïaidd, ochr yn ochr â themâu mudo, cerddoriaeth a masnach forol.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • stori<br>• cyflwyniad<br>• adroddiadau ysgrifenedig<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• llyfrau gwaith<br>• taflenni gwaith<br>• portffolio. |

| Ystod |
| --- |
| **3.1** Gall y **gynulleidfa a ddewisir** gynnwys:<br><br>• tiwtor<br>• grŵp cymheiriaid<br>• staff o'r atyniad.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• cyflwyno'r stori a ddatblygwyd yn neilliannau dysgu 2 i gynulleidfa benodol<br>• cwblhau hunanasesiad o'u perfformiad, gan ystyried unrhyw adborth a gafwyd gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau gynnwys cynulleidfaoedd sy'n gyfarwydd ag economi ymwelwyr Cymru, gan alluogi dysgwyr i ystyried sut y gall cyd-destun rhanbarthol neu amgylcheddau dwyieithog ddylanwadu ar ddarparu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth: |



DRAFT

| Ystod |
|---|
| • tystiolaeth glyweledol<br>• cyflwyniad<br>• adroddiadau arsylwi<br>• holiaduron<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• cofnodion cyfarfodydd<br>• tystiolaeth gan dyst. |

| Ystod |
|---|
| **4.1** Gall **perfformiad adrodd straeon** gynnwys:<br><br>• defnydd o lais – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ tôn<br>    ○ cyflymdra<br>    ○ eglurdeb<br>• iaith gorfforol ac ystumiau<br>• ymgysylltu a rhyngweithio â’r gynulleidfa<br>• y defnydd o bropiau, gwisgoedd a chymhorthion gweledol<br>• strwythur a llif y stori<br>• cywirdeb a dyfnder y cynnwys.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• cwblhau hunanasesiad o’u perfformiad yn adrodd straeon, gan ystyried adborth gan eraill<br>• nodi cryfderau a gwendidau allweddol wrth ddatblygu’r stori a chyflwyno’r perfformiad.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:** |

| **Ystod** |
|---|
| Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• adolygiad<br>• cyflwyniad<br>• adroddiadau arsylwi<br>• holiaduron<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• tystiolaeth tyst<br>• adolygiadau gan gymheiriaid<br>• tystiolaeth glyweledol. |

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
|---|
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 20 Tywys teithiau (TTW-03-20)

| **Crynodeb o'r uned** | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o rôl tywysydd teithiau a'i gyfrifoldebau wrth gynnal teithiau tywys. Bydd y dysgwr yn cynllunio sylwebaeth ysgrifenedig ar gyfer taith dywys ac yna'n cyflwyno'r daith dywys. Bydd y dysgwr hefyd yn gwerthuso ei daith dywys. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall yr amgylchedd tywys teithiau | 1.1 Esboniwch'r amgylchedd tywys teithiau drwy gynnwys:<br>• rôl tywysydd teithiau, gan gynnwys y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen<br>• pwysigrwydd rhoi gwybodaeth gywir a digonol<br>• ei gyfrifoldeb o ran bod yn effro i beryglon a risgiau<br>• pwysigrwydd ymddangosiad personol | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw gwybodaeth/cyflwyniad | Defnyddio gwybodaeth mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw gwybodaeth/cyflwyniad | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw gwybodaeth/cyflwyniad |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • pam mae angen creu perthynas | | | |
| 2. Gallu cynllunio a darparu sylwebaeth ar gyfer taith dywys | 2.1 Cynllunio a darparu sylwebaeth ar gyfer taith dywys, gan gynnwys:<br>• gwneud gwaith ymchwil a chynhyrchu **sylwebaeth ar gyfer taith dywys**<br>• darparu sylwebaeth ar gyfer taith dywys | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun ar ffurf ymchwil a sylwebaeth | Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun ar ffurf ymchwil a sylwebaeth | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf ymchwil a sylwebaeth |
| 3. Deall sut mae taith dywys yn cael ei darparu | 3.1 **Gwerthuso sut mae taith dywys yn cael ei ddarparu** drwy wneud y canlynol:<br>• dadansoddi adborth<br>• adolygu sut mae taith dywys yn cael ei ddarparu | Dod i gasgliadau rhesymedig am sut mae sylwebaeth yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar wybodaeth briodol gennych chi ac eraill | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am sut mae sylwebaeth yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar wybodaeth briodol gennych chi ac eraill | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys sy'n sail i ddatblygiadau yn y dyfodol |

| **Ystod** |
|---|
| **1.1**<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi hyn mewn cyd-destun drwy gynnwys cyfweliadau â thywyswyr teithiau sy'n gweithredu yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i archwilio'r sgiliau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol yn economi ymwelwyr Cymru. |

DRAFT

| Ystod |
|---|
| Gall canolfannau hefyd gyfeirio dysgwyr at Gymdeithas Tywyswyr Twristiaid Swyddogol Cymru (WOTGA), sy'n cynrychioli tywyswyr teithiau cymwys sy'n gweithredu ledled Cymru ac sy'n darparu safonau proffesiynol a llwybrau hyfforddi.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i:<br>  ○ rôl tywysydd teithiau, gan gynnwys y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen<br>  ○ pwysigrwydd rhoi gwybodaeth gywir a digonol<br>  ○ unrhyw gyfyngiadau ar wybodaeth (gallai enghreifftiau gynnwys sensitifrwydd a diogeledd)<br>  ○ ei gyfrifoldeb o ran bod yn effro i beryglon a risgiau<br>  ○ y gwahaniaeth rhwng sylwebaeth ar lwybr sefydlog a sylwebaeth ddeongliadol<br>  ○ pwysigrwydd ymddangosiad personol<br>  ○ pam mae angen creu perthynas<br>• cynhyrchu llyfryddiaeth.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• canllaw gwybodaeth<br>• cyflwyniad<br>• adroddiadau ysgrifenedig<br>• llyfrau gwaith<br>• taflenni gwaith<br>• nodiadau cyfweliad. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Rhaid i'r **sylwebaeth ar gyfer taith dywys** gynnwys: |

**Ystod**

- amseriadau
- ystyriaethau iechyd a diogelwch
- manylion y gynulleidfa darged
- rhoi cwsmeriaid gwahanol mewn cyd-destun neu wneud addasiadau ar eu cyfer – gall enghreifftiau gynnwys:
    - darpariaeth ddwyieithog
    - anghenion hygyrchedd
    - sensitifrwydd diwylliannol
- gall dangosyddion llwyddiant gynnwys:
    - amser a gymerwyd
    - lefel y diddordeb a ddangoswyd
    - sylwadau gan y rhai sy'n cymryd rhan yn y daith.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- gwneud gwaith ymchwil a chynhyrchu sylwebaeth ar gyfer taith dywys gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod
- defnyddio adborth gan eraill i ddiwygio'r sylwebaeth os oes angen
- nodi dangosyddion llwyddiant i fel sail proses adolygu effeithiol
- darparu taith dywys mewn lleoliad a ddewisir, gan sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol:
    - galluogi cwsmeriaid i weld a chlywed y sylwebaeth
    - cynnal iechyd, diogelwch a diogeledd cwsmeriaid
    - cyflwyno gwybodaeth ddilys a chywir
    - darparu crynodebau clir a chywir a gwybodaeth ychwanegol pan ofynnir amdanynt.

Gellir cynnal y daith dywys mewn atyniad i ymwelwyr neu gellir ei hefelychu drwy chwarae rôl os nad oes cyfleusterau realistig ar gael. Lle bo'n briodol, gall canolfannau gynnwys teithiau tywys mewn atyniadau i ymwelwyr neu safleoedd treftadaeth yng Nghymru. Yng Nghymru, gall tywyswyr teithiau hefyd weithredu mewn amgylcheddau dwyieithog – gall ymwybyddiaeth o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 lywio sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i gefnogi darpariaeth Gymraeg a Saesneg mewn atyniadau i ymwelwyr.

DRAFFT

**Ystod**

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- adroddiadau arsylwi
- tystiolaeth tyst
- tystiolaeth glyweledol
- sylwebaeth
- nodiadau ymchwil.

**Ystod**

**3.1** Gall **gwerthuso sut mae taith dywys yn cael ei ddarparu** gynnwys:

- cywirdeb a dilysrwydd y cynnwys
- eglurder a chyflymder y cyflwyno
- ymgysylltiad â'r gynulleidfa
- rheoli iechyd a diogelwch
- ymateb i gwestiynau a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- gwerthuso cynnwys a chyflwyniad eu sylwebaeth yn erbyn y dangosyddion llwyddiant a nodwyd yn neilliannau dysgu 2 ac adborth gan eraill
- cynnwys dadansoddiad o'r dangosyddion llwyddiant a ddefnyddiwyd a hunanwerthusiad o'u perfformiad eu hunain.

**Mathau o dystiolaeth:**

DRAFFT

| **Ystod** |
| --- |
| Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• dyddlyfrau<br>• adroddiadau arsylwi<br>• tystiolaeth tyst<br>• hunanwerthusiad. |

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 21 Rheoli argyfwng ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-21)

<table>
<tr><th colspan="4">Crynodeb o'r uned</th></tr>
<tr><td colspan="4">Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr i edrych ar ddigwyddiadau yn y gorffennol a sut cawsant eu rheoli gan ddefnyddio cynllun argyfwng a'r cymorth sydd ar gael i gefnogi busnesau teithio a thwristiaeth mewn argyfwng.</td></tr>
<tr><th colspan="4">Asesiad</th></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol</td></tr>
<tr><td>Dewisol</td><td>Graddau P/T/Rh</td><td>Lefel 3</td><td>60 ODDA</td></tr>
</table>

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall gwahanol fathau o argyfyngau ym maes teithio a thwristiaeth yn y DU a thramor | 1.1 Esbonio gwahanol **fathau o argyfyngau** ym maes teithio a thwristiaeth yn y DU a thramor, gan gynnwys:<br>• **astudiaethau achos** o argyfwng yn hanes teithio a thwristiaeth | Nodi gwahanol fathau o argyfyngau yn y DU a thramor, gan roi enghreifftiau ar gyfer pob un o hanes teithio a thwristiaeth | Disgrifiwch yn fanwl y gwahanol fathau o argyfyngau yn y DU a thramor, gan roi enghreifftiau ar gyfer pob un o hanes teithio a thwristiaeth | Argymell gwelliannau realistig i'r ffordd y cafodd yr argyfyngau gwahanol ym maes teithio a thwristiaeth eu rheoli |
| 2. Gallu adolygu cynllun cylch brys mewn digwyddiad ym maes teithio a thwristiaeth | 2.1 Adolygu cynllun cylch brys ar gyfer digwyddiadau ym maes teithio a thwristiaeth yn seiliedig ar y canlynol:<br>• **rhagweld a pharatoi**<br>• **ymateb** | Disgrifio'r cynllun cylch brys ar gyfer digwyddiad penodol ym maes teithio a thwristiaeth | Esbonio sut mae timau unigol yn ymateb yn y cynllun cylch brys, gan gynnwys yr amserlenni i'w dilyn | Gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun cylch brys, gan argymell meysydd realistig a chyraeddadwy i'w gwella |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | • **adfer** | | | |
| 3. Gallu defnyddio cynllun cylch brys i ymateb i argyfwng | 3.1 Defnyddio cynllun i ymateb i argyfwng dychmygol mewn gweithgaredd tîm | Creu cynllun ac ymateb i argyfwng dychmygol mewn gweithgaredd tîm | Cymharu'r cynllun a'r ymateb â'r rhai o argyfwng bywyd go iawn tebyg | Gwerthuso'r cynllun ac awgrymu gwelliannau realistig a chyraeddadwy ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol |

**Ystod**

1.1 Rhaid i'r **mathau o argyfyngau** gynnwys:

- trychineb naturiol, gan gynnwys digwyddiadau yn ymwneud â'r tywydd
- ymosodiadau terfysgol
- aflonyddwch sifil
- argyfyngau sy'n gysylltiedig ag iechyd
- argyfyngau ariannol ac economaidd
- materion yn ymwneud â thrafnidiaeth
- ymosodiadau seiber.

**1.1** Gall **astudiaethau achos** gynnwys:

- cwmwl lludw folcanig Eyjafjallajokull
- ansolfedd Monarch a Thomas Cook
- pandemig byd-eang
- y gwrthdaro yn Wcráin
- yr ymosodiad traeth yn Nhunisia
- ymosodiadau bom ar ardaloedd twristiaeth yn yr Aifft
- tanau gwyllt yng Ngwlad Groeg
- Methiant y Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS) yn 2023
- damwain bws Titterington Holidays UK yn 2023



DRAFFT

**Ystod**

- Costa Concordia
- argyfyngau sy'n effeithio ar gyrchfannau neu fusnesau teithio a thwristiaeth yng Nghymru – gall enghreifftiau gynnwys:
  - tywydd eithafol
  - tarfu ar drafnidiaeth neu ddigwyddiadau yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr roi sylw i'r canlynol:

- astudiaethau achos o argyfyngau yn hanes teithio a thwristiaeth o 2000 ymlaen, gan gynnwys enghreifftiau o bob un o'r mathau gofynnol o argyfwng.

**Rhaid** i astudiaethau achos gynnwys enghreifftiau o'r DU a thramor.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- adroddiad ysgrifenedig
- dadansoddi astudiaethau achos
- cyflwyniad
- nodiadau ymchwil
- ffynonellau wedi'u hanodi.

**Ystod**

**2.1** Rhaid i'r gwaith **rhagweld a pharatoi** gynnwys y canlynol:

- dulliau rhagweithiol vs adweithiol
- timau hyfforddedig yn eu lle yn dilyn strategaeth efydd, arian ac aur ar gyfer cynllunio at argyfyngau
- ymarferion bwrdd gwaith



DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • amddiffyniad Trwydded Trefnwyr Teithio Awyrennau (ATOL)<br>• Cronfa Teithio Awyr<br>• yswiriant cwmni<br>• cynlluniau wrth gefn a chronfeydd wrth gefn<br>• briffio cwsmeriaid – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ cyhoeddiadau gwesty<br>    ○ negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol.<br><br>**2.1** Rhaid i **ymateb** gynnwys:<br><br>• dyletswydd gofal a llesiant ymwelwyr<br>• ieithoedd a chyfieithwyr<br>• dychwelyd pobl i'w gwledydd eu hunain<br>• cynnal busnes<br>• gwybodaeth gywir ac amserol i weithwyr, twristiaid a'r cyhoedd<br>• cyfathrebu ag awdurdodau perthnasol, cymunedau a rhanddeiliaid eraill<br>• rheoli disgwyliadau<br>• canllawiau diogelwch<br>• trefniadau amgen<br>• ymateb y cyfryngau a chadw'r cyfryngau dan reolaeth<br>• cwmnïau sy'n rhoi cymorth arbennig<br>• cydweithio ar draws gwahanol leoliadau<br>• defnyddio'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO)<br>• delio â chwsmeriaid heriol<br>• helpu cwsmeriaid sydd wedi'u hanafu neu sydd wedi'u heffeithio'n emosiynol<br>• dyfeisgarwch a gwydnwch staff.<br><br>**2.1** Rhaid i **adfer** gynnwys:<br><br>• yswiriant teithio a hawliadau ar gyfer cwsmeriaid |

DRAFFT

**Ystod**

- gwerthusiad ar ôl argyfwng
- gwersi a ddysgwyd
- addasiadau a diweddaru cynlluniau
- y posibilrwydd y bydd hyn yn digwydd eto
- rhannu gwybodaeth
- gwahodd y byd yn ôl
- denu teithwyr i ddychwelyd
- addysgu i leihau ofn.

Lle bo’n briodol, gall dysgwyr werthuso astudiaeth achos flaenorol i ystyried sut cafodd cynllun brys ei ddilyn a’r mesurau a roddwyd ar waith.

Yng Nghymru, mae cynllunio brys ac ymateb i argyfwng yn cael eu cydlynu drwy Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, sy’n dod â gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill at ei gilydd i baratoi ar gyfer digwyddiadau mawr ac ymateb iddynt. Lle bo’n berthnasol, gall hyn gynnwys ystyried cydgysylltu â chyrff cyhoeddus datganoledig neu wasanaethau brys sy’n gweithredu yng Nghymru ochr yn ochr ag asiantaethau cenedlaethol.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- adolygu cynllun cylch brys ar gyfer digwyddiad penodol ym maes teithio a thwristiaeth, sy’n cwmpasu’r tri cham:
    - rhagweld a pharatoi
    - ymateb
    - adfer.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio’r math neu’r mathau perthnasol o dystiolaeth:

| Ystod |
| --- |
| • dogfen adolygu neu ddadansoddi ysgrifenedig<br>• cyflwyniad<br>• cynllun cylch brys wedi'i anodi. |

| Ystod |
| --- |
| **3.1**<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• gweithio fel tîm i greu cynllun ac ymateb i argyfwng dychmygol<br>• defnyddio argymhellion y llywodraeth fel sail eu hymateb, gan gynnwys Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a'i chanllawiau cysylltiedig.<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau hefyd gynnwys cyfeiriad at ganllawiau perthnasol neu drefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng sy'n berthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• cofnod arsylwi gweithgaredd tîm<br>• dogfen cynllun ymateb i argyfwng<br>• gwerthusiad ysgrifenedig<br>• adroddiad myfyriol<br>• cofnod yr asesydd. |



DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 22 Meysydd awyr y DU (TTW-03-22)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o feysydd awyr y DU a'u cyfleoedd o ran cynhyrchu incwm. Bydd y dysgwr hefyd yn egluro rolau cyrff rheoleiddio sy'n gysylltiedig â meysydd awyr y DU, iechyd a diogelwch, rheoli risg a pheryglon o ran diogeledd. Bydd y dysgwr hefyd yn gwerthuso cyfleoedd gyrfa ochr y tir ac ochr yr awyr ym meysydd awyr y DU. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall meysydd awyr y DU | 1.1 Esbonio meysydd awyr y DU, gan gynnwys:<br>• **cyfleoedd o ran cynhyrchu incwm** | Cefnogi pob pwynt gyda rhai enghreifftiau manwl ar ffurf ffeil ffeithiau | Cefnogi pob pwynt gyda rhai enghreifftiau manwl a rhai cymariaethau priodol ar ffurf ffeil ffeithiau | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a chymariaethau priodol ar ffurf ffeil ffeithiau |
| 2. Deall rheoleiddio meysydd awyr a materion cyfredol | 2.1 Esbonio rheoleiddio meysydd awyr y DU a materion cyfredol yn seiliedig ar y canlynol:<br>• rolau cyrff rheoleiddio sy'n gysylltiedig â meysydd awyr y DU<br>• **peryglon o ran iechyd a diogelwch, rheoli** | Disgrifio materion sy'n ymwneud ag arfer presennol ym meysydd awyr y DU | Disgrifio materion sy'n ymwneud ag arfer presennol ym meysydd awyr y DU, gan ddefnyddio iaith arbenigol briodol yn ei chyd-destun | Disgrifio materion sy'n ymwneud ag arfer presennol ym meysydd awyr y DU, gan ddefnyddio iaith arbenigol yn gywir yn ei chyd-destun |



DRAFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | **risg a diogeledd** ym meysydd awyr y DU | | | |
| 3. Deall cyfleoedd gyrfa ochr y tir ac ochr yr awyr ym meysydd awyr y DU | 3.1 Gwerthuso cyfleoedd gyrfa ochr yr awyr ac ochr y tir ym meysydd awyr y DU drwy ystyried:<br>• rolau a chyfrifoldebau<br>• manteision<br>• anfanteision<br>• y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen i weithio yn y maes hwn<br>• cymwysterau sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd | Dod i gasgliadau rhesymedig am gyfleoedd gyrfa yn seiliedig ar wybodaeth briodol | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys am gyfleoedd gyrfa yn seiliedig ar yr wybodaeth | Dod i gasgliadau rhesymedig a chytbwys sy'n sail i benderfyniadau yn y dyfodol am gyfleoedd gyrfa |

**Ystod**

**1.1** Gall **cyfleoedd o ran cynhyrchu incwm** gynnwys:

- consesiynau manwerthu a masnachol
- parcio
- ffioedd glanio a chostau hedfan
- hysbysebu
- gwasanaethau gwesty a lletygarwch
- lolfeydd busnes.



DRAFFT

**Ystod**

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- cymharu dau faes awyr yn y DU sy'n amrywio o ran maint, gan gynnwys ar gyfer pob un:
    - lleoliad a mynediad
    - maint a graddfa
    - cwmnïau hedfan a llwybrau
    - perchnogaeth
    - cyfleusterau – wrth ochr yr awyr ac wrth ochr y tir
    - gweithrediadau rheoli traffig awyr (ATC)
- esbonio sut mae meysydd awyr yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o ran cynhyrchu incwm
- cynhyrchu ffeil ffeithiau
- cynhyrchu llyfryddiaeth.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau gynnwys meysydd awyr sy'n gwasanaethu Cymru fel rhan o'r ystod ofynnol yn y DU – gall enghreifftiau gynnwys Maes Awyr Caerdydd, sy'n gweithredu o dan berchnogaeth a chefnogaeth Llywodraeth Cymru, sy'n dangos sut gall cyfranogiad llywodraethau datganoledig ddylanwadu ar ddatblygiad a chyfeiriad strategol maes awyr rhanbarthol yn sector hedfan ehangach y DU.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig.



DRAFFT

**Ystod**

**2.1** Gall **peryglon o ran iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogeledd** gynnwys:

- iechyd – gall enghreifftiau gynnwys:
  - mewnforio ac allforio bwydydd
  - rheolaethau bioddiogelwch
- diogelwch – gall enghreifftiau gynnwys:
  - cyfarpar diogelu personol (PPE)
  - trin bagiau
- diogelwch – gall enghreifftiau gynnwys:
  - sganwyr corff a bagiau
  - codau QR
  - datblygiadau mewn technoleg sgrinio.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- esbonio rolau'r cyrff rheoleiddio canlynol, gan roi enghreifftiau o sut maent yn berthnasol i feysydd awyr yn y DU:
  - Asiantaeth Diogelwch Hedfan yr Undeb Ewropeaidd (EASA)
  - Sefydliad Hedfan Sifil Rhyngwladol (ICAO)
  - Y Gymdeithas Trafnidiaeth Awyr Ryngwladol (IATA)
  - Yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA)
  - Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
  - Cangen Ymchwilio i Ddamweiniau Awyr (AAIB)
  - yr Adran Drafnidiaeth
- esbonio sut mae un o'r meysydd awyr a ddewiswyd yn neilliannau dysgu 1 yn rheoli risg, gan gynnwys peryglon o ran iechyd, diogelwch a diogeledd
- cefnogi pob pwynt gydag esboniad o'r materion cyfredol o fewn rheoliadau meysydd awyr.



DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| Lle nad yw deddfwriaeth, rheoliadau a sefydliadau a restrir yn berthnasol i awdurdodaeth benodol, gellir eu hamnewid. Lle bo'n briodol, gall canolfannau gynnwys cyfeiriad at sut mae rheoliadau hedfan y DU yn gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau polisi datganoledig sy'n berthnasol i ddatblygu meysydd awyr neu strategaeth drafnidiaeth.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• ffeil ffeithiau<br>• taflenni gwaith<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• prawf holi ac ateb. |

| Ystod |
| --- |
| **3.1** Gall **cyfleoedd gyrfa ochr yr awyr ac ochr y tir** gynnwys:<br><br>• rolau ar ochr yr awyr – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ trin bagiau, glanhawr awyrennau, rheolwr traffig awyr, swyddog diogeledd, peiriannydd awyrennau<br>• swyddi ar ochr y tir – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ asiant cofrestru<br>  ○ cynorthwyydd manwerthu<br>  ○ cynrychiolydd gwasanaeth i gwsmeriaid<br>  ○ swyddog rheoli pasbortau<br>  ○ cynorthwyydd maes parcio.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol: |


DRAFT

## Ystod

- rhoi sylw i:
  - gwerthusiad o gyfleoedd gyrfa mewn dwy swydd (un ochr yr awyr ac un ochr y tir), gan gynnwys ar gyfer pob un:
    - rolau a chyfrifoldebau
    - manteision ac anfanteision gweithio yn y sector hwnnw
    - y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen
    - cymwysterau angenrheidiol
- cynhyrchu ffeiliau ffeithiau ar gyfer dwy swydd (un ar yr awyr ac un ar ochr y tir).

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- taflenni gwaith
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig.

## Canllawiau cyflawni ac asesu

Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.

Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.

Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.



DRAFFT

| **Canllawiau cyflawni ac asesu** |
| --- |
| Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 23 Ymchwilio i griw caban awyren (TTW-03-23)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o rolau a chyfrifoldebau criw caban awyren a sut maen nhw'n rheoli risgiau o ran diogelwch a diogeledd. Bydd y dysgwr yn ymchwilio i'r dulliau recriwtio, y prosesau dethol a'r pecynnau cyflogaeth a gynigir gan wahanol gwmnïau hedfan. Bydd y dysgwr hefyd yn cyflawni dyletswyddau criw caban awyren ac yn myfyrio ar ei berfformiad. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall rôl criw caban awyren | 1.1 Esbonio rôl criw caban awyren, gan gynnwys:<br>• rolau a chyfrifoldebau criw caban awyren<br>• **sut mae criw caban awyren yn rheoli** risgiau o ran diogelwch a diogeledd | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun ar ffurf llawlyfr hyfforddi | Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun ar ffurf llawlyfr hyfforddi | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu'n gywir yn ei eiriau ei hun ar ffurf llawlyfr hyfforddi |
| 2. Deall prosesau recriwtio criw caban awyren | 2.1 Esbonio prosesau recriwtio criw caban awyren yn seiliedig ar:<br>• y dulliau recriwtio ar gyfer criw caban ar gyfer cwmnïau hedfan sy'n rhedeg | Defnyddio gwybodaeth o ffynhonnell arbenigol a chyfleu'r wybodaeth honno yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw gwybodaeth | Defnyddio gwybodaeth a geir mewn fformatau gwahanol o ddwy ffynhonnell arbenigol o leiaf a chyfleu'r wybodaeth honno'n gywir, i raddau helaeth, yn ei eiriau ei hun ar ffurf | Defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chymryd yn briodol o ystod eang o ffynonellau arbenigol, mewn fformatau gwahanol, a'i chyfleu yn ei eiriau ei hun ar ffurf canllaw gwybodaeth |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | hediadau wedi'u trefnu, hediadau siarter, a hediadau cost isel<br>• y prosesau a'r meini prawf dethol ar gyfer cwmnïau hedfan sy'n rhedeg hediadau wedi'u trefnu, hediadau siarter, a hediadau cost isel<br>• y **pecynnau cyflogaeth** a gynigir gan gwmnïau hedfan sy'n rhedeg hediadau wedi'u trefnu, hediadau siarter, a hediadau cost isel | | canllaw gwybodaeth | |
| 3. Gallu cyflawni dyletswyddau criw caban awyren | 3.1 Dangos dyletswyddau criw caban awyren drwy wneud y canlynol:<br>• cyflawni **dyletswyddau arferol criw caban awyren**<br>• adlewyrchu sut roeddent yn | Dangos y defnydd o rywfaint o sgiliau arbenigol criw caban awyren wrth gwblhau senarios masnachol | Dangos y defnydd effeithiol o sgiliau arbenigol criw caban awyren wrth gwblhau senarios masnachol | Dangos y defnydd cyson ac effeithiol o sgiliau arbenigol criw caban awyren wrth gwblhau senarios masnachol |

DRAFFT

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | perfformio yn ystod dyletswyddau criw caban | | | |

**Ystod**

**1.1** Rhaid i **sut y mae criw caban awyren yn ymdopi** gynnwys:

- diogelwch a diogeledd teithwyr – gall enghreifftiau gynnwys:
  - sesiwn briffio cyn hedfan
  - arddangosiad diogelwch ar yr awyren
  - gwiriadau diogeledd
- pa mor gyfforddus yw'r teithwyr – gall enghreifftiau gynnwys:
  - hydradu
  - llesiant teithwyr
- darparu gwybodaeth – gall enghreifftiau gynnwys:
  - gwasanaethau sydd ar gael ar yr awyren
  - cyngor ynglŷn â chyrraedd
- delio â chwynion a phroblemau – gall enghreifftiau gynnwys:
  - ansawdd bwyd
  - alergeddau bwyd
  - gwrthdaro rhwng teithwyr
- gwerthiannau di-doll – gall enghreifftiau gynnwys:
  - cyfnewidfa dramor
  - stoc
  - ymwybyddiaeth o gylchgronau
- gweithio ar y cyd fel rhan o dîm – gall enghreifftiau gynnwys:
  - dyrannu gorsafoedd megis gali
- cydymffurfio â rheoliadau a gweithdrefnau cwmnïau hedfan a meysydd awyr – gall enghreifftiau gynnwys:
  - gweithdrefnau diogelwch ac argyfwng (SEP).

DRAFFT

**Ystod**

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi enghreifftiau mewn cyd-destun i gynnwys cwmnïau hedfan sy'n gweithredu llwybrau i feysydd awyr sy'n gwasanaethu Cymru ac oddi yno (er enghraifft, Maes Awyr Caerdydd), gan ddangos sut mae cyfrifoldebau criw cabanau'n cael eu cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau gweithredol, gan gynnal dealltwriaeth ledled y DU o rolau criw caban awyren.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi sylw i sut mae criw caban yn ymdopi, gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod
- cynhyrchu llawlyfr hyfforddi.

Gall enghreifftiau presennol o'r diwydiant gynnwys cyfeiriad at gyhoeddiadau diogelwch cwmnïau hedfan, polisïau iechyd a diogelwch, straeon/digwyddiadau yn y newyddion.
Lle bo'n berthnasol, gall hyn gynnwys cyfeiriad at gyfathrebiadau diogelwch hedfan y DU neu ddiweddariadau rheoleiddio sy'n effeithio ar hediadau sy'n gweithredu yng Nghymru, ar yr amod bod y rhain yn cael eu defnyddio'n eglurhaol.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- llyfryddiaeth
- taflenni gwaith
- cyflwyniad
- tystiolaeth glyweledol
- astudiaethau achos
- adroddiad ysgrifenedig
- prawf holi ac ateb.

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| **2.1** Gall **pecynnau cyflogaeth** gynnwys:<br><br>• manteision<br>• cyflog<br>• lleoliad<br>• gwisg<br>• cyfleoedd am ddyrchafiad<br>• contractau.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• rhoi sylw i, ar gyfer pob un o'r tri math o gwmni hedfan (wedi'u trefnu, siarter a chost isel):<br>    ○ sut mae cwmnïau hedfan yn recriwtio criw caban<br>    ○ y prosesau recriwtio a'r meini prawf dethol<br>    ○ un enghraifft benodol o gwmni fesul math o gwmni hedfan, gan gynnwys pecyn cyflogaeth y cwmni sy'n cynnwys:<br>        ▪ manteision<br>        ▪ cyflog<br>        ▪ lleoliad<br>        ▪ gwisg<br>        ▪ dyrchafiad<br>        ▪ contractau<br>• cynhyrchu canllaw gwybodaeth.<br><br>Lle bo'n briodol, gall canolfannau gynnwys ystyried cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chwmnïau hedfan sy'n gweithredu o feysydd awyr sy'n gwasanaethu Cymru – gall enghreifftiau gynnwys cwmnïau hedfan sy'n gweithredu o Faes Awyr Caerdydd megis TUI, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer recriwtio a hyfforddi criwiau cabanau sy'n gysylltiedig â meysydd awyr rhanbarthol ar gyfer gadael y DU.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:** |



DRAFFT

| Ystod |
|---|
| Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni gwaith<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

| Ystod |
|---|
| **3.1** Gall **dyletswyddau arferol criw caban awyren** gynnwys:<br><br>• dangosiad diogelwch<br>• gwasanaeth di-doll<br>• gwasanaeth bwyd a diod<br>• delio â chwsmer sydd wedi gwylltio<br>• delio â chwsmer sy'n wael<br>• darparu cymorth cyntaf.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• cwblhau tri senario masnachol sy'n dangos dyletswyddau nodweddiadol criw caban awyren<br>• gwerthuso cryfderau a gwendidau eu perfformiad wrth ddelio â'r senarios.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• taflenni gwaith |

DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • tystiolaeth tyst<br>• adroddiadau arsylwi<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• adolygu perfformiad<br>• tystysgrifau<br>• ffotograffau. |

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
|---|
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFFT

# Uned 24 Arweinyddiaeth ac adnoddau dynol (TTW-03-24)

| Crynodeb o'r uned | | | |
|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o ran arweinyddiaeth ac adnoddau dynol, gan gynnwys arddulliau arwain a rolau a chyfrifoldebau adnoddau dynol. Bydd y dysgwr yn defnyddio'r wybodaeth hon ac yn arwain cyfweliad recriwtio, gan adolygu ei sgiliau arwain ei hun. | | | |
| **Asesiad** | | | |
| **Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol** | | | |
| **Dewisol** | **Graddau P/T/Rh** | **Lefel 3** | **60 ODDA** |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| 1. Deall gwahanol ddulliau o arweinyddiaeth | 1.1 Esbonio gwahanol **arddulliau arweinyddiaeth**, gan gynnwys:<br>• nodi ei arddull arweinyddiaeth ei hun | Cefnogi pob pwynt gyda rhai enghreifftiau manwl | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a rhai cymariaethau priodol | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a chymariaethau priodol |
| 2. Deall rôl a chyfrifoldebau adnoddau dynol | 2.1 Esbonio rôl a chyfrifoldebau **adnoddau dynol**, gan gynnwys:<br>• prosesau recriwtio<br>• **deddfwriaeth a pholisïau cyflogaeth** | Cefnogi pob pwynt gyda rhai enghreifftiau manwl | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a rhai cymariaethau priodol | Cefnogi pob pwynt gydag enghreifftiau manwl a chymariaethau priodol |
| 3. Gallu dangos arweinyddiaeth yn y broses recriwtio | 3.1 Dangos arweinyddiaeth yn y **broses recriwtio** | Dangos y defnydd o rywfaint o sgiliau arbenigol wrth gwblhau brîff cymhleth | Dangos y defnydd effeithiol o sgiliau arbenigol i fodloni briff cymhleth | Dangos y defnydd cyson ac effeithiol o sgiliau arbenigol i fodloni briff cymhleth |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Pasio**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Teilyngdod**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: | **Rhagoriaeth**<br>Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| | drwy wneud y canlynol:<br>• paratoi a chynllunio sesiwn recriwtio ar gyfer rôl benodol<br>• briffio'r tîm recriwtio<br>• arwain cyfweliad<br>• ymateb i, a rhoi, adborth adeiladol | | | |
| 4. Gallu adolygu ei arweinyddiaeth yn y broses recriwtio | 4.1 Adolygu ei **arweinyddiaeth yn y broses recriwtio** drwy wneud y canlynol:<br>• gwerthuso eu sgiliau arweinyddiaeth yn y broses recriwtio<br>• awgrymu gwelliannau i'r broses recriwtio | Llunio cynllun datblygiad personol i wella neu ymestyn y canlyniad, sydd â rhai cysylltiadau â'r profiad o'r dasg/perfformiad | Llunio cynllun datblygiad personol i wella neu ymestyn y canlyniad, sydd wedi'i gysylltu'n glir â phrofiad y dasg/perfformiad | Llunio cynllun datblygiad personol cynhwysfawr i wella neu ymestyn y canlyniad, wedi'i gysylltu'n glir â phrofiad y dasg/perfformiad |

## Ystod

**1.1** Gall **arddulliau arweinyddiaeth** gynnwys:

- trawsnewidiol
- trafodol
- sefyllfaol
- gall dulliau o adnabod ei arddull arweinyddiaeth ei hun gynnwys:
  - dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT)

**Ystod**

- holiaduron ar arddull arweinyddiaeth
- offer seicometrig
- profion personoliaeth – gall enghreifftiau gynnwys:
    - Mewnwelediadau
    - Myers-Briggs.

Lle bo'n briodol, gall canolfannau roi sefyllfaoedd yn y gweithle mewn cyd-destun i adlewyrchu cyd-destunau sefydliadol yng Nghymru, gan gynnwys sefydliadau cyhoeddus, preifat neu drydydd sector sy'n gweithredu yn y sector teithio a thwristiaeth, gan gynnal dealltwriaeth ledled y DU o arferion arweinyddiaeth.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- esbonio'r gwahaniaeth rhwng arweinyddiaeth a rheoli
- amlinellu a chymharu gwahanol arddulliau arweinyddiaeth a phryd y gellir eu defnyddio yn y lleoliad gwaith
- disgrifio'r sgiliau a'r rhinweddau sy'n gysylltiedig â phob arddull arweinyddiaeth
- esbonio sut mae arddulliau arweinyddiaeth gwahanol yn gallu bod yn effeithiol neu aneffeithiol mewn amgylchiadau gwahanol
- nodi a dadansoddi tair sefyllfa wahanol yn y gweithle ac egluro pa arddull neu ymddygiad arweinyddiaeth fyddai'n briodol
- nodi eu harddull arweinyddiaeth eu hunain a dadansoddi eu sgiliau arweinyddiaeth, gan wneud awgrymiadau ar sut y gallant wella eu harweinyddiaeth a'u cyfathrebu ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

- ffeil ffeithiau
- adroddiadau arsylwi
- tystiolaeth glyweledol
- adroddiad ysgrifenedig


DRAFFT

| Ystod |
|---|
| • datganiadau ysgrifenedig<br>• llyfrau gwaith. |

| Ystod |
|---|
| **2.1** Rhaid i **adnoddau dynol** gynnwys:<br><br>• recriwtio, cadw a chaffael talent<br>• rheoli contractau cyflogaeth<br>• sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cyflogaeth<br>• cysylltiadau rhwng cyflogwyr a gweithwyr – gall enghreifftiau gynnwys:<br>    ○ datblygu mentrau cydweithwyr<br>    ○ disgyblaeth<br>    ○ absenoldeb salwch (er enghraifft, mamolaeth, sabothol)<br>    ○ terfyniadau, cwynion.<br><br>**2.1** Gall **polisïau a gweithdrefnau cyflogaeth** gynnwys:<br><br>• Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) (2021)<br>• Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb 1974<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010<br>• Rheoliadau Amser Gweithio Hedfan Sifil (CAWTR) (2004)<br>• Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 a’r Cyflog Byw Cenedlaethol<br>• polisïau cyfryngau cymdeithasol<br>• polisïau disgyblu<br>• chwythu’r chwiban<br>• Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – sy’n cefnogi arferion dwyieithog yn y gweithle<br>• Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo arferion sefydliadol cynaliadwy a chymdeithasol gyfrifol mewn gweithleoedd yng Nghymru. |


DRAFFT

| Ystod |
|---|
| Lle nad yw deddfwriaeth, rheoliadau a sefydliadau a restrir yn berthnasol i awdurdodaeth benodol, gellir eu hamnewid. Gall canolfannau hefyd gynnwys cyfeiriad at ganllawiau Llywodraeth Cymru neu fentrau gweithlu sy'n cefnogi recriwtio, datblygu sgiliau neu arferion cyflogaeth teg – gall enghreifftiau gynnwys fframweithiau datblygu sgiliau a phrentisiaethau Cymru sy'n cefnogi hyfforddiant i'r gweithlu a datblygiad gyrfa yn y sector teithio a thwristiaeth yng Nghymru.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• esbonio swyddogaethau a chyfrifoldebau adnoddau dynol gan gyfeirio at y categorïau yn yr ystod<br>• esbonio pob cam o'r broses recriwtio, gan gynnwys:<br>  ○ ysgrifennu disgrifiad swydd<br>  ○ hysbysebu swydd wag<br>  ○ dadansoddi ceisiadau ar gyfer llunio rhestr fer<br>  ○ cynllunio'r cyfweliad (cwestiynau, gweithgareddau a fformat)<br>  ○ cynnal y cyfweliad<br>  ○ cwblhau gwiriadau cefndir ar ymgeiswyr<br>  ○ cynnig swydd i ymgeiswyr llwyddiannus<br>  ○ rhoi gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus<br>  ○ gwaith gweinyddu cyn cyflogi (cyflogres, contractio, cynefino)<br>• dewis ac esbonio pum polisi a deddfwriaeth sy'n berthnasol i weithrediadau adnoddau dynol ac egluro pwysigrwydd cydymffurfio â nhw<br>• esbonio rôl yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) a'r Adran Drafnidiaeth (DfT).<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:<br><br>• astudiaethau achos<br>• llinell amser |

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • ffeithlun<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• ymchwil neu ffeil ffeithiau. |

| Ystod |
| --- |
| **3.1** Rhaid i'r **broses recriwtio** gynnwys:<br><br>• cyfweliadau am swyddi gwag – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ asiant gwasanaethau i deithwyr<br>  ○ asiant dosbarthu<br>  ○ asiant ramp ochr yr awyr<br>  ○ goruchwyliwr gweithredol<br>  ○ capten<br>  ○ criw caban<br>  ○ swyddog diogeledd<br>  ○ rheolwr gweithredol<br>• sgiliau a rhinweddau cyfweld – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ paratoi cwestiynau<br>  ○ gosod disgwyliadau o ran sut bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal<br>  ○ sgiliau gwrando gweithredol<br>  ○ dangos empathi a deallusrwydd emosiynol (er enghraifft, gwneud i'r ymgeisydd deimlo'n gartrefol)<br>  ○ osgoi tuedd i gadarnhau<br>  ○ cadarnhau'r camau nesaf gyda'r ymgeisydd<br>• technegau adborth adeiladol – gall enghreifftiau gynnwys:<br>  ○ cydbwyso adborth cadarnhaol a negyddol<br>  ○ rhoi adborth nad yw'n bersonol<br>  ○ cyflwyno adborth mewn modd parchus<br>  ○ rhoi enghreifftiau penodol o arsylwi |



DRAFFT

**Ystod**

  - rhoi adborth sy'n hawdd ei ddeall – gall enghreifftiau gynnwys:
    - un pwynt ar y tro
- briffio tîm – gall strategaeth friffio strwythuredig gynnwys:
  - sefyllfa
  - cenhadaeth
  - rhoi ar waith
  - gofyn cwestiynau
  - cadarnhau dealltwriaeth.

**Gofyniad asesu:**

**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:

- cynhyrchu cynllun manwl ar gyfer y sesiwn recriwtio, gan gynnwys:
  - nodau ac amcanion y tîm
  - disgrifiad swydd ar gyfer y swydd wag
  - fformat y cyfweliad (er enghraifft, grŵp neu banel)
  - storio adnoddau
  - fframiau amser
  - dirprwyo rôl (o leiaf tri mewn grŵp)
  - trefniadau wrth gefn
- rhoi gwybod i'r tîm recriwtio am y cynllun cyfweliad
- dirprwyo i aelodau'r tîm er mwyn cwblhau'r dasg yn llwyddiannus
- arwain cyfweliad ar gyfer swydd wag y dewisir drwy chwarae rôl
- rhoi adborth i'w tîm ar ôl yr ymarfer recriwtio, gan ganfod llwyddiant yr ymgeisydd
- rhoi adborth adeiladol i'r ymgeisydd.

**Mathau o dystiolaeth:**

Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth:

DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • llinell amser<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig<br>• adroddiad arsylwi<br>• tystiolaeth tyst<br>• adolygiadau gan gymheiriaid<br>• llyfrau gwaith/dyddlyfrau. |

| Ystod |
| --- |
| **4.1** Rhaid i **arweinyddiaeth yn y broses recriwtio** gynnwys:<br><br>• effeithiolrwydd cynllunio a pharatoi<br>• ansawdd y briff a'r ôl-drafodaeth<br>• rheoli cyfweliad a phrofiad ymgeisydd<br>• dangos sgiliau a rhinweddau arweinyddiaeth<br>• darparu adborth adeiladol ac effaith yr adborth hwnnw.<br><br>**Gofyniad asesu:**<br><br>**Rhaid** i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• adolygu eu perfformiad yn y broses recriwtio, gan ddefnyddio adborth gan eraill lle bo ar gael, gan roi sylw i'r rhestr yn yr ystod<br>• cynhyrchu cynllun datblygu personol yn seiliedig ar eu gwerthusiad o'r gweithgaredd recriwtio, gan gynnwys myfyrio ar eu harddull arwain ac awgrymiadau ar gyfer gwella ymhellach.<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r math neu'r mathau perthnasol o dystiolaeth: |



DRAFFT

| Ystod |
| --- |
| • llinell amser<br>• cynllun datblygiad personol<br>• cyflwyniad<br>• tystiolaeth glyweledol<br>• adroddiad ysgrifenedig. |

| Canllawiau cyflawni ac asesu |
| --- |
| Mae'r termau **rhaid** a **gall** yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned hon. Gweler Adran 2 am arweiniad ar sut mae'r termau hyn yn berthnasol.<br><br>Dim ond arweiniad yw'r mathau o dystiolaeth a restrir ym mhob gofyniad asesu. I gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir cynhyrchu tystiolaeth drwy sawl cyfrwng. Gallai hyn gynnwys defnyddio ysgrifennydd neu fformatau hygyrch eraill, ar yr amod bod ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir yn gallu cael ei dilysu'n fewnol ac yn allanol, a bod pob deilliant dysgu yn derbyn sylw. Dylai canolfannau sicrhau bod mathau priodol o dystiolaeth yn cael eu dewis ar gyfer y dasg.<br><br>Dylai canolfannau yng Nghymru sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i lunio asesiadau, gan gynnwys unrhyw dasgau llafar, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn helpu canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Os hoffech gael sêl bendith ar ddulliau asesu mewnol ar wahân i lunio portffolio, cysylltwch â'ch sicrhawr ansawdd allanol. |

DRAFT

## Strategaeth asesu NCFE

Mae prif ofynion y strategaethau neu'r egwyddorion asesu sy'n ymwneud ag unedau yn y cymwysterau hyn yn cael eu crynhoi isod.

Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod unigolion sy'n ymgymryd â rolau asesydd neu sicrhawr ansawdd yn y ganolfan yn cydymffurfio â gofynion asesu'r uned y maent yn ei hasesu neu'n sicrhau ei hansawdd.

**Deilliannau Dysgu – Gwybodaeth**

- bydd angen i aseswyr fod yn alwedigaethol wybodus a chymwysedig i wneud penderfyniadau asesu.
- bydd angen i sicrhawyr ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a chymwysedig i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

**Deilliannau Dysgu – Cymhwysedd/Sgiliau**

- bydd angen i aseswyr fod yn alwedigaethol gymwys a chymwysedig i wneud penderfyniadau asesu.
- bydd angen i sicrhawyr ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a chymwysedig i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Y ganolfan y mae'r dysgwyr wedi cofrestru â hi sy'n gyfrifol am wneud pob penderfyniad asesu. Rhaid **contractio** aseswyr i weithio'n uniongyrchol gyda'r ganolfan, gan gyfrannu at bob agwedd ar safoni. Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod proses hyfforddi'n cael ei dilyn, gan gynnwys yn ystod gweithgareddau cynefino a sicrhau ansawdd. Rhaid i aseswyr o'r ganolfan sy'n alwedigaethol gymwys a chymwysedig arsylwi'n uniongyrchol i asesu canlyniadau ymarferol sy'n seiliedig ar sgiliau.

DRAFFT

# Adran 3: esbonio termau

Mae'r tabl hwn yn egluro sut mae'r termau sy'n cael eu defnyddio ar **lefel 3** yng nghynnwys yr uned yn cael eu cymhwyso i'r cymwysterau hyn (nid yw pob berf yn cael ei defnyddio yn y cymwysterau hyn).

| | |
|---|---|
| **Cymhwyso** | Egluro sut y gellir cysylltu gwybodaeth sydd ar gael eisoes i sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| **Dadansoddi** | Rhannu'r pwnc yn rhannau unigol ac archwilio pob un. Dangos y cysylltiad rhwng y prif syniadau a pham eu bod yn bwysig. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gefnogi'r dadansoddiad. |
| **Egluro** | Egluro'r wybodaeth mewn ffordd glir a chryno |
| **Dosbarthu** | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| **Coladu** | Casglu a chyflwyno gwybodaeth mewn trefn ddilyniannol neu resymegol. |
| **Cymharu** | Archwilio'r pynciau'n fanwl gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau. |
| **Cymharu'n feirniadol** | Dyma ddatblygiad o 'cymharu' lle mae'r dysgwr yn ystyried agweddau positif a chyfyngiadau'r pwnc. |
| **Ystyried** | Meddwl yn ofalus ac ysgrifennu am broblem, gweithred neu benderfyniad. |
| **Creu** | Gwneud neu gynhyrchu arteffact yn ôl yr angen. |
| **Dangos** | Dangos dealltwriaeth o'r pwnc neu sut i gymhwyso sgiliau mewn sefyllfa ymarferol. |
| **Disgrifio** | Ysgrifennu am y pwnc gan roi gwybodaeth fanwl mewn ffordd resymegol. |
| **Datblygu (cynllun/syniad)** | Ehangu cynllun neu syniad drwy ychwanegu mwy o fanylion a/neu ddyfnder gwybodaeth. |
| **Gwneud diagnosis** | Nodi'r achos yn seiliedig ar dystiolaeth ddilys. |
| **Gwahaniaethu** | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dau neu fwy o bethau. |
| **Trafod** | Ysgrifennu adroddiad manwl yn rhoi ystod o safbwyntiau neu farnau. |
| **Hynodi** | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng dwy eitem, adnoddau, darnau o wybodaeth neu fwy. |
| **Dod i gasgliadau** | Gwneud penderfyniad neu ddyfarniad terfynol yn seiliedig ar resymau. |
| **Amcangyfrif** | Ffurfio barn neu farn fras gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol neu ystyried gwybodaeth arall. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Gwerthuso** | Archwilio cryfderau a gwendidau, dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu nodweddion tebyg ac annhebyg. Barnu'r dystiolaeth o'r gwahanol safbwyntiau a llunio casgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Mae cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol yn gallu cefnogi'r gwerthusiad. |
| **Esbonio** | Darparu gwybodaeth fanwl am y pwnc gyda rhesymau'n dangos sut neu pam. Gallai'r ymatebion gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn. |
| **Allosod** | Defnyddio gwybodaeth sydd ar gael eisoes i ragweld canlyniadau posibl a allai fod y tu allan i'r norm. |
| **Nodi** | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir (efallai y bydd angen rhoi rywfaint o ddisgrifiad hefyd er mwyn cael marciau uwch wrth farcio'n gyfadferol). |
| **Gweithredu** | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| **Dehongli** | Esbonio ystyr rhywbeth. |
| **Barnu** | Ffurfio barn neu wneud penderfyniad. |
| **Perfformio** | Cyflawni tasg neu broses i fodloni gofynion y cwestiwn. |
| **Cynllunio** | Ystyried a threfnu gwybodaeth mewn ffordd resymegol gan ddefnyddio fformat priodol. |
| **Darparu** | Nodi a rhoi gwybodaeth berthnasol a manwl mewn perthynas â'r pwnc. |
| **Myfyrio** | Dylai dysgwyr ystyried eu gweithredoedd, eu profiadau neu eu dysgu a goblygiadau hyn ar gyfer eu hymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| **Adolygu a diwygio** | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau. |
| **Dewis** | Gwneud dewis gwybodus at ddiben penodol. |
| **Datgan** | Rhoi'r prif bwyntiau yn glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| **Crynhoi** | Rhoi'r prif syniadau neu ffeithiau mewn ffordd gryno |
| **Profi** | Cwblhau cyfres o wiriadau gan ddefnyddio gweithdrefn benodol. |

DRAFFT

## Cymhwyswyr graddio

Mae'r term canlynol yn cael ei ddefnyddio yn y disgrifiadau graddio ar draws y cymhwyster hwn i ddangos safon y dystiolaeth a ddisgwylir. Mae'n wahanol i'r berfau gorchymyn uchod, sy'n disgrifio'r hyn y mae'n rhaid i ddysgwr ei wneud.

| | |
|---|---|
| **Manwl** | Tystiolaeth sy'n drylwyr ac yn benodol, gan fynd y tu hwnt i ymateb arwynebol i ddangos dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth. Pan fydd disgrifiad graddio yn gofyn am enghreifftiau manwl, dylai dysgwyr ddarparu enghreifftiau penodol sydd wedi'u datblygu'n dda yn hytrach na rhestr syml. |

DRAFFT

# Adran 4: cymorth

## Deunyddiau cymorth

Mae'r deunyddiau cymorth canlynol ar gael i helpu i ddarparu'r cymwysterau hyn, ac maent ar gael ar wefan NCFE:

- Taflen Ffeithiau Cymhwyster.

## Gwefannau defnyddiol

Gallai'r gwefannau canlynol fod yn ddefnyddiol i ganolfannau er mwyn cael gwybodaeth, deunyddiau ac adnoddau i'w helpu i ddarparu'r cymwysterau hyn:

**Llywodraeth Cymru – Polisi a Strategaeth**
- Cymraeg 2050:Strategaeth y Gymraeg
- Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru 2022 i 2030
- Cymorth i Dwristiaeth a Lletygarwch Cymru yn y Dyfodol
- Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020 i 2025
- Cysylltiadau Polisi Diwydiant Twristiaeth Llywodraeth Cymru
- Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025
- Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025: cynllun cyflawni
- Fforwm Cymru Gydnerth

**Deddfwriaeth Cymru**
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Deddfwriaeth y DU**
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Amser Gweithio 1998
- Rheoliadau Trefniadau Teithio Pecyn a Threfniadau Teithio Cysylltiedig 2018
- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015
- GDPR y DU a Diogelu Data – Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Amddiffyniad ATOL – Yr Awdurdod Hedfan Sifil

**Croeso Cymru**
- Croeso Cymru
- Croeso Cymru – Ymchwil a Mewnwelediadau
- Atyniadau Hygyrch yn Ne Cymru – Croeso Cymru
- Diwydiant Twristiaeth – Croeso Cymru
- Ymgyrchoedd Blwyddyn Thematig – Croeso Cymru

DRAFFT

- Cymorth ac adnoddau sgiliau – Croeso Cymru
- 2026: Ymgyrch Hwyl – Croeso Cymru
- Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yng Nghymru – Croeso Cymru

**Treftadaeth, Diwylliant ac Ymchwil yng Nghymru**
- Cadw
- Amgueddfa Cymru
- Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan
- Yr Eisteddfod Genedlaethol
- Twristiaeth Hygyrch yng Nghymru: A ydym wedi cyrraedd y nod eto? – Ymchwil y Senedd

**Gyrfa a'r Gweithlu yng Nghymru**
- Adolygiad Gyrfa – Cymru'n Gweithio
- ReAct Plws Cymru'n Gweithio

**Diwydiant Cymru a'r Economi Ymwelwyr**
- Cymdeithas Tywyswyr Twristiaid Swyddogol Cymru (WOTGA)
- Maes Awyr Caerdydd
- Techniquest
- Distyllfa Penderyn

**Digwyddiadau yng Nghymru**
- Gŵyl y Dyn Gwyrdd
- Gŵyl y Gelli
- Sioe Frenhinol Cymru

**Paratoi ar gyfer argyfwng, ymateb ac adfer**
- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Ymateb i argyfwng ac adfer – Canllawiau

Darperir y dolenni hyn fel ffynonellau gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol at ddibenion darparu/dysgu yn y maes pwnc hwn. Nid yw NCFE yn cymeradwyo'r gwefannau hyn nac unrhyw adnoddau dysgu sydd ar gael arnynt. I weld adnoddau dysgu swyddogol a gymeradwyir gan NCFE, gweler yr adrannau deunyddiau addysgu a chymorth ychwanegol ar dudalen y cymhwyster ar wefan NCFE.

## Deunyddiau cymorth eraill

Rhaid i'r adnoddau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth ddarparu'r cymwysterau hyn fod yn briodol i oedran, a dylid rhoi ystyriaeth briodol i lesiant a diogelwch dysgwyr yn unol â pholisi diogelu eich canolfan wrth ddatblygu neu ddewis deunyddiau darparu.

Efallai y bydd cynnyrch ar gael i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r cymwysterau hyn. I gael rhagor o wybodaeth am yr adnoddau hyn a sut i gael gafael arnynt, ewch i wefan NCFE.

DRAFFT

## Atgynhyrchu'r ddogfen hon

Caniateir i ganolfannau cymeradwy atgynhyrchu at ddefnydd mewnol o dan yr amodau canlynol:

- cewch gopïo a gludo unrhyw ddeunydd o'r ddogfen hon; fodd bynnag, nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gopi anghyflawn neu wallus o'r wybodaeth hon, nac unrhyw ddefnydd dilynol ohoni
- bydd defnydd o fersiynau PDF o'n deunyddiau cymorth ar wefan NCFE yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i ddysgwyr yn gywir a chyfredol
- ein heiddo ni yn unig yw unrhyw luniau sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn, neu fe'u defnyddir o dan drwydded gan drydydd parti:
    - fe'u diogelir yn ôl cyfraith hawlfraint, ac ni ellir eu hatgynhyrchu, eu copïo na'u haddasu mewn unrhyw ffordd
    - mae hyn yn cynnwys defnyddio unrhyw ddelwedd neu ran o ddelwedd mewn prosiectau unigol neu grŵp a deunyddiau asesu
    - mae caniatâd y model i ddefnyddio'r ddelwedd wedi'i sicrhau.

DRAFFT

# Cysylltu â ni

NCFE
Q6
Quorum Park
Benton Lane
Newcastle upon Tyne
NE12 8BT

Ffôn: 0191 239 8000*
Email: customersupport@ncfe.org.uk
Website: www.ncfe.org.uk

DRAFFT

**Hawlfraint NCFE © 2026 Cedwir pob hawl yn fyd-eang.**

DRAFFT Fersiwn 1.1 Hydref 2026
Mae'r wybodaeth ym Manyleb y Cymhwyster hwn yn gywir wrth i'r Fanyleb gael ei chyhoeddi, ond gallai newid.

Mae NCFE yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen Gofrestredig 1034808) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (Rhif Cwmni 02896700).

Mae CACHE (Council for Awards in Care, Health and Education) ac NNEB yn nodau masnach cofrestredig sy'n eiddo i NCFE.

Mae'r holl ddeunyddiau yn y cyhoeddiad hwn yn cael eu gwarchod gan hawlfraint.

**** Er mwyn parhau i wella lefelau ein gwasanaeth i gwsmeriaid, gall galwadau ffôn gael eu recordio at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.***

# Atodiad A: unedau

Er mwyn symleiddio asesiadau croesgyfeirio a sicrhau ansawdd, rydym wedi defnyddio system rifo ddilyniannol yn y ddogfen hon ar gyfer pob uned.

☆ Defnyddir seren i ddynodi unedau gwybodaeth-yn-unig. Os nad oes gan uned farc seren, mae'n uned sgiliau neu'n cynnwys cymysgedd o wybodaeth a sgiliau.

## Unedau gorfodol

| Rhif yr uned | Cod yr uned | Teitl yr uned | Lefel | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| ☆ Uned 01 | TTW-03-01 | Diwydiant teithio a thwristiaeth y DU | 3 | 60 | |
| Uned 02 | TTW-03-02 | Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes teithio a thwristiaeth | 3 | 60 | |
| Uned 03 | TTW-03-03 | Paratoi ar gyfer gyrfa ym maes teithio a thwristiaeth | 3 | 60 | |

## Unedau dewisol

| Rhif yr uned | Cod yr uned | Teitl yr uned | Lefel | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 04 | TTW-03-04 | Cyrchfannau teithio a thwristiaeth | 3 | 60 | |
| ☆ Uned 05 | TTW-03-05 | Atyniadau i ymwelwyr yn y DU | 3 | 60 | |

DRAFT

| Rhif yr uned | Cod yr uned | Teitl yr uned | Lefel | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 06 | TTW-03-06 | Lletygarwch ym maes teithio a thwristiaeth | 3 | 60 | |
| Uned 07 | TTW-03-07 | Profiad gwaith ym maes teithio a thwristiaeth | 3 | 60 | |
| ☆ Uned 08 | TTW-03-08 | Gweithrediadau teithiau yn y DU | 3 | 60 | |
| Uned 09 | TTW-03-09 | Gweithrediadau asiantaethau teithio | 3 | 60 | |
| Uned 10 | TTW-03-10 | Y diwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU | 3 | 60 | |
| Uned 11 | TTW-03-11 | Marchnata ar gyfer maes teithio a thwristiaeth | 3 | 60 | |
| Uned 12 | TTW-03-12 | Diwydiant trafnidiaeth teithwyr y DU | 3 | 60 | |
| Uned 13 | TTW-03-13 | Rolau a chyfrifoldebau cynrychiolydd cyrchfan | 3 | 60 | |
| Uned 14 | TTW-03-14 | Y diwydiant mordeithio | 3 | 60 | |
| ☆ Uned 15 | TTW-03-15 | Atyniadau treftadaeth i dwristiaid yn y DU | 3 | 60 | |
| ☆ Uned 16 | TTW-03-16 | Twristiaeth gyfrifol | 3 | 60 | |
| Uned 17 | TTW-03-17 | Twristiaeth arbenigol | 3 | 60 | |

DRAFT

| Rhif yr uned | Cod yr uned | Teitl yr uned | Lefel | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 18 | TTW-03-18 | Teithiau busnes | 3 | 60 | |
| Uned 19 | TTW-03-19 | Adrodd straeon ar gyfer twristiaeth | 3 | 60 | |
| Uned 20 | TTW-03-20 | Tywys teithiau | 3 | 60 | |
| Uned 21 | TTW-03-21 | Rheoli argyfwng ym maes teithio a thwristiaeth | 3 | 60 | |
| ☆ Uned 22 | TTW-03-22 | Meysydd awyr y DU | 3 | 60 | |
| Uned 23 | TTW-03-23 | Ymchwilio i griw caban awyren | 3 | 60 | |
| Uned 24 | TTW-03-24 | Arweinyddiaeth ac adnoddau dynol | 3 | 60 | |

Gallai'r unedau uchod fod ar gael fel rhaglenni unedau ar wahân. Ewch i wefan NCFE i gael rhagor o wybodaeth.

DRAFFT

# Cofnod hanes newidiadau

| Fersiwn | Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad o'r newid |
|---|---|---|
| **v1.0** | | Cyhoeddiad cyntaf |
| | | |
| | | |
| | | |

DRAFFT